# Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC

Fersiwn nad yw'n gyfrinachol – wedi'i olygu ar gyfer cyhoeddi [✂]

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2022

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 14 Medi 2022

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3
2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn 8
3. Cyd-destun y farchnad 12
4. Dyheadau ar gyfer Trwydded Weithredu newydd y BBC 17
5. Dal y BBC i gyfrif 22
6. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 30
7. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 2 40
8. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3 46
9. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 69
10. Y camau nesaf 90


## Atodiad


A1. Geirfa 92
A2. Cymharu'r Drwydded Weithredu bresennol a'r Drwydded Weithredu ddrafft 93
A3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 102
A4. Y fframwaith cyfreithiol 107
A5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 110
A6. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 113
A7. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 114
A8. Cwestiynau'r ymgynghoriad 115

# 1. Trosolwg

1.1 **Dylai cynulleidfaoedd fod yn ganolog i weithgareddau'r BBC ac i waith rheoleiddio Ofcom ar y BBC.** Fodd bynnag, mae'r hyn mae cynulleidfaoedd ei eisiau, a sut maen nhw'n gwylio ac yn gwrando ar gynnwys, yn newid. Dylai gwaith rheoleiddio Ofcom alluogi'r BBC i ymateb i'r newid hwn mewn ymddygiad, gan ei ddal i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus y mae Senedd y DU wedi cytuno arnynt. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried sut mae angen diweddaru Trwydded Weithredu'r BBC i sicrhau ei bod yn dal yn effeithiol, nawr ac yn y dyfodol, ac mae'n nodi ein cynnig ar gyfer sut bydd Trwydded ddigidol aml-lwyfan, sydd wedi'i gwreiddio mewn darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd, yn cyflawni hynny.

## Mae'r BBC yn wynebu heriau sylweddol, ond mae hefyd yn wynebu cyfleoedd gwych

1.2 **Mae'r BBC wrth galon sector darlledu'r DU o hyd.** Y BBC yw'r darparwr cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU, gan gyrraedd ychydig dros wyth o bob deg oedolyn bob wythnos.[1] Mae'n darparu amrywiaeth heb ei ail o gynnwys amrywiol, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, cynnwys addysg a dysgu, drama, rhaglenni dogfen, adloniant a chwaraeon, ac yn darlledu digwyddiadau mawr sy'n dod â'r genedl at ei gilydd. Mae cynulleidfaoedd ar draws ein gwledydd a'n rhanbarthau yn gallu gweld a chlywed ei rhaglenni ar y radio, ar y teledu ac ar-lein. Mae'n cael effaith enfawr ar ein heconomi greadigol ac mae'n parhau i fod y comisiynydd cynnwys mwyaf ar draws y DU.

1.3 **Mae'r BBC yn gweithredu mewn tirwedd sy'n newid yn gyflym.** Yn ein dogfen ymgynghori *Sgrin Fach:Trafodaeth Fawr* a gyhoeddwyd yr haf diwethaf, rydyn ni'n nodi sut mae datblygiadau technolegol, mwy o gystadleuaeth gan chwaraewyr byd-eang a newid parhaus mewn ymddygiad cynulleidfaoedd yn tarfu ar farchnad cyfryngau'r DU ac yn creu heriau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ystyriwyd heriau tebyg i ddarlledwyr yn y sector radio a sain yn Adolygiad o Sain a Radio Digidol y Llywodraeth. Mae'r heriau hyn yn cael eu dwysau gan bwysau ar gyllid a gallent effeithio ar gynaliadwyedd yn y tymor hir.

1.4 **Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae'r BBC yn moderneiddio ac yn trawsnewid.** Dylai barhau i arloesi er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan newidiadau yn y farchnad a datblygiadau technolegol. Mae'n rhaid iddo hefyd barhau i ddiweddaru sut mae'n cyflawni ei Genhadaeth er mwyn hysbysu, addysgu a diddanu i sicrhau ei fod yn cyrraedd pob cynulleidfa ac yn berthnasol iddynt. Mae'r BBC wedi nodi ei strategaeth ar gyfer gwneud hyn yn ddiweddar.

[1] IPA TouchPoints 2021 ton 2.

## Er mwyn galluogi'r BBC i drawsnewid, mae angen i ni ddiweddaru ein rheoliadau

1.5 **Dylai ein gwaith o reoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adlewyrchu datblygiadau yn y diwydiant.** Gwnaethom dynnu sylw at yr angen i foderneiddio'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac ymestyn rheoleiddio amlygrwydd i gefnogi cynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ein hadolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, ac mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bwriad i ddiwygio'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei Phapur Gwyn diweddar. Mae ein hadolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi heddiw, yn nodi ein cynlluniau ar gyfer diweddaru sut rydyn ni'n rheoleiddio'r BBC ar draws ein cylch gwaith, fel y nodir yn Siarter a Chytundeb y BBC.

1.6 **Er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd, mae angen i ni ddiweddaru ein gwaith rheoleiddio.** Mae Ofcom yn gosod Trwydded Weithredu sy'n sicrhau bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael gwasanaeth da gan y BBC, bod y BBC yn cyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, ac yn darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Mae'n cynnwys cwotâu sy'n benodol i wasanaethau teledu a radio unigol yn bennaf, heb lawer o gydnabyddiaeth i'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar-lein. Heb ddiwygio, bydd y Drwydded yn mynd yn groes i ymddygiad cynulleidfaoedd a datblygiadau technolegol a gallai rwystro trawsnewidiad y BBC.

## Bydd Trwydded ddigidol aml-lwyfan sy'n fwy tryloyw yn ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif yn effeithiol

1.7 Mae gennym dair prif egwyddor ar gyfer y Drwydded sydd wedi'i diweddaru:

a) **Rhaid i'r Drwydded gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC.** Mae BBC iPlayer, BBC Sounds, gwefan y BBC a gwasanaethau ar-lein eraill wedi dod yn fwyfwy pwysig o ran cyrraedd cynulleidfaoedd. Rydyn ni am sicrhau ein bod yn dal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth ar-lein i gynulleidfaoedd, yn ogystal â rhoi mwy o gydnabyddiaeth iddo am ei gyfraniad at Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC.

b) **Dylai'r Drwydded roi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu sut mae diwallu anghenion cynulleidfaoedd.** Mae cwotâu'n sicrhau bod y BBC yn darparu isafswm o gynnwys ar wasanaethau penodol ond nid ydynt yn cynnwys agweddau fel ansawdd ac arloesedd a gallent gyfyngu ar allu'r BBC i ymateb yn gyflym i newidiadau yn yr hyn sydd orau gan gynulleidfaoedd. Rydyn ni'n bwriadu rhoi amodau newydd yn lle rhai cwotâu lle rydyn ni'n credu y gallai mwy o hyblygrwydd alluogi'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well, ond cadw cwotâu lle rydyn ni'n credu sydd eu hangen o hyd, er enghraifft i ddiogelu natur unigryw, newyddion a materion cyfoes.

c) **Bydd y Drwydded yn gofyn am fwy o dryloywder gan y BBC.** Rydyn ni wedi amlygu dro ar ôl tro fod angen i'r BBC fod yn fwy tryloyw, ond mae angen gwneud rhagor o welliannau o hyd. Er mwyn i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid fod yn hyderus ynghylch y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac er mwyn i Ofcom allu camu i ffwrdd o reoleiddio

manwl, rhaid i'r BBC egluro ei strategaeth a'i gynlluniau'n well a bod yn llawer cliriach ynghylch lle mae eisoes yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd a lle gall wneud yn well. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r Drwydded fynnu bod y BBC yn nodi gwybodaeth benodol yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer oriau allbwn lle rydyn ni'n cynnig dileu cwotâu.

1.8 **Byddwn ni'n dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd.** Bydd mwy o dryloywder gan y BBC, ynghyd â'n gwaith monitro parhaus, yn caniatáu i ni weithredu'n gyflym os byddwn yn poeni am gydymffurfiad y BBC ag amodau ei Drwydded. Ar ben hynny, rydyn ni'n gwerthuso perfformiad ehangach y BBC drwy ein rhaglen helaeth o ymchwil i gynulleidfaoedd, gwybodaeth a ddarperir i ni gan y BBC ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Os bydd gennym bryderon am gynlluniau neu berfformiad y BBC, ni fyddwn yn oedi cyn gosod amodau Trwydded newydd.

## Sut rydyn ni'n bwriadu diweddaru'r Drwydded Weithredu – yn gryno

### Rydyn ni'n cynnig gosod gofynion newydd ar wasanaethau ar-lein y BBC

- Mae'r Drwydded arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod cynnwys pwysig, gan gynnwys cynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau a rhaglenni mewn perygl, ar gael i gynulleidfaoedd ar-lein a'i bod yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwnnw; a
- Mae'n mynnu bod y BBC yn egluro sut mae'n defnyddio'r gwasanaethau hyn i gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a sut maen nhw'n cyfrannu at ei berfformiad.

### Rydyn ni'n cynnig rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC lle gall hyn alluogi iddo wasanaethu cynulleidfaoedd yn well, ond cadw cwotâu lle mae angen mesurau diogelu penodol

Mae'r Drwydded arfaethedig yn gwneud rhai cwotâu yn fwy hyblyg ac yn disodli rhai eraill â gofynion i'r BBC ddarparu cynnwys, ynghyd â gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth fanwl. Mae hyn yn wir ar gyfer y cwotâu ar gyfer:

- teledu rhwydwaith: y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni crefyddol, cynnwys i blant a chomedi
- radio rhwydwaith: y celfyddydau, rhaglenni crefyddol, rhaglenni dogfen, gweithredu cymdeithasol, perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig a gweithiau cerddorol newydd
- gwasanaethau optio allan ar y teledu: rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes
- BBC ALBA: rhaglenni i ddysgu Gaeleg;
- teledu rhwydwaith a BBC iPlayer: rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf

Serch hynny, rydyn ni'n cynnig cadw amrywiaeth o gwotâu, gan gynnwys diogelu:

- darparu newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau teledu a radio y BBC
- cynnwys gwreiddiol o'r DU ar bob un o wasanaethau teledu'r BBC
- natur unigryw gwasanaethau radio rhwydwaith y BBC (cwotâu cerddoriaeth ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 2; cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig ar gyfer BBC Radio 3 a sylw chwaraeon ar gyfer BBC Radio 5 Live);
- cynyrchiadau rhanbarthol ar y teledu a'r radio.

### Rydyn ni'n cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi rhagor o wybodaeth a gwybodaeth well gyda'i Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol

Pan fyddwn yn cynnig dileu cwotâu, bydd yn rhaid i'r BBC gynnwys gwybodaeth benodol yn ei Gynllun Blynyddol, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- yr oriau arfaethedig y bydd yn darparu cynnwys mewn genres penodol;
- ar ba wasanaethau mae'r BBC yn bwriadu rhoi cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf.

Hefyd, bydd gofyn i'r BBC fod yn fwy agored ynghylch sut mae wedi cyflawni ei gylch gwaith gyda'i Adroddiad Blynyddol. Ar ben hynny, bydd y Drwydded yn cynnwys gofynion cryfach i sicrhau adroddiadau mwy effeithiol ar amrywiaeth, cynrychiolaeth a phortreadu.

Bydd y tryloywder cynyddol a ddarperir gan y Drwydded yn galluogi Ofcom i gamu i mewn yn gyflymach os bydd gennym bryderon am gynlluniau neu berfformiad y BBC.

**Rydyn ni'n cynnig symleiddio'r Drwydded a gwneud newidiadau mewn ymateb i geisiadau penodol a wneir gan y BBC**

- Gwneud cwotâu newyddion a materion cyfoes ar radio rhwydwaith bob blwyddyn yn hytrach na bob dydd neu bob wythnos (gan gadw rhwymedigaeth ar y BBC i sicrhau bod newyddion ar gael yn rheolaidd yn ystod y dydd)
- Lleihau cwota cynyrchiadau gwreiddiol BBC Four o 75% i 65%
- Lleihau'r cwota cynnwys llafar ar y cyfnod brig amser brecwast ar gyfer radio lleol o 100% i 75%

## Y camau nesaf

1.9 Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 14 Medi 2022. Rydyn ni'n disgwyl cyhoeddi datganiad terfynol a Thrwydded wedi'i diweddaru, sy'n adlewyrchu sylwadau rhanddeiliaid ar ein cynigion, yn gynnar yn 2023 mewn pryd i'r Drwydded newydd ddod i rym ar 1 Ebrill 2023. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn cynnal ei Hadolygiad Canol Tymor o Siarter y BBC,[2] a byddwn yn diweddaru'r Drwydded Weithredu ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn os bydd angen.

[2] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 26 Mai 2022. Adolygiad Canol Tymor y BBC: Cylch Gorchwyl.

# 2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn

## Gosodon ni'r Drwydded Weithredu bresennol pan ddechreuwyd rheoleiddio'r BBC yn 2017

2.1 O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i ni osod Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.[3] Mae'r Drwydded yn rhan bwysig o'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio perfformiad y BBC ac yn ei dal i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

2.2 Mae gan Fwrdd y BBC rôl wahanol ar wahân i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, ac i bennu'r cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith creadigol ar gyfer gwneud hynny.[4] Cyfrifoldeb Bwrdd y BBC hefyd yw pennu cyllidebau ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC.

2.3 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn cynnwys manylion penodol am yr amodau y mae'n rhaid i ni eu gosod yn y Drwydded Weithredu, ac mae hefyd yn nodi cyfrifoldeb Ofcom dros orfodi'r BBC i gydymffurfio â'r amodau hyn. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i ni osod amodau rheoleiddio sy'n mynnu bod y BBC yn:

a) cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.[5]

2.4 Mae'r Cytundeb hefyd yn mynnu ein bod yn gosod amodau penodol yn y Drwydded Weithredu ar gyfer deunydd ar-lein trydydd parti, a nifer ac amserlennu newyddion a materion cyfoes, yn ogystal â chwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a chreu rhaglenni a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau. Hefyd, wrth bennu'r Drwydded Weithredu gyntaf, roedd y Cytundeb yn mynnu ein bod yn gosod amodau rheoleiddio penodol, gan roi sylw i genres mewn perygl,[6] cerddoriaeth a chwaraeon ar wasanaethau radio'r BBC, a gwella'r ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ac allbwn ac addysg plant mewn perthynas â gwasanaethau ar-lein. Nid oes rhaid cadw'r amodau hyn y tu hwnt i'r Drwydded gyntaf.

2.5 Yn unol â'r gofynion hyn, fe wnaethom bennu Trwydded Weithredu gyntaf y BBC yn 2017. Mae Adran 1 y Drwydded honno yn cynnwys amcanion sy'n egluro ein disgwyliadau o ran sut mae'n rhaid i'r BBC gyflawni pob un o'i Ddibenion Cyhoeddus. Dilynir hyn gan Atodlen 1, sy'n cynnwys amodau rheoleiddio gorfodadwy. Mae'r amodau hyn yn cynnwys cwotâu yn bennaf sy'n mynnu bod y BBC yn darparu isafswm oriau o gynnwys ar draws gwahanol

---

[3] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn golygu'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC dan Ran 1 Atodlen 1 i'r Cytundeb, fel y caiff ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd.
[4] Erthygl 20(3)(a) a (b) y Siarter.
[5] Erthygl 46(3) y Siarter.
[6] Mae'r Cytundeb yn diffinio'r rhain fel genres sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, a rhaglenni plant.

genres ar wasanaethau teledu a radio penodol. Fel arfer, rydyn ni'n gosod y cwotâu i adlewyrchu lefel a dull darparu allbwn y BBC yn 2017. Felly, dim ond ychydig o gydnabyddiaeth y mae'r Drwydded yn ei rhoi i wasanaethau ar-lein y BBC, fel BBC iPlayer a BBC Sounds.

## Wrth i ni nesáu at ganol cyfnod y Siarter presennol, rydyn ni'n adolygu ein gwaith o reoleiddio'r BBC

2.6 Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i ni "gynnal a chyhoeddi dau neu fwy o adolygiadau cyfnodol manwl" yn ystod cyfnod y Siarter (2017 i 2027),[7] a rhaid cyhoeddi'r cyntaf "mewn da bryd" i lywio Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r Siarter.[8] Rhaid i adolygiad y Llywodraeth fod wedi'i gwblhau erbyn 2024.[9]

2.7 Fe wnaethom ddechrau'r adolygiad cyntaf hwn drwy gyhoeddi Ymgynghoriad Cychwynnol ym mis Gorffennaf 2021, a oedd yn nodi cynigion ar draws ein tri maes rheoleiddio'r BBC – perfformiad, safonau a chystadleuaeth – i sicrhau bod y BBC yn parhau i wasanaethu pob cynulleidfa yn dda dros weddill y cyfnod Siarter hwn, a thu hwnt. Roedd hyn yn adeiladu ar ein hymchwil Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr, a wnaeth argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar y sector fideo. Ers hynny, ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer y sector darlledu. Mae'n nodi'r camau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i gefnogi'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn cydnabod yr angen i ddiweddaru rheoleiddio i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddarparu ar gyfer holl gynulleidfaoedd y DU. Ochr yn ochr â'r Papur Gwyn, cyhoeddodd y llywodraeth hefyd ei hymateb i'r Adolygiad Sain a Radio Digidol, gan nodi ei safbwyntiau ynghylch sut y gellid cryfhau'r sectorau hyn yng nghyd-destun newid arferion gwrando a'r ffyrdd amrywiol o ddosbarthu gwasanaethau.

2.8 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ac yn adeiladu ar ein cynigion cychwynnol ar gyfer adolygu Trwydded Weithredu'r BBC, gan ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad Cychwynnol, ein hadolygiad o berfformiad y BBC hyd yma a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ein hymchwil ymysg cynulleidfaoedd ac adroddiadau blynyddol ar y BBC bob blwyddyn.

2.9 Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni wedi cyhoeddi adroddiad ar Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, gan nodi ein canfyddiadau ar draws ein holl ddyletswyddau a gwneud argymhellion ar gyfer sut gallai ein gwaith rheoleiddio esblygu hyd at 2027. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi'r ymchwil rydyn ni wedi'i gynnal ar gyfer yr adolygiad hwn.

## Rydyn ni wedi ystyried effaith ein cynigion

2.10 Mae gan Ofcom ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau effaith pan fyddai ein penderfyniadau polisi'n debyg o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu ar y cyhoedd, neu

[7] Erthygl 51(1) y Siarter.
[8] Erthygl 51(2) ac Erthygl 57 y Siarter.
[9] Erthygl 57(3) y Siarter.

pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.[10] Mae ein hasesiadau o effaith bosib ein cynigion wedi cael eu llywio gan yr ymatebion a gafwyd i'n Hymgynghoriad Cychwynnol, a'r ymchwil rydyn ni wedi'i gynnal, ac maen nhw'n cael eu hegluro yn y ddogfen yma. Rydyn ni hefyd wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth bwyso a mesur a allai'r gofynion rydyn ni'n cynnig eu gosod ar y BBC yn y Drwydded beri niwed i gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.11 Rydyn ni' credu bod ein cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd yn gymesur a byddwn yn sicrhau bod Ofcom yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb er budd cynulleidfaoedd ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter hwn. Nid ydym yn credu y bydd ein cynigion yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ffocws ein dull gweithredu yw sefydlu trwydded ddigidol amlbwrpas sy'n addas i'r diben. Fodd bynnag, petai'r BBC yn gwneud newidiadau sylweddol yn y dyfodol, byddai angen i'r BBC ystyried effeithiau posibl ar gystadleuaeth ac, os bydd angen, Ofcom, o dan y prosesau presennol.[11]

2.12 Rydyn ni hefyd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 3.

## Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

2.13 Rydyn ni'n gofyn am ymatebion ar ein cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd ar draws pob un o Ddibenion Cyhoeddus y BBC, yn ogystal â barn ynghylch sut y dylai Ofcom asesu a mesur perfformiad y BBC. Rydyn ni hefyd eisiau clywed safbwyntiau ar gais y BBC i ddiwygio'r cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar BBC Four. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn llawn yn Atodiad 8.

2.14 Mae **Adran 3** yn trafod yr heriau y mae'r BBC yn eu hwynebu ac yn rhoi cyd-destun ar gyfer y cynigion sydd wedi'u nodi yng ngweddill y ddogfen.

2.15 Mae **Adran 4** yn egluro ein huchelgais ar gyfer Trwydded Weithredu newydd ac yn nodi ein tair prif egwyddor – ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC, rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC o ran sut mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd, a mynnu mwy o dryloywder gan y BBC.

2.16 Mae **Adran 5** yn nodi sut rydyn ni'n bwriadu dal y BBC i gyfrif.

2.17 Mae **Adran 6** yn nodi ein cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 (newyddion a materion cyfoes).

2.18 Mae **Adran 7** yn nodi ein cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 2 (dysgu).

---

[10] Adran 7 o'r Ddeddf.

[11] Mae gan y BBC gyfrifoldeb cychwynnol dros ystyried effeithiau posibl newidiadau i'w wasanaethau o ran cystadleuaeth. Os bydd y BBC yn cynnig newidiadau i'w allbwn a'i wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn sylweddol o fewn telerau'r Cytundeb, byddwn yn cynnal asesiad cystadleuaeth cyn y caniateir i'r cynlluniau fynd rhagddynt. Mewn achosion eraill, os bydd sail resymol dros gredu bod y ffordd mae'r BBC yn cyflawni unrhyw un o'i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, fe allwn ni gynnal adolygiad cystadleuaeth.

2.19 Mae **Adran 8** yn nodi ein cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3 (natur unigryw). Mae'r adran hon hefyd yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliad ar gynnig y BBC i ddiwygio'r cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar BBC Four.

2.20 Mae **Adran 9** yn nodi ein cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 (amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd, a rhaglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol).

2.21 Mae **Adran 10** yn egluro'n fyr y camau nesaf i Ofcom, gan gynnwys ein cynlluniau i ymgysylltu â'r Llywodraeth dros y misoedd nesaf ynghylch newidiadau posibl i Gytundeb y BBC.

2.22 Ceir atodiadau ategol ar y meysydd canlynol:

a) **Atodiad 1:** Geirfa

b) **Atodiad 2:** Cymharu'r Drwydded Weithredu bresennol a'r Drwydded Weithredu ddrafft newydd

c) **Atodiad 3:** Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

d) **Atodiad 4:** Y fframwaith cyfreithiol

e) **Atodiad 5:** Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

f) **Atodiad 6:** Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

g) **Atodiad 7:** Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

h) **Atodiad 8:** Cwestiynau'r ymgynghoriad

i) **Atodiad 9:** Trwydded Weithredu Ddrafft y BBC

j) **Atodiad 10:** Cais y BBC i newid Trwydded BBC Four

# 3. Cyd-destun y farchnad

3.1 Hyd yn oed ers i ni ddechrau rheoleiddio'r BBC yn 2017, mae'r dewis o gynnwys a gwasanaethau sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU wedi parhau i dyfu'n sylweddol, wedi'i ysgogi gan ddarparwyr byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda, fel Netflix, Disney+ a Spotify. Bu newidiadau parhaus hefyd yn ymddygiad cynulleidfaoedd a datblygiadau yn y dechnoleg y mae pobl yn ei defnyddio i gael gafael ar gynnwys. Mae modd gweld y newidiadau hyn yn y sectorau fideo a sain, yn ogystal ag yn y dirwedd ar-lein ehangach, ac mae cynulleidfaoedd hefyd nawr yn treulio mwy o amser ar weithgareddau ar-lein fel chwarae gemau. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn golygu bod yn rhaid i'r BBC addasu i barhau i gyrraedd a bod yn berthnasol i bob cynulleidfa.

## Mae cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar gynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau a gwasanaethau

3.2 Mae llawer o gynulleidfaoedd yn dal i fwynhau teledu a radio sy'n cael eu darlledu. Er enghraifft, er bod yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwrando ar radio byw o'i gymharu â gweithgareddau sain eraill yn gostwng,[12] mae'n dal i ddenu cynulleidfa uchel, gyda chyfartaledd o naw oedolyn o bob deg yn gwrando bob wythnos, gan gynnwys tri chwarter o bobl ifanc 15-24 oed, yn ystod chwarter cyntaf 2022.[13] Yn benodol, mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi radio byw er mwyn cael newyddion a gwybodaeth, yn ogystal â darparu mynediad hawdd at gynnwys wrth fynd i'r gwaith neu i leoedd eraill yn y car.[14] Yn 2020, arweiniodd gyfyngiadau Covid-19 at gynnydd yn y nifer a oedd yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu – sy'n gwrthdroi'r gostyngiad yn y duedd a welwyd dros y degawd diwethaf – sy'n cael ei sbarduno gan bobl dros 45 oed. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, gwelwyd gostyngiad eto yn lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu, gyda ffigurau gwylio 2021 yn disgyn yn is na lefelau 2019.[15]

3.3 Mae darlledwyr hefyd yn cystadlu fwyfwy â gweithgareddau ar-lein am amser a sylw cynulleidfaoedd. Er enghraifft, roedd nifer y cartrefi a oedd â gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) fel Netflix wedi codi o 32% yn 2017 i 69% yn Ch4 2021,[16] er bod ymchwil diweddar gan Kantar wedi canfod bod rhai aelwydydd yn canslo tanysgrifiadau SVoD wrth i gostau byw gynyddu. Mae ein hymchwil wedi dangos bod mwyafrif (88%) o oedolion ar-lein wedi defnyddio gwasanaethau rhannu fideos fel YouTube a TikTok[17], sy'n cynyddu i 95% o blant 3-17 oed.[18] Mae chwarae gemau hefyd yn weithgaredd sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd; mae 39% o oedolion yn y DU yn chwarae gemau ar-lein.[19] Hefyd, mae gwasanaethau ffrydio fel Spotify wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n gwrando ar sain ar-

---

[12] IPA TouchPoints 2021 w2.
[13] RAJAR Ch1 2022.
[14] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.6.
[15] BARB.
[16] Arolwg Sefydliad BARB. Mae ffigur 2017 yn cyfeirio at Ch1 2017.
[17] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2021 Ofcom: Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein.
[18] Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad ar agweddau a defnydd o gyfryngau 2022.
[19] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2021, Ofcom: Arolwg craidd.

lein – roedd 48% o oedolion yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth ar-lein yn 2021, gan gynyddu i 80% o bobl ifanc 15-24 oed.[20] Mae ymchwil hefyd wedi canfod bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau sain fel Spotify, Apple Music ac Amazon Music am eu profiad mwy personol ac amrywiaeth ehangach o gynnwys.[21]

3.4 Er mwyn cyrraedd y nifer cynyddol o gynulleidfaoedd sy'n defnyddio cynnwys ar-lein yn well, yn enwedig mewn grwpiau oedran iau, mae'r BBC wedi ehangu ei wasanaethau ar-lein. Er enghraifft, lansiodd BBC Sounds[22] yn 2018 fel rhan o'i strategaeth i addasu i newidiadau mewn ymddygiad cynulleidfaoedd, ac yn 2019, fe wnaeth Ofcom gymeradwyo cynllun y BBC i gynyddu argaeledd cynnwys drwy ddatblygu BBC iPlayer y tu hwnt i wasanaeth dal i fyny 30 diwrnod. Cafodd y BBC lwyddiant gyda'r gwasanaethau hyn – roedd y nifer a oedd yn gwylio BBC iPlayer yn uwch nag erioed yn 2021, gyda cheisiadau wedi codi 28% ers y flwyddyn flaenorol.[23] Mae data ein harolwg yn dangos mai cyrhaeddiad wythnosol BBC Sounds yn 2022 oedd 21%, ar ôl Amazon Music (25%) a Spotify (32%).[24]

3.5 Fodd bynnag, mae grwpiau cynulleidfa o hyd sy'n gwylio ac yn gwrando ar lawer iawn o gynnwys ar wasanaethau darlledu traddodiadol, gan gynnwys gan y BBC, ac mae'n rhaid iddynt barhau i gael eu gwasanaethu. Er enghraifft, mae ein hymchwil yn dangos bod rhai cynulleidfaoedd yn teimlo bod faint o gynnwys sydd ar SVoDs yn llethol ac yn ddryslyd, ac mae teledu sy'n cael ei ddarlledu yn cael ei weld yn haws ac yn fwy dibynadwy i'w ddefnyddio.[25] Hefyd, mae rhai grwpiau cynulleidfa nad oes ganddynt fynediad rhwydd at wasanaethau ar-lein – does gan 6% o gartrefi ddim mynediad at y rhyngrwyd gartref, ac mae'r ganran honno'n codi i 14% mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac i 20% o blith y rheini sy'n 65 oed a hŷn.[26]

> "Mae gormod o bethau i'w gwylio, mae'n eithaf anodd penderfynu beth i'w wylio, mae'n llethol".[27] **Merch, dan 18 oed**

## Rhaid i'r BBC addasu er mwyn apelio i gynulleidfaoedd mewn marchnad cyfryngau sy'n esblygu drwy'r amser

3.6 Mae gan y BBC rôl unigryw, a nodir yn ei Genhadaeth, i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU. Mae cynulleidfaoedd yn teimlo bod y BBC yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r genedl ac mae'n perfformio'n arbennig o gryf mewn rhai meysydd; er enghraifft, mae ein hymchwil wedi canfod bod cynulleidfaoedd yn cysylltu'r BBC yn benodol â digwyddiadau teledu mawr, digwyddiadau byw sydd o bwys cenedlaethol, a newyddion.[28] Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod pandemig Covid-19, gyda datganiad y Prif Weinidog am lacio'r

[20] IPA TouchPoints 2021 w2.
[21] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.6.
[22] Gwnaeth BBC Sounds ddisodli BBC iPlayer Radio, sef gwasanaeth sain ar-lein blaenorol y BBC.
[23] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
[24] Arolwg Sain Ofcom 2022.
[25] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.6.
[26] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2021, Ofcom: Arolwg omnibws CATI.
[27] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.19.
[28] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.22, 9.

cyfnod clo ym mis Mai 2020 yn denu 19 miliwn o wylwyr ar BBC One, ac yn ystod Ewro 2020, lle bu 18 miliwn o bobl yn gwylio BBC One i weld tîm pêl-droed Lloegr yn chwarae yn erbyn yr Eidal yn y rownd derfynol ym mis Gorffennaf 2021. Denodd y BBC ei chynulleidfa fwyaf yn 2022 hyd yma yn ystod ei ddarllediadau o Jiwbilî Platinwm y Frenhines ym mis Mehefin, gyda chyfartaledd o dros 11 miliwn o bobl yn gwylio cyngerdd 'Platinum Party at the Palace' ar BBC One.[29] Ar ben hynny, mae ymchwil ymysg cynulleidfaoedd wedi canfod bod gwrandawyr yn canmol radio'r BBC – mae dros chwech o bob deg o wrandawyr yn teimlo ei fod o ansawdd uwch a bod ganddo fwy o amrywiaeth o gynnwys na darparwyr eraill.[30]

"Pan fydd achlysuron mawr yn digwydd, fel Priodas Frenhinol neu Wimbledon, bydd yn digwydd ar y BBC. BBC yw'r lle i droi pan fydd rhywbeth mawr yn digwydd".[31] **Dyn, 30-55 oed**

"Mae'r BBC yn helpu i roi ymdeimlad o gymuned gyda digwyddiadau byw oherwydd bydd pawb yn siarad amdano'r diwrnod canlynol ac yn gofyn "welsoch chi hynny neithiwr" – dydy hynny ddim yn digwydd gyda llwyfannau ffrydio".[32] **Dyn, 55+ oed**

3.7 Mae'r newidiadau yn ymddygiad y gynulleidfa, y datblygiadau parhaus yn nhirwedd cyfryngau'r DU a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r BBC, yn cyflwyno heriau – a chyfleoedd – iddo o ran sut mae'n apelio at ac yn cynnal cynulleidfaoedd ar draws cymunedau amrywiol y DU. Er enghraifft, fel y gwnaethom nodi yn Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr, dylai'r BBC ddefnyddio ei holl wasanaethau – darlledu ac ar-lein – i gyrraedd a chynnal cysylltiadau cryf â chynulleidfaoedd.[33] Rydyn ni hefyd wedi nodi pwysigrwydd y BBC o ran darparu cynnwys unigryw a gwreiddiol o'r DU sy'n ei osod ar wahân i ddarparwyr eraill, sy'n dod yn fwyfwy pwysig mewn marchnad cyfryngau sy'n orlawn.[34]

3.8 Fodd bynnag, mae ein hymchwil wedi canfod bod llawer o gynulleidfaoedd yn dal i weld gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr fel BBC iPlayer fel gwasanaethau dal i fyny ar gyfer cynnwys sy'n cael ei golli ar sianeli teledu traddodiadol, yn hytrach na chyrchfannau ar gyfer chwilio am gynnwys newydd.[35] Ar ben hynny, mae'r BBC wedi bod yn llai llwyddiannus na radio masnachol o ran denu gwrandawyr ar-lein – mae radio masnachol yn cyfrif am 55% o'r holl oriau gwrando radio ar-lein, o'i gymharu â 41% ar gyfer y BBC.[36] Ar gyfer pobl ifanc 15-24 oed, mae hyn yn gostwng ymhellach i 31% ar gyfer y BBC o'i

[29] BARB. Mae ffigurau 'Party at the Palace' ar gyfer y rheini a'i gwyliodd yn fyw (ar yr adeg y cafodd ei darlledu) neu'n ddiweddarach y noson honno ar y teledu. Gan gynnwys gwylio'n ddiweddarach, mae'r gynulleidfa gyfartalog wedi cynyddu i bron i 13 miliwn (ar 09/06/2022).
[30] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
[31] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.9.
[32] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.9.
[33] Ofcom, Gorffennaf 2021. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Argymhellion i'r Llywodraeth ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, t.3
[34] Ofcom, Tachwedd 2021. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, t.3.
[35] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.
[36] Priodolir y 4% sy'n weddill i orsafoedd tanysgrifio nad ydynt yn RAJAR, gan gynnwys radio cymunedol, radio rhyngwladol a rhai gorsafoedd ar-lein yn unig yn y DU.

gymharu â 67% ar gyfer radio masnachol.[37] Felly, mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i addasu er mwyn sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer pob cynulleidfa.

> "Mae BBC iPlayer yn debyg i lyfrgell hen ffasiwn lle gallwch bori drwy lyfrau. Ond mae gan Netflix a [Amazon] Prime algorithm gwell. Maen nhw'n teimlo'n fwy rhyngweithiol o'u cymharu ag iPlayer sy'n fwy statig".[38] **Dyn, 55+ oed**
>
> "Dyna pam mae gwasanaethau ffrydio yn eithaf da oherwydd fel arfer mae pethau sy'n addas i bob chwaeth".[39] **Menyw, 55+ oed**

## Mae'r BBC wedi nodi ei strategaeth ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter hon

3.9 Mae'r BBC yn wynebu pwysau sylweddol o ran cyllid. Mae cyfanswm incwm y BBC wedi disgyn 4.5% mewn termau real[40] ers 2017/18[41] wedi'i ysgogi gan ostyngiad yng nghyfanswm refeniw ffi'r drwydded, o £4.01 biliwn i £3.75 biliwn. Mae lefel ffi'r drwydded hefyd wedi cael ei rhewi am ddwy flynedd, ac mae'r BBC yn amcangyfrif y bydd angen iddo arbed £285 miliwn bob blwyddyn erbyn 2027/28.[42] Ar yr un pryd, mae'r BBC nawr yn cystadlu am gynulleidfaoedd gyda chwmnïau byd-eang mawr sydd gan lawer mwy o adnoddau ariannol i'w buddsoddi mewn gwasanaethau a chynnwys. Mae cost gwneud rhaglenni hefyd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r gost fesul awr o gynnwys gwreiddiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cynyddu 9% yn uwch yn 2019 nag yn 2015.[43]

3.10 Yn y cyd-destun hwn, mae'r BBC wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer sut mae'n bwriadu darparu ar gyfer pob cynulleidfa dros weddill cyfnod y Siarter hon. Yn ei araith gyntaf fel Cyfarwyddwr Cyffredinol, gosododd Tim Davie her i ystyried beth fyddai'r BBC yn ei wneud pe bai ond yn gallu gwneud 80% o'i oriau presennol a lle gallai gynhyrchu'r gwerth mwyaf. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y BBC hefyd sut mae'n bwriadu darparu ar gyfer pob cynulleidfa ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

3.11 Yn fwyaf diweddar, mae'r BBC wedi nodi ei gynlluniau i ddod yn sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol cyntaf ac mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi egluro bod yn rhaid i'r BBC ddiwygio er mwyn aros yn berthnasol.[44] Mae'r cynlluniau'n nodi sut bydd y BBC yn ymateb i'w heriau ariannol drwy wneud toriadau a newidiadau i rai o'i gynnwys a'i wasanaethau, ac yn hytrach yn newid ffocws ei fuddsoddiad lle mae'n credu y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynulleidfaoedd. Er enghraifft, dywedodd y BBC ei fod yn bwriadu symud

---

[37] RAJAR Ch1 2022.
[38] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.21.
[39] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.14.
[40] Yn nhermau mis Mawrth 2021.
[41] Dadansoddiad Ofcom o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC.
[42] BBC, Mawrth 2022. Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, t.21
[43] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Cost fesul awr wedi'i gyfrifo mewn termau nominal gan ddefnyddio gwariant uniongyrchol a chyfraniadau trydydd parti at wariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar oriau gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Tarfodd pandemig Covid-19 ar y cynnydd hwn, a gafodd effaith ar gynhyrchu yn 2020.
[44] Araith Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, i staff ar 26 Mai 2022. 'A digital-first BBC'.

swm sylweddol o arian i raglenni newydd ar gyfer BBC iPlayer, gyda'r nod o wella cyrhaeddiad wythnosol y gwasanaeth. Wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu, bydd angen i'r BBC egluro'n fanwl sut bydd yn rhoi'r cynlluniau ar waith, yn mesur eu llwyddiant ac yn adrodd ar eu heffeithiolrwydd.

# 4. Dyheadau ar gyfer Trwydded Weithredu newydd y BBC

4.1 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad Cychwynnol ym mis Gorffennaf 2021, y tair egwyddor rydyn ni am eu hymgorffori yn Nhrwydded Weithredu newydd y BBC i sicrhau ei bod yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa yw:

a) ymgorffori darpariaeth ar-lein;

b) rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC o ran y ffordd orau y gall ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd;

c) mwy o dryloywder er mwyn dal y BBC i gyfrif.

4.2 Rydyn ni'n trafod yr egwyddorion hyn isod ac yn tynnu sylw at rai o heriau'r Drwydded Weithredu bresennol, yn ogystal â'n cynigion lefel uchel i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r egwyddorion yn berthnasol ar draws gwasanaethau'r BBC, ond mae'r ffyrdd rydyn ni wedi'u hymgorffori yn ein cynigion yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar hyn o bryd, ac yn enwedig rhwng sain a fideo.[45]

## Dylai'r Drwydded Weithredu newydd gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC

### Heriau gyda'r Drwydded Weithredu bresennol

4.3 Er bod y BBC yn darparu cynnwys ar-lein, ychydig o waith rheoleiddio gwasanaethau ar-lein y BBC sy'n digwydd dan y Drwydded Weithredu bresennol. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o atebolrwydd am sut mae'r BBC yn defnyddio'r gwasanaethau hyn i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus na'r manteision maen nhw'n eu rhoi i gynulleidfaoedd. Wrth i bobl barhau i gael gafael ar fwy o gynnwys ar-lein, mae hyn yn debygol o ddod yn fwy o broblem dros amser.

### Ein cynigion i ymgorffori darpariaeth ar-lein yn y Drwydded Weithredu newydd

4.4 At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi cynigion ein Hymgynghoriad Cychwynnol y dylai Trwydded Weithredu newydd gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC.[46] Fodd bynnag, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon y gallai cynulleidfaoedd sy'n dibynnu ar wasanaethau teledu a radio darlledu traddodiadol golli allan petai'r Drwydded yn caniatáu i'r BBC ganolbwyntio'n ormodol ar ei wasanaethau ar-lein.[47] Awgrymwyd y dylai'r BBC ddarparu digon o gynnwys ar ei wasanaethau darlledu i gyflawni ei Genhadaeth a'i

---

[45] Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn Adran 8

[46] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.1; Audio UK, t.1-2; CAMERA UK, t.1; Campaign for Regional Broadcasting Midlands, t.3; Professional Publishers Association, t.1-2; Radiocentre, t. 2, 15; S. Stein, t.1-2; Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC), t.1; Voice of the Listener & Viewer (VLV), t.3; a Writers' Guild of Great Britain , t.1 [✂]

[47] Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, tud. 2.

Ddibenion Cyhoeddus a dylai hyn gael ei ategu gan gynnwys ar-lein nes bod mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref yn rhywbeth mwy cyffredinol.[48] Rydyn ni wedi ystyried y pryderon hyn yn ein cynigion, ac wedi nodi bod yn rhaid i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus ar draws ei holl Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys ar-lein. Rydyn ni'n credu bod tair prif ffordd o ymgorffori darpariaeth ar-lein y BBC yn y Drwydded newydd.

4.5 Yn gyntaf, rydyn ni am i'r BBC allu sicrhau'r cyrhaeddiad a'r effaith fwyaf posibl i gynulleidfaoedd drwy ei alluogi i ddarparu cynnwys mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag arferion defnyddio. Ni ddylai ein hamodau rheoleiddio fynnu bod y BBC yn darparu'n bennaf drwy wasanaethau darlledu, os nad yw hynny er budd gorau cynulleidfaoedd. Rydyn ni felly'n cynnig cyflwyno rhai gofynion sy'n niwtral[49] o ran gwasanaeth sy'n ymgorffori darlledu ac ar-lein er mwyn galluogi'r BBC i fodloni ei amodau rheoleiddio, ni waeth pa wasanaethau mae'n darparu'r cynnwys arnyn nhw. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn cynnig cadw rhai amodau ar wasanaethau darlledu lle bo'n briodol (er enghraifft mewn newyddion a materion cyfoes) i ddiogelu cynulleidfaoedd sy'n dibynnu ar wasanaethau teledu a radio traddodiadol.

4.6 Yn ail, rydyn ni'n bwriadu cyflwyno gofynion tryloywder i ganiatáu i ni ddal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth ar-lein. Byddai'r amodau hyn yn mynnu bod y BBC yn nodi sut mae'n bwriadu cyflawni a sut mae wedi darparu gwasanaethau ar-lein o dan y Dibenion Cyhoeddus.[50] Mae hyn yn cyd-fynd â rhai awgrymiadau gan randdeiliaid y dylai bod gan y Drwydded newydd amodau penodol ar gyfer gwasanaethau ar-lein y BBC.[51]

4.7 Yn olaf, rydyn ni'n cynnig cyflwyno rhai gofynion sy'n berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC yn benodol. Nid yw bob amser yn hawdd llywio i raglenni penodol ar-lein oherwydd faint o gynnwys sydd ar gael ar lawer o wasanaethau ar-alw fel BBC iPlayer. Felly, rydyn ni'n cynnig cyflwyno gofynion i sicrhau bod y BBC yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i raglenni ar ei wasanaethau ar-lein, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds.

## Byddai cynulleidfaoedd yn elwa pe bai gan y BBC fwy o hyblygrwydd i ddiwallu ei anghenion

### Heriau gyda'r Drwydded Weithredu bresennol

4.8 Mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn cynnwys nifer fawr o gwotâu sy'n mynnu bod y BBC yn darparu oriau penodol ar sianeli teledu a gorsafoedd radio penodol. Cafodd llawer o'r cwotâu hyn eu trosglwyddo o drwyddedau gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC i'r Drwydded Weithredu bresennol, fel yr oedd yn rhaid i ni ei wneud o dan y Cytundeb. Gall cwotâu fod yn bwysig i sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu,

[48] VLV, t.3, 5; a Writers' Guild of Great Britain, t.1-2.
[49] Rydyn ni'n cyfeirio at wasanaeth niwtral fel gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy deledu neu radio a ddarlledir, neu ar-lein.
[50] Nodir amodau penodol yn y Drwydded Weithredu newydd ddrafft (gweler Atodiad 9).
[51] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.1; AudioUK, t.1-2; Radiocentre, t.15; TAC, t.1; a Wireless Group, t.1, 3-4.

ac yn y gorffennol maen nhw wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau'r BBC.

4.9 Fodd bynnag, nid yw cwotâu bob amser yn gwarantu ansawdd uchel ac nid yw'r ddibyniaeth arnynt yn y Drwydded bresennol yn rhoi llawer o hyblygrwydd i'r BBC gyfeirio ei adnoddau at fathau penodol o gynnwys, na'r gallu i'w darparu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau yn y dyfodol. Bydd y diffyg hyblygrwydd hwn yn dod yn fwyfwy heriol i'r BBC wrth iddo weithredu dan fwy o bwysau ariannol ac wrth i ymddygiad cynulleidfaoedd barhau i newid.

4.10 Hefyd, er gwaethaf y newidiadau sylweddol yn nhirwedd cyfryngau'r DU a drafodwyd yn Adran 3, ac ar wahân i rai newidiadau penodol, nid ydym wedi diweddaru'r Drwydded bresennol ers iddi gael ei chyflwyno yn 2017 ac felly mae'r cwotâu wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers hynny. O ganlyniad, ni fyddant o reidrwydd yn adlewyrchu anghenion y gynulleidfa nawr nac yn y dyfodol. Wrth i'r BBC barhau i drawsnewid dros weddill cyfnod y Siarter hwn, ni ddylai'r Drwydded gyfyngu'n ormodol ar allu'r BBC i addasu ac arloesi ar gyfer cynulleidfaoedd.

## Ein cynigion i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol o ran sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd

4.11 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad Cychwynnol y byddai dileu rhai cwotâu yn galluogi'r BBC i fynd i'r afael yn well ag anghenion cynulleidfaoedd. Felly, gwnaethom gynnig eu dileu pan nad oedden nhw'n briodol mwyach a'u disodli â gofynion tryloywder.

4.12 Cafwyd safbwyntiau cymysg gan randdeiliaid, ac roedd rhai wedi tynnu sylw at anfanteision dileu cwotâu.[52] Dadleuwyd y gallai rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus gael effaith negyddol ar gynulleidfaoedd a chystadleuwyr,[53] a gallai ei werth cyhoeddus ostwng.[54] Dywedodd rhanddeiliaid y byddai argaeledd cynnwys sy'n llai hyfyw yn fasnachol, ond sy'n cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaoedd, yn dirywio heb gwotâu, ac y gallai cynulleidfaoedd, cynhyrchwyr ac awduron sy'n dibynnu ar y BBC i gomisiynu'r math hwn o gynnwys, fod ar eu colled.[55] Roedd rhai wedi awgrymu bod cwotâu yn sicrhau bod y BBC yn unigryw[56], ac y gallai cael gwared arnynt gael effaith ar gystadleuaeth.[57] Argymhellodd Wireless Group amodau ansoddol ychwanegol yn ogystal â chwotâu i sicrhau allbwn unigryw a rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel.[58] Mynegodd rhai bryderon hefyd ynghylch sut byddai'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif heb gwotâu.[59]

---

[52] Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, t. 2; Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t. 2; AudioUK, t. 3-4; ITV, t. 4; News Media Association, t. 2-3, Pact, t. 3, 5; Radiocentre, t. 6, 16-17, 27, 32-34; TAC, t. 1; VLV, t. 3-5; ac Writers' Guild of Great Britain, t. 2-3.
[53] Pact, t. 5; a Radiocentre, t. 5.
[54] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.2 [✂]
[55] Writers' Guild of Great Britain, t.2; Pact, t.3: AudioUK, t.3-4. Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, t. 2-3; VLV, t.4.
[56] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.2; AudioUK, t.3; Radiocentre, t.2, 6; a TAC, t.1.
[57] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.2; ITV, t.4; a Radiocentre, t.16-17.
[58] Wireless Group, t.1, 3-5.
[59] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.2; Radiocentre, t.30-31; a VLV, t.4-5; a COBA.

4.13 Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn cefnogi dull gweithredu mwy hyblyg a niwtral o ran gwasanaeth a fyddai'n galluogi'r BBC i ymateb yn gyflym i newidiadau yn y farchnad.[60] Awgrymwyd y gallai amodau ansoddol ychwanegol gefnogi sut rydyn ni'n mesur perfformiad y BBC.[61] Roedd y BBC hefyd yn cefnogi cael mwy o gyfle i benderfynu sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd, gan awgrymu y byddai gallu gosod targedau a gofynion manwl yn sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau gyda chynulleidfaoedd mewn golwg, ac y byddai'n ei helpu i weithredu'n llwyddiannus yn y dirwedd cyfryngau bresennol.[62] Fodd bynnag, roedd cefnogaeth rhanddeiliaid eraill i'r dull hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar osod disgwyliadau clir yn y Drwydded Weithredu, gyda goruchwyliaeth reoleiddiol gref gan Ofcom, yn ogystal â mwy o dryloywder gan y BBC.

4.14 Rydyn ni wedi ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ac rydyn ni'n credu bod angen dull gweithredu newydd ar gyfer cwotâu yn y Drwydded Weithredu:

a) Yn gyntaf, rydyn ni'n cynnig cadw rhai cwotâu sy'n benodol i wasanaethau lle rydyn ni'n credu eu bod yn dal yn briodol, er enghraifft y rheini sy'n mynnu bod y BBC yn darparu mathau penodol o gynnwys i gynulleidfaoedd teledu a radio sy'n cael eu darlledu, a'r rheini sy'n helpu i sicrhau natur unigryw.

b) Yn ail, rydyn ni'n cynnig addasu rhai cwotâu i fod yn niwtral o ran gwasanaethau er mwyn galluogi i'r BBC gael mwy o hyblygrwydd i ddewis sut i ddarparu cynnwys ar draws ei wasanaethau er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd orau.

c) Yn olaf, rydyn ni'n cynnig dileu rhai cwotâu lle rydyn ni'n credu y byddai o fudd i gynulleidfaoedd pe byddai gan y BBC fwy o hyblygrwydd o ran sut mae'n darparu ei gynnwys. Yn yr achosion hyn, byddai'n dal yn ofynnol i'r BBC ddarparu cynnwys penodol a byddai'n destun gofynion tryloywder newydd ychwanegol i'n galluogi i fonitro'r ddarpariaeth.

4.15 Mae'r cynigion hyn i roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddarparu i gynulleidfaoedd hefyd yn gyson â Phapur Gwyn diweddar Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. Roedd yn nodi ei fod yn bwriadu rhoi mwy o hyblygrwydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut maen nhw'n cyflawni eu cylchoedd gwaith.

## Bydd gofynion tryloywder newydd yn helpu i ddal y BBC i gyfrif

### Heriau gyda'r Drwydded bresennol

4.16 Mae gan y Drwydded Weithredu bresennol set gyfyngedig o ofynion adrodd sydd ond yn berthnasol i rai elfennau o ddarpariaeth y BBC, gan fod y Drwydded yn dibynnu'n bennaf ar gwotâu. Er bod yn rhaid i'r BBC ddangos ei fod wedi bodloni cwota, nid oes yn rhaid iddo ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae wedi gwneud hynny, na pha gyfraniad mae'r cynnwys wedi'i wneud at gyflawni'r Dibenion Cyhoeddus a diwallu anghenion cynulleidfaoedd.

---

[60] Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban, t.2-3; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, t.2; ac ITV, t.1, 6.
[61] Directors UK, t. 2.
[62] BBC, t.5-6.

4.17 Ers i ni ddechrau rheoleiddio'r BBC yn 2017, rydyn ni wedi tynnu sylw at yr angen i'r BBC fod yn fwy tryloyw. Yn benodol, rydyn ni wedi mynegi pryderon ynghylch sut mae'n egluro ei benderfyniadau i'r cyhoedd, sut mae'n ymgysylltu â'r diwydiant ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau, a sut mae'n adrodd ar ei gynlluniau a'i berfformiad. Er ein bod wedi gweld rhywfaint o welliant dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni o'r farn y dylai'r BBC ddarparu adroddiadau mwy cynhwysfawr ar draws ei gynlluniau a'i ddarpariaeth, yn enwedig os yw am gael mwy o hyblygrwydd o dan Drwydded Weithredu newydd i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

## Ein cynigion i gyflwyno gofynion tryloywder ychwanegol

4.18 Gwnaethom gynnig yn ein Hymgynghoriad Cychwynnol y dylai Trwydded Weithredu newydd gynnwys gofynion adrodd ychwanegol i gynyddu tryloywder ac i'n galluogi i ddal y BBC i gyfrif yn fwy effeithiol. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion.[63] Dywedodd rhai y dylai'r BBC fod yn fwy tryloyw o ran sut mae'n rhannu gwybodaeth[64] ac y dylai ddarparu mwy o eglurder a manylder yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol.[65] Yn benodol, roedd galwadau am fwy o dryloywder ynghylch gwariant a buddsoddi,[66] amrywiaeth a phartneriaethau.[67] Hefyd, dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai'r BBC wella ei ymgysylltiad a'r ffordd mae'n cyfathrebu â'r diwydiant a'r cyhoedd.[68] Roedd y BBC yn cytuno y byddai mwy o hyblygrwydd yn golygu y byddai'n rhaid iddo fod yn onest gyda chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ynghylch yr hyn mae'n bwriadu ei gyflawni bob blwyddyn er mwyn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.[69]

4.19 Rydyn ni'n cynnig y dylai'r Drwydded Weithredu newydd fynnu bod y BBC yn nodi gyda'i Gynllun Blynyddol sut mae'n bwriadu cyflawni ei ofynion,[70] a sut mae wedi cyflawni yn eu herbyn yn ei Adroddiad Blynyddol. Dylai hefyd fod yn ofynnol iddo nodi a rhoi rhesymau dros unrhyw newidiadau sylweddol[71] y mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth bresennol ar y pryd ac adrodd ar unrhyw wahaniaethau i'w gynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Bydd y gofynion tryloywder ychwanegol hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwn yn cynnig symud oddi wrth gwotâu.

4.20 Rydyn ni'n egluro'n fanylach sut byddwn yn dal y BBC i gyfrif o dan Drwydded newydd drwy gydol y ddogfen hon. Rydyn ni hefyd yn edrych ar sut gall y BBC wella ei dryloywder a'i atebolrwydd ar draws ei holl weithgareddau yn ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC.

---

[63] Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, t.3; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban, t.1-2, 5; Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.1; AudioUK, t. 4-5; Campaign for Regional Broadcasting Midlands, t.3; Directors UK, t.1-2; ITV, t.2; MG ALBA, t.1-2; News Media Association, t.1; Pact, t.5-6; Professional Publishers Association, t.2; Radiocentre, t.6, 10, 46; TAC, t.2; VLV, t.3; Wireless Group, t.1, 6; a Writers' Guild of Great Britain, t.2-3.
[64] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.1; a Radiocentre, t.10.
[65] ITV, t.2; Professional Publishers Association, t.3-4; Radiocentre, t.10; TAC, t.2; VLV, t.3; AudioUK, t.4-5; a Writers' Guild of Great Britain, t.2.
[66] AudioUK, t.4-5; Campaign for Regional Broadcasting Midlands, t.3-4, 6; MG ALBA, t.1; a Wireless Group, t.6.
[67] MG ALBA, t.1-2.
[68] VLV, t.2; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban, t.2; News Media Association, t.1; Radiocentre, t.7, 46; a Pact, t.3.
[69] BBC, t.6
[70] Mae'r gofynion tryloywder yn cyfeirio at amodau penodol yn y Drwydded Weithredu newydd ddrafft yn Atodiad 9 o dan bob un o'r Dibenion Cyhoeddus ac maent yn ymwneud yn bennaf ag amodau nad ydynt yn cynnwys cwotâu.
[71] Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn Adran 5.

# 5. Dal y BBC i gyfrif


5.1 Yn yr adran hon rydyn ni'n nodi ein dull arfaethedig o ddal y BBC i gyfrif, drwy'r Drwydded Weithredu, o ran darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n egluro'r cylch adrodd ar gyfer cyhoeddiadau, monitro parhaus a mesur perfformiad a fydd yn ein galluogi i fod yn effeithiol ac yn dryloyw wrth reoleiddio'r BBC o dan y Drwydded newydd. Byddwn wedyn yn trafod ein pwerau arfaethedig i gamu i mewn yn brydlon os nad yw'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

5.2 Fel y nodwyd uchod, mewn ymateb i'n Hymgynghoriad Cychwynnol, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch sut byddai'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif heb gwotâu. Mae dal y BBC i gyfrif yn rhan ganolog o'n Trwydded newydd o hyd, ac er ein bod yn cynnig cael gwared ar rai cwotâu, ein huchelgais ar gyfer y Drwydded yw peidio â rheoleiddio llai ond rheoleiddio'n fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol. O dan y Drwydded newydd arfaethedig, byddai gan y BBC fwy o hyblygrwydd i ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, ond byddem yn parhau i wirio'r hyblygrwydd hwn. Byddai'n rhaid i'r BBC fod yn llawer mwy tryloyw ynghylch ei gynlluniau a'i berfformiad. Byddai hyn, ynghyd â gwybodaeth a gafodd Ofcom drwy gynnal ymchwil ymysg cynulleidfaoedd, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y BBC, ac ochr yn ochr â'r asesiad o berfformiad y BBC rydyn ni'n ei gynnal yn barhaus, yn ein galluogi i gamu i mewn os byddem yn poeni am gynlluniau neu ddarpariaeth y BBC.

## Bydd ein dull gweithredu arfaethedig yn ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd

5.3 Bydd y Drwydded Weithredu yn parhau i gael ei strwythuro gan Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gyda phob un yn cael ei hategu gan amcanion, amodau a gofynion tryloywder clir. Rydyn ni'n credu y bydd y cyfuniad hwn o adnoddau yn creu Trwydded hyblyg sy'n darparu ar gyfer gwasanaethau ar-lein y BBC ac sy'n galluogi iddo addasu i anghenion cynulleidfaoedd, gan sicrhau lefel uchel o atebolrwydd a thryloywder.

**Ffigur 1: Strwythur Trwydded Weithredu newydd arfaethedig y BBC**




## Amcanion

5.4 Yn y Drwydded Weithredu newydd, bydd gan bob Diben Cyhoeddus set o amcanion sy'n disgrifio'r elfennau allweddol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyflawni wrth gyflawni'r Diben hwnnw. Er nad oes modd gorfodi'r amcanion hyn, maen nhw'n nodi disgwyliadau'r BBC a byddant yn sail i'n hasesiad o berfformiad y BBC yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae eu natur ddisgrifiadol yn galluogi iddyn nhw fod yn niwtral o ran gwasanaethau a chanolbwyntio ar gynulleidfaoedd, gan sicrhau bod yr hyn y mae'r BBC yn ei ddarparu i gynulleidfaoedd wrth galon y Drwydded.

## Amodau trwydded

5.5 Yn ogystal â chadw neu addasu cwotâu lle bo hynny'n briodol, rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o amodau Trwydded gorfodadwy newydd sy'n cefnogi ac yn ategu'r amcanion hyn. Mae'r amodau hyn yn disgrifio beth mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu, fel amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU, gan gynnig yr hyblygrwydd iddo benderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny, gan ystyried anghenion y gynulleidfa. Byddai rhai ohonyn nhw'n berthnasol ar draws ystod lawn o wasanaethau'r BBC, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, tra byddai eraill yn berthnasol i wasanaethau penodol. Rydyn ni hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion i sicrhau bod y BBC yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'r holl raglenni ar ei wasanaethau ar-lein, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds.

5.6 Bydd ein hasesiad o gydymffurfiad y BBC â'r amodau hyn yn mynd law yn llaw â'r gofynion tryloywder a nodir isod, yn ogystal â'n hasesiad perfformiad ein hunain.

## Y gofynion o ran tryloywder

5.7 O dan ein cynigion, bydd gofynion tryloywder newydd yn cefnogi'r amcanion ac amodau'r Drwydded. Bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi'n agored, yn glir ac yn dryloyw y camau y mae'n bwriadu eu cymryd mewn meysydd lle rydyn ni'n credu bod cwotâu yn amhriodol, ac yna adrodd ar y cynlluniau hyn. Mae'r dull hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r BBC fodloni disgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd a bydd o fudd i gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid ac Ofcom gan roi darlun clir o weithredoedd a phenderfyniadau'r BBC. Os bydd gennym bryderon am gynlluniau neu resymeg y BBC, bydd ein hoffer rheoleiddio presennol yn ein galluogi i gamu i mewn a mynd i'r afael â nhw, fel sy'n cael ei drafod yn yr adran 'Camu i mewn' isod.

5.8 Ar gyfer pob Diben Cyhoeddus, rydyn ni'n cynnig ei bod yn rhaid i'r BBC gyhoeddi gyda'i Gynllun Blynyddol y camau mae'n bwriadu eu cymryd i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y meysydd pwysig lle rydyn ni'n credu y byddai cwotâu yn amhriodol neu'n rhy gyfyngol i'w gorfodi. Mae'r rhain yn cynnwys ei wasanaeth niwtral a'i ddarpariaeth ar-lein, yn ogystal â lle rydyn ni wedi cynnig yr amodau disgrifiadol a nodir uchod. Rhaid iddo wedyn nodi gyda'i Adroddiad Blynyddol a yw wedi cymryd y camau hynny, ac esbonio unrhyw wyro sylweddol oddi wrth ei gynlluniau. Wrth gydymffurfio â'r amodau hyn, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC roi cynulleidfaoedd wrth galon ei adroddiadau, a byddem yn asesu ei berfformiad gyda hyn mewn golwg.

5.9 Byddem hefyd yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi newidiadau mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth bresennol ar y pryd a allai effeithio'n sylweddol ar ei ddarpariaeth yn y meysydd hyn (h.y. pan fyddwn yn credu bod cwotâu yn amhriodol neu'n rhy gyfyngol i'w gosod), a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Nid ydyn ni'n disgwyl i'r BBC adrodd ar fân newidiadau 'busnes fel arfer', yn hytrach ei fod yn agored ac yn agored gyda newidiadau sy'n newid yn ystyrlon sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Enghraifft allweddol o newid o'r fath fyddai lleihau allbwn yn sylweddol mewn ardal benodol, naill ai oherwydd symud cynnwys ar-lein neu ei derfynu at ddibenion arbed costau.[72] Byddem yn disgwyl i'r BBC egluro sut mae wedi ystyried dewisiadau ac ymddygiad cynulleidfaoedd, yn ogystal â sut bydd yn parhau i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, wrth ystyried y newidiadau hyn. Byddwn hefyd yn olrhain cynlluniau a pherfformiad dros amser i'n helpu i ganfod unrhyw newidiadau sylweddol yn narpariaeth y BBC. Byddai unrhyw newidiadau sy'n gofyn am ddiwygio'r Drwydded[73] neu a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg[74] ac effeithiol yn parhau i gael eu cynnwys mewn prosesau ar wahân.

---

[72] Byddem hefyd yn ystyried newidiadau graddol, fel cynlluniau sydd, wrth eu cyfuno â blynyddoedd blaenorol, yn cynrychioli gostyngiadau sylweddol dros amser.

[73] Ofcom, 2017. Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd: gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu.

[74] Ofcom, 2017. Asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu.

5.10 Mae gofynion tryloywder manylach wedi'u cynnwys mewn meysydd lle rydyn ni wedi cynnig cael gwared ar gwotâu neu lle rydyn ni wedi dod i'r casgliad bod angen mwy o dryloywder. Lle rydyn ni'n cynnig cael gwared ar gwotâu, rydyn ni'n cynnig mynnu bod y BBC yn ymrwymo i'w lefel cyflawni ac yn adrodd yn gyhoeddus arni, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddal yn atebol am y rhagor o hyblygrwydd a fyddai ganddo. Mewn meysydd lle rydyn ni'n credu bod budd penodol i gynyddu tryloywder, rydyn ni wedi bod yn fanylach ynghylch beth mae'n rhaid i'r BBC ei gynnwys yn ei adroddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys egluro rôl rhaglenni a brynir a'i gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys y rheini nad ydyn nhw'n cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

## Mae adroddiadau ychwanegol a'n gwaith monitro parhaus ar berfformiad y BBC yn ganolog i'n dull gweithredu

5.11 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y dylai fod angen adroddiadau mwy effeithiol o dan Drwydded newydd ac roedd llawer o awgrymiadau ynghylch y math o wybodaeth y dylai'r BBC ei chyhoeddi.[75] Roedd y BBC hefyd yn cytuno mai ei Gynllun Blynyddol yw'r cyfrwng priodol i gyfleu cynlluniau ac y dylai ddangos tystiolaeth ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion yn ei Adroddiad Blynyddol.[76]

5.12 Rydyn ni o'r farn y bydd cylch adrodd o gyhoeddiadau, wedi'i ategu gan ein goruchwyliaeth reoleiddiol annibynnol barhaus a'n gallu i gamu i mewn lle bo angen, yn sail i drefn fwy hyblyg a fydd yn effeithiol ac yn dryloyw wrth ddal y BBC i gyfrif.

5.13 Mae hanfodion y cylch hwn wedi'u nodi yn y Siarter.[77] Rhaid i Gynllun Blynyddol y BBC gynnwys ar gyfer y flwyddyn honno (ymhlith pethau eraill): ei gylch gwaith creadigol; y cynllun gwaith; a darpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae ei Adroddiad Blynyddol wedyn yn adrodd ar (ymhlith pethau eraill) sut mae wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau rheoleiddio o dan y Drwydded Weithredu. Yn olaf, mae Ofcom yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y BBC sy'n cynnwys asesiad o'i berfformiad a chydymffurfiad â'r Drwydded Weithredu.[78]

5.14 Bydd y gofynion tryloywder newydd rydyn ni'n eu cynnig yn cryfhau'r cylch hwn drwy sicrhau bod y BBC yn darparu naratif cyhoeddus clir ynghylch sut mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd.

---


[75] Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC), t.2; Audio UK, t.4-5; Voice of the Listener & Viewer (VLV), t.3; Writers' Guild of Great Britain, t.2-3; Professional Publishers Association, t.3-4; Directors UK, t.1-2; Radiocentre, t.6-7; a Campaign for Regional Broadcasting Midlands, t.3.

[76] BBC, t. 6.

[77] Erthyglau 36a 37 y Siarter.

[78] Erthygl 50 y Siarter.

**Ffigur 2: Cylch adrodd y BBC ac Ofcom[79]**




## Cynllun Blynyddol y BBC

5.15 Byddai'r gofynion tryloywder newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi ac egluro ei gynlluniau mewn meysydd allweddol gyda'i Gynllun Blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth benodol fel: nifer yr oriau o gynnwys penodol y bydd y BBC yn eu darparu ar gyfer y flwyddyn i ddod (i sicrhau bod Ofcom a rhanddeiliaid yn gallu olrhain tueddiadau); sut byddai'n dosbarthu'r oriau hyn ar draws ei wasanaethau; gwybodaeth am sut mae'n bwriadu cyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein; a sut mae ei raglenni'n cyfrannu at natur unigryw ei wasanaethau.

5.16 Nodwn fod y BBC eisoes yn cyhoeddi rhywfaint o'r wybodaeth hon yn ei Gynllun Blynyddol, yn enwedig yn ei atodiad 'ymrwymiadau i gyflawni ei Ddiben Cyhoeddus',[80] a nododd yn ei ymateb.[81] Mae'r ffordd mae'r BBC yn adrodd yn y maes hwn wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn trafodaethau gydag Ofcom, ac mae ein gofynion arfaethedig yn adeiladu ar hyn.

5.17 Er nad yw'n rhan o gylch gwaith Ofcom i gymeradwyo cynlluniau'r BBC, yn y cam hwn byddem yn ystyried a oes gennym unrhyw bryderon ynghylch yr effaith ar ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd petai'r cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddem yn disgwyl i'r BBC nodi a rhoi rhesymau dros unrhyw newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ei ddarpariaeth mewn meysydd allweddol. Byddem yn disgwyl i'r BBC egluro sut byddai'r newidiadau hyn yn adlewyrchu anghenion newidiol cynulleidfaoedd.

[79] Yn ymarferol, byddai'r cylch adrodd ar gyfer cyhoeddiadau yn cymryd tua 20 mis i'w gwblhau gan fod Adroddiad Blynyddol y BBC yn cael ei gyhoeddi tua phedwar mis ar ôl cwblhau'r flwyddyn ariannol dan sylw, ac mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn cael ei gyhoeddi tua phedwar mis ar ôl hynny.
[80] Mae'r adran hon o Gynllun Blynyddol y BBC yn nodi sut mae'r BBC yn bwriadu hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus ar draws ei holl weithgareddau. Mae'n cynnwys ymrwymiadau disgrifiadol a meintiol ar gyfer pob gwasanaeth, ac mae rhai ohonynt yn mynd y tu hwnt i'n Trwydded Weithredu bresennol.
[81] BBC, t.4.

DC1 DC2 DC3 DC4

5.18 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai cynlluniau'r BBC gael eu craffu gan y cyhoedd.[82] Byddai ein gofynion tryloywder yn cynyddu atebolrwydd cyhoeddus y BBC, ond nid ydyn ni'n credu bod angen i gynlluniau'r BBC fod yn destun ymgynghoriad ffurfiol. Byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried unrhyw faterion allweddol a godwyd yn flaenorol gan randdeiliaid, tra bydd yn datblygu ei gynlluniau. Bydd safbwyntiau rhanddeiliaid hefyd yn sail i'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC.

## Adroddiad Blynyddol y BBC

5.19 Yn ei Adroddiad Blynyddol, mae'r BBC ar hyn o bryd yn nodi a yw wedi bodloni'r amodau yn y Drwydded Weithredu yn ogystal â'i 'ymrwymiadau i gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus', fel y nodir yn ei Gynllun Blynyddol cyfatebol. Byddai ein gofynion tryloywder arfaethedig yn mynnu bod y BBC hefyd yn adrodd ar y cynlluniau y gwnaeth eu nodi gyda'i Gynllun Blynyddol, a drafodir uchod, yn ogystal â meysydd ychwanegol lle rydyn ni'n credu bod tryloywder yn bwysig. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, y cyfraniad y mae rhannau penodol o ddarpariaeth y BBC wedi'i wneud i'w natur unigryw a'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys penodol.

5.20 Byddem hefyd yn gofyn i'r BBC egluro, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw wyro sylweddol oddi wrth ei gynlluniau. Nodwn, er enghraifft, ei fod wedi cyhoeddi esboniadau yn ei Adroddiad Blynyddol diwethaf am newidiadau yr oedd yn rhaid iddo eu gwneud o ganlyniad i bandemig Covid-19.

## Perfformiad y BBC ac Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC

5.21 Ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yw cam olaf y broses lle byddwn yn cynnal ein hasesiad perfformiad a chydymffurfio ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn llunio barn ynghylch sut mae'r BBC yn cyflawni amodau ei Drwydded a'i Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, nid dyma'r unig adeg lle rydyn ni'n asesu sut mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd o bell ffordd. Rydyn ni'n ymgysylltu'n barhaus â'r BBC, yn anffurfiol a gan ddefnyddio ein pwerau ffurfiol, i gasglu gwybodaeth am ei gynlluniau a'i berfformiad a sut mae hyn yn effeithio ar gynulleidfaoedd. Mae hyn yn ein galluogi i ymchwilio i faterion a rhoi sylw iddynt pan fyddant yn codi.

5.22 Rydyn ni'n defnyddio sylfaen dystiolaeth gyfoethog i lunio barn am berfformiad y BBC sy'n annibynnol ac yn seiliedig ar wybodaeth. Rydyn ni'n casglu llawer iawn o wybodaeth am y BBC a'r marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan y BBC, gan ddefnyddio ein pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth, ond rydyn ni hefyd yn defnyddio safbwyntiau rhanddeiliaid, ac offer mesur ehangach y diwydiant a thrydydd partïon. Mae dadansoddi data gwybodaeth am y farchnad yn rhoi syniad i ni o'r math o gynnwys mae cynulleidfaoedd yn ei fwynhau ar draws teledu, radio ac ar-lein. Rydyn ni hefyd yn olrhain agweddau cynulleidfaoedd at y BBC a'r ffordd mae'n darparu ei wasanaethau, yn ogystal â chynnal ymchwil ad hoc a chydgynghorol i edrych yn fanwl ar agweddau allweddol ar ddarpariaeth y BBC a darlledwyr eraill.

[82] Pact, t.3; ac ITV, t.2, 5.

5.23 Mae ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Drwydded Weithredu yn rhoi mwy o bwyslais ar asesiad mwy cyfannol o berfformiad y BBC. Mae’n bwysig bod y ffordd rydyn ni’n mesur perfformiad y BBC yn parhau i esblygu, yn enwedig i gipio ffyrdd newydd o ddarparu cynnwys.

## Byddwn yn camu i mewn os byddwn yn canfod pryderon

5.24 Mewn ymateb i’n Hymgynghoriad Cychwynnol, roedd rhanddeiliaid yn cytuno ei bod yn rhaid i ni gamu i mewn yn brydlon o dan Drwydded newydd os bydd gennym bryderon am ddarpariaeth arfaethedig neu wirioneddol y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd.[83] Pwysleisiodd y BBC hefyd fod yn rhaid i ‘gamu i mewn’ o’r fath fod yn gymesur, yn ddewis olaf, ac na ddylai’r BBC wynebu oedi diangen wrth weithredu ei gynlluniau.[84]

5.25 Wrth benderfynu sut i ymateb i bryderon, rhaid i ni ystyried rolau priodol Ofcom a Bwrdd y BBC (fel yr amlinellir ym mharagraff 2.2). Fel y nodwyd yn flaenorol, bwriad ein Trwydded arfaethedig yw cefnogi uchelgais creadigol, arloesedd a chymryd risgiau ac er bod yn rhaid i ni ddal y BBC i gyfrif, cyfrifoldeb Bwrdd y BBC yn y pen draw yw pennu a chyflawni ei gylch gwaith creadigol.

5.26 O dan ein cynigion, byddai meysydd lle byddai gan y BBC fwy o hyblygrwydd i wneud newidiadau i’w ddarpariaeth, yn unol ag anghenion y gynulleidfa, yn destun mwy o graffu, fel y cytunodd y BBC mewn ymateb i’n Hymgynghoriad Cychwynnol. [85] Fel yr eglurwyd uchod, mae ein gofynion tryloywder arfaethedig yn sicrhau mwy o eglurder a bod yn agored gan y BBC ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo egluro newidiadau sylweddol i’w ddarpariaeth bresennol neu o’i gynlluniau datganedig. Byddai gennym bryderon am gynlluniau neu newidiadau a allai gael effaith niweidiol ar ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd.

5.27 Pan fyddwn yn nodi materion drwy’r cylch adrodd, monitro neu ein hymgysylltiad parhaus â’r BBC, y cam cyntaf rydyn ni’n debygol o’i gymryd yw gofyn am ragor o wybodaeth. Byddwn yn trafod ein pryderon â’r BBC ac efallai y byddwn yn cyhoeddi data ac esboniadau y mae wedi’u darparu i wella ei dryloywder a’i atebolrwydd.[86] Os byddwn yn dod i’r casgliad bod risg o effaith niweidiol o hyd ar gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd neu beidio â chydymffurfio ag amodau’r Drwydded, mae gennym amrywiaeth o gamau eraill y gallwn eu cymryd.

5.28 Rydyn ni’n bwriadu mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a chymesur, gan gysoni ein hymateb â difrifoldeb y broblem. Mae’r camau y gallem eu cymryd yn amrywio o gyhoeddi ein pryderon a nodi lle gellid gwneud gwelliannau, i gynnal adolygiad ad hoc[87] neu ymgynghoriad cyhoeddus, neu gyhoeddi cyfarwyddiadau penodol. Un o’n prif bwerau yw ein gallu i amrywio’r Drwydded ac i osod amodau newydd; gallai hyn gynnwys ychwanegu

[83] ✂, ITV, t.2, 6; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon , t.3; VLV, t.3; a Wireless Group, t.5-7.
[84] BBC, t.6.
[85] BBC, t.6
[86] Mae Erthygl 47 o’r Siarter yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom mewn perthynas â’i swyddogaethau o dan y Siarter a’r Cytundeb.
[87] Erthygl 51(3) y Siarter.

amodau manwl os byddwn yn poeni am sut mae'r BBC yn defnyddio'r hyblygrwydd a ddarperir gan amodau Trwydded llai rhagnodol. Mae gennym bŵer i gymryd camau gorfodi os bydd amod yn y Drwydded yn cael ei dorri, gan gynnwys pŵer i roi cosb ariannol.

5.29 Er nad yw'r rhain yn bwerau newydd, dylai'r pwyslais cynyddol ar dryloywder o dan ein trefn arfaethedig alluogi Ofcom i ganfod a mynd i'r afael yn fwy effeithlon â newidiadau a phryderon allweddol. Pan fyddwn yn credu bod angen cymryd camau gorfodi, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r gweithdrefnau presennol. Mae'n bwysig nodi y gallem ddewis gweithredu, lle bo hynny'n briodol, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad**: Beth yw barn rhanddeiliaid am sut dylai Ofcom asesu a mesur perfformiad y BBC?

# 6. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 1

**Mae ein prif gynigion yn cynnwys:**

- Cadw cwotâu i sicrhau bod y BBC yn dal i ddarparu llawer iawn o newyddion a materion cyfoes ar draws ei wasanaethau teledu a radio.
- Cyflwyno gofynion newydd i'r BBC sicrhau bod newyddion a materion cyfoes ar gael ac yn hawdd eu canfod ar BBC iPlayer a BBC Sounds, a darparu ystod eang o newyddion manwl ar wefan ac apiau'r BBC.
- Disodli cwotâu newyddion a materion cyfoes dyddiol ac wythnosol sy'n berthnasol i rai o wasanaethau radio'r BBC gyda chwotâu blynyddol.
- Cyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau i ddarparu newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau ar-lein, ac adrodd ar ganlyniad y cynlluniau hynny.

## Cyflwyniad

6.1 Mae Diben Cyhoeddus 1 yn mynnu bod y BBC yn darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas:

> "Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiadau manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus." *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

6.2 Mae cynulleidfaoedd yn credu mai newyddion dibynadwy a chywir yn y DU yw'r elfen bwysicaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus[88] ac mae'n ganolog i gylch gwaith y BBC. Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth er mwyn rhoi gwybodaeth i gynulleidfaoedd a chyfrannu at weithrediad cymdeithas iach a democrataidd.

6.3 Y BBC yw'r darparwr newyddion sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU, ac mae cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel i berfformiad y BBC o ran ansawdd.[89] Mae hyn yn wir ar gyfer cynulleidfaoedd holl wasanaethau newyddion y BBC, er ei fod ar ei uchaf ymhlith y rheini sy'n defnyddio gwefan ac ap y BBC; mae ychydig o dan dri chwarter oedolion y DU sy'n defnyddio teledu'r BBC neu radio'r BBC yn rheolaidd ar gyfer newyddion yn credu ei fod o ansawdd uchel, gan godi i 79% o ddefnyddwyr rheolaidd y wefan a'r ap. Yn ein

---

[88] Traciwr PSM Ofcom 2021.
[89] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.

hymchwil ddiweddar, gwelsom hefyd fod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r BBC fwyaf am ei newyddion a'i allbwn addysgol.[90] Fodd bynnag, mae cynulleidfaoedd yn gyson yn rhoi sgôr llai ffafriol i'r BBC am ddidueddrwydd, er eu bod yn rhoi sgôr uchel i newyddion y BBC am ymddiriedaeth a chywirdeb; mae hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn ein Hadolygiad o reoleiddio'r BBC.[91]

> "Rwy'n meddwl bod y BBC yn ddibynadwy – rwy'n edrych ar BBC News gan mai dyma'r un mwyaf dibynadwy".[92] **Dyn, Teulu, plant hŷn**

6.4 Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio amodau presennol y Drwydded o dan Ddiben Cyhoeddus 1 a'r heriau a nodwyd gyda nhw. Byddwn wedyn yn egluro ein cynigion ar gyfer y Drwydded newydd, gan gynnwys yr amcanion arfaethedig, y cwotâu, amodau eraill y Drwydded a'r gofynion tryloywder.

## Mae Diben Cyhoeddus 1 yn cynnwys cwotâu yn bennaf ar gyfer gwasanaethau teledu a radio

6.5 Mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn nodi bod disgwyl i'r BBC: darparu newyddion a materion cyfoes ar draws ei ystod lawn o wasanaethau; rhoi sylw i straeon rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y cynnwys hwn; darparu newyddion a materion cyfoes dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt sy'n dilyn y safonau golygyddol uchaf; a darparu dolenni digonol at ffynonellau trydydd parti.

6.6 O ran amodau Trwydded, mae Diben Cyhoeddus 1 yn cynnwys cwotâu yn bennaf sy'n berthnasol i deledu a radio, a gofynion sy'n nodi pa mor aml y dylid darparu newyddion a materion cyfoes ar y gwasanaethau hyn. Dim ond dau amod Trwydded sydd ar gyfer BBC Ar-lein;[93] mae'r rhain yn ymwneud â newyddion ar-lein i blant a bod digon o ddolenni at ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon.


## Nid yw'r diffyg amodau am gynnwys ar-lein yn adlewyrchu sut mae mwy a mwy o gynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion a materion cyfoes

6.7 Er mai teledu yw'r brif ffordd o hyd i bobl gael gafael ar newyddion y BBC, mae bron i draean o'r holl oedolion ar-lein yn y DU yn dweud eu bod yn defnyddio gwefan/ap y BBC, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 3. Felly, mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn cael gwasanaeth newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau ar-lein y BBC. Roedd rhai

[90] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.22:
[91] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig. Mae'r arolwg yn gofyn i gynulleidfaoedd newyddion ar-lein, teledu a radio y BBC am eu hagweddau at bob llwyfan ar wahân.
[92] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.24.
[93] Yn ei restr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU, mae'r BBC yn disgrifio BBC Ar-lein fel a ganlyn: "gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, gyda chynnwys sy'n gwasanaethu holl Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC a BBC iPlayer".

rhanddeiliaid hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig ymgorffori gwasanaethau ar-lein yn y Drwydded Weithredu, yn enwedig ar gyfer gwefan BBC News.[94]

**Ffigur 3: Cyrhaeddiad y ffynonellau ar-lein a ddefnyddir ar gyfer newyddion y dyddiau hyn**




*Ffynhonnell Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 - Sampl ar-lein yn unig*
*Cwestiwn: Gan feddwl yn benodol am < llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn?*
*Sail: Pob oedolyn ar-lein 16+ 2021=3327*

> "Mae eu darpariaeth newyddion [BBC] gyda'r gorau – maen nhw'n dda am fod yn ddiduedd a dyma pam rwy'n troi at eu gwefan nhw i gael newyddion".[95] **Menyw, 18-30 oed**

6.8 Er mai ein prif ffocws ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 yw'r diffyg rheoleiddio ar-lein, mae nifer cyfyngedig o faterion eraill fel effeithiolrwydd cwotâu dyddiol ac wythnosol. Rydym yn trafod y rhain ymhellach isod.

## Rydym yn cynnig cadw'r rhan fwyaf o'r amodau presennol ar gyfer newyddion a materion cyfoes a chyflwyno amodau newydd ar gyfer cynnwys ar-lein

6.9 Mae'r BBC eisoes yn darparu amrywiaeth eang o newyddion a materion cyfoes manwl o ansawdd uchel ar ei wasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Mae ein cynigion wedi'u dylunio i sicrhau bod y BBC yn parhau i wasanaethu pob cynulleidfa yn unol â Diben Cyhoeddus 1.

6.10 Rydym yn cynnig diweddaru'r Drwydded drwy gyflwyno dau amcan ar gyfer y Diben hwn, ac mae'r naill a'r llall yn cyd-fynd â'r disgrifiad o Ddiben Cyhoeddus 1 yn Siarter y BBC. Bydd yr amcan cyntaf yn nodi'r math o allbwn newyddion a materion cyfoes y dylai'r BBC ei

---

[94] Camera UK, t.1; a S. Stein, t.1.
[95] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.24.

ddarparu, ac mae'r ail yn datgan y dylai'r BBC sicrhau bod y cynnwys hwn ar gael yn eang i gynulleidfaoedd.

6.11 Gan fod y gofyniad i'r BBC ddarparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddigon diduedd a chywir yn ganolog i'w gylch gwaith, mae'n bwysig sicrhau bod llawer o newyddion a materion cyfoes dibynadwy o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu ar holl brif wasanaethau'r BBC.[96] Felly, rydym yn cynnig cadw bron i bob un o amodau presennol y Drwydded (mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â theledu a radio), a chyflwyno amodau Trwydded newydd ar gyfer BBC Ar-lein, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder sy'n ceisio darparu eglurder ynghylch sut mae'r BBC yn darparu newyddion a materion cyfoes ar-lein.

## Dylai newyddion a materion cyfoes y BBC fod o ansawdd uchel, yn fanwl ac yn berthnasol, yn ogystal â bod ar gael yn rhwydd

**Amcan P1 (1): Newyddion a materion cyfoes o ansawdd uchel, manwl a pherthnasol**

Dylai'r BBC sicrhau bod ei raglenni newyddion a materion cyfoes o ansawdd uchel, yn fanwl ac yn rhoi sylw i straeon lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai'r cynnwys fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd ac yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth eang o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach.

6.12 Gan fod y BBC yn derbyn arian cyhoeddus dylai osod y safonau ar gyfer gweddill y diwydiant drwy gynhyrchu newyddion a materion cyfoes o'r ansawdd uchaf. Dylai'r cynnwys gynnwys dadansoddiad manwl, gan ddefnyddio ei brofiad helaeth o newyddiaduraeth ymchwiliol, i roi dealltwriaeth gyfoethog a chynhwysfawr i gynulleidfaoedd o'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Rydym yn credu bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer materion cyfoes, lle mae gan y BBC gyfle i fynd ymhellach na darparwyr eraill drwy ddefnyddio ei newyddiadurwyr a'i arbenigwyr ledled y DU ac ar draws y byd.[97]

6.13 Mae angen i allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC hefyd deimlo'n ddilys ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd er mwyn iddynt fod eisiau ymgysylltu ag ef. Mae ein hymchwil wedi canfod o'r blaen nad yw hyn yn wir bob amser. Yn ein hadolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC, fe wnaethom ddweud bod rhai cynulleidfaoedd yn ystyried bod y BBC yn cynrychioli safbwynt gwyn, dosbarth canol a Llundeinig sy'n amherthnasol i'w bywydau. Ar ben hynny, roedd pobl o gefndiroedd lleiafrifol wedi sôn am y canfyddiad o ddiffyg amrywiaeth ymysg gohebwyr a chyflwynwyr y BBC, a'r diffyg safbwyntiau

[96] Mae'r gwasanaethau rydym yn ystyried sy'n berthnasol yn cael eu cynnwys yn amodau'r Drwydded ar gyfer Diben Cyhoeddus 1. Rydym wedi dewis y gwasanaethau hyn oherwydd rydym o'r farn y byddai cynulleidfaoedd yn disgwyl gallu cael newyddion ar y gwasanaeth hwnnw a/neu rydym o'r farn efallai na fyddai rhai grwpiau cynulleidfa yn cael gafael ar newyddion a materion cyfoes y BBC heb ddarparu newyddion ar y gwasanaeth hwnnw.
[97] Mae hefyd yn bwysig bod cynulleidfaoedd yn gallu ymddiried bod newyddion a materion cyfoes y BBC yn gywir ac yn ddigon diduedd, fodd bynnag mae'r agweddau hynny eisoes wedi'u cynnwys yn ein gwaith o reoleiddio safonau cynnwys y BBC. Edrychwch ar Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC.

gwahanol. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y gallai allbwn newyddion y BBC fod yn fwy amrywiol[98] a chynnwys newyddion sy'n fwy difyr sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd.[99]

6.14 Mae'n bwysig bod y BBC yn darparu straeon o wledydd a rhanbarthau'r DU ar ei wasanaethau ledled y DU ac yn sicrhau bod y cynnwys hwn yn taro tant â chynulleidfaoedd. Yn gysylltiedig â hyn, mae ein gwaith o reoleiddio Diben Cyhoeddus 4 sy'n ceisio sicrhau bod newyddion a materion cyfoes yn cael eu darparu ar wasanaethau ar gyfer pob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau.

**Amcan P1 (2): Canfod newyddion a materion cyfoes**

Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar ei Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU, Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU a BBC Ar-lein (gan gynnwys BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan y BBC[100] fel sy'n briodol). Dylai gymryd camau i gyrraedd, i wasanaethu ac i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a gwneud ei gynnwys newyddion a materion cyfoes yn hawdd ei ganfod.

6.15 Bwriad yr ail amcan yw sicrhau bod y BBC yn cyrraedd pob cynulleidfa gyda'i gynnwys newyddion a materion cyfoes. Er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r amcan hwn, rydym o'r farn y dylai Diben Cyhoeddus 1 gynnwys cymysgedd o gwotâu ac amodau Trwydded sy'n berthnasol i wasanaethau penodol. Dylai sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau.

## Amodau trwydded

6.16 Rydym yn cynnig bod y rhan fwyaf o amodau presennol y Drwydded sy'n ymwneud â Diben Cyhoeddus 1 yn cael eu trosglwyddo i Drwydded newydd. Rydym yn nodi ein cynigion manwl isod, wedi'u dilyn gan ein gofynion newydd arfaethedig ynghylch tryloywder.

### Newyddion a materion cyfoes ar-lein

6.17 Mae'r BBC eisoes yn darparu newyddion a materion cyfoes ar BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan ac apiau'r BBC. Rydym yn cynnig cyflwyno amodau sy'n ffurfioli hyn i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i gael gafael ar y cynnwys hwn ar-lein.

6.18 Wrth i gynulleidfaoedd newid o sianeli teledu a gorsafoedd radio traddodiadol i wasanaethau ar-lein, efallai bydd mwy a mwy yn dewis cael eu newyddion a'u materion cyfoes ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Rydym yn cynnig cyflwyno gofynion newydd i'r BBC ddiweddaru rhaglenni newyddion yn rheolaidd a sicrhau bod modd canfod newyddion a materion cyfoes yn hawdd ar BBC iPlayer a BBC Sounds.[101]

6.19 Rydym yn nodi bod y BBC ar hyn o bryd yn cynhyrchu rhywfaint o allbwn newyddion a materion cyfoes sydd ar gael ar BBC iPlayer a BBC Sounds yn unig. Ni fyddai angen i'r BBC gynhyrchu cynnwys yn benodol ar gyfer y gwasanaethau hyn er mwyn bodloni ein gofynion

[98] Ymgyrch dros Ddarlledu Rhanbarthol Ymateb Canolbarth Lloegr, t.6.
[99] Below the Radar.
[100] Rydym yn ystyried bod gwefan y BBC hefyd yn cynnwys apiau perthnasol sy'n rhan o BBC Ar-lein.
[101] Amod 1.3 o'r Drwydded arfaethedig.

newydd arfaethedig – er y gallai ddewis gwneud hynny os yw'n credu bod hynny'n ffordd well o apelio at gynulleidfaoedd. Mae hyn yn golygu y byddai'r BBC yn gallu bodloni'r gofynion hyn drwy sicrhau bod ei wasanaethau teledu a radio ar gael ar BBC iPlayer a BBC Sounds fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd.

6.20 Ar hyn o bryd nid yw'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn darparu newyddion ar wefan y BBC (ac eithrio ar gyfer plant). Fodd bynnag, mae'n gwneud hyn yn barod ac roedd 36% o oedolion ar-lein 16+ wedi defnyddio gwefan/apiau Newyddion y BBC bob wythnos ar gyfartaledd ym mlwyddyn ariannol 2020/21 – a oedd wedi codi o 29% yn 2019/20, ac roedd cynnydd ym mhob grŵp demograffig.[102] Rydym yn cynnig cyflwyno amod i'r BBC ddarparu newyddion a gwybodaeth ddyddiol i bob cynulleidfa, sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau a dylai gynnwys newyddion a dadansoddiadau manwl, ar ei wefan.[103] Nod hyn yw sicrhau bod y BBC yn cynnig esboniad manwl o straeon newyddion pwysig.

6.21 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod gofynion ar y BBC i ddarparu digon o ddolenni o BBC Ar-lein i ddeunydd ar-lein trydydd parti.[104] Rydym yn credu y gall cynulleidfaoedd elwa'n sylweddol o allu cael gafael ar amrywiaeth o straeon newyddion o wahanol ffynonellau yn ogystal â chynnwys y BBC. Byddai hyn yn arwain at fanteision ehangach i luosogrwydd yn y cyfryngau. Felly, rydym yn bwriadu cadw'r amod yn y Drwydded bresennol sy'n mynnu bod y BBC yn cynnwys dolenni at ddeunydd ar-lein trydydd parti ar ei wefan newyddion.[105]


## Newyddion a materion cyfoes ar deledu a radio

6.22 Mae ein hymchwil yn dangos bod 79% o oedolion y DU yn dal i gael gafael ar newyddion ar y teledu a bod ychydig llai na hanner yn cael gafael ar newyddion ar y radio. Ar ben hynny, dim ond ffynonellau teledu a/neu radio mae 13% o oedolion y DU yn eu defnyddio i gael newyddion.[106] O ran defnyddio gwasanaethau'r BBC yn benodol, mae 18% o oedolion yn defnyddio teledu a radio'r BBC, ond nid gwefan neu ap y BBC, na BBC Sounds, ar gyfer newyddion – fel y dangosir yn Ffigur 4 isod.

---

[102] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI, 16+.
[103] Amod 1.2.1 o'r Drwydded arfaethedig. Mae'r amod fel y'i drafftiwyd yn y Drwydded Weithredu yn cyfeirio at BBC Ar-lein. Nodwn fod y BBC yn bodloni ei ofynion BBC Ar-lein ar hyn o bryd, o ran darparu newyddion i blant a digon o ddolenni at ffynonellau trydydd parti, drwy wefan y BBC (ar Newsround a gwefan BBC News yn y drefn honno). Byddem yn disgwyl i'r BBC barhau i wneud hyn ac i fodloni ein hamod newydd arfaethedig ar gyfer BBC Ar-lein ar wefan y BBC.
[104] Adran 3 o Atodlen 2 i'r Cytundeb.
[105] Amod 2.17.1 o'r Drwydded bresennol.
[106] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021.

**Ffigur 4: Defnyddio gwahanol ffynonellau newyddion y BBC**




*Ffynhonnell Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 - Sampl ar-lein yn unig. Cwestiwn: Gan feddwl yn benodol am < llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Gan feddwl yn benodol am y teledu, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn ar-lein 16+ 2021=3327*

6.23 Gan ei bod yn bwysig bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i elwa o’r ddarpariaeth hon, rydym yn cynnig cadw’r rhan fwyaf o amodau presennol y Drwydded sy’n mynnu bod y BBC yn darparu newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau teledu a radio penodol y BBC.

6.24 Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai amodau teledu a radio presennol a fyddai, yn ein barn ni, yn elwa o gael eu newid neu eu dileu.

6.25 Yn gyntaf, rydym yn cynnig diwygio’r cwotâu yn Niben Cyhoeddus 1 sy’n mynnu bod y BBC yn darparu swm penodol o newyddion a materion cyfoes bob dydd neu wythnos, er mwy iddynt fod yn berthnasol dros y flwyddyn yn lle hynny. Bydd hyn yn golygu newid y cwotâu ar gyfer BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra, BBC Radio 2, BBC 6 Music a BBC Asian Network.[107] Rydym yn cynnig dilyn yr un dull gweithredu ar gyfer cwotâu wythnosol newyddion radio’r gwledydd a’r rhanbarthau yn Niben Cyhoeddus 4. Bydd hyn yn effeithio ar yr amodau ar gyfer BBC Radio Scotland, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle.[108] Er mwyn bod yn gyson, rydym hefyd yn cynnig newid y cwotâu wythnosol eraill yn y Drwydded nad ydynt yn ymwneud â newyddion i fod yn berthnasol drwy gydol y

[107] Amodau 2.8.1, 2.9.1, 2.10.1, 2.14 a 2.15 o'r Drwydded bresennol.
[108] Amodau 2.82.1; 2.88.1, 2.89.1, 2.95.1 a 2.95.2 o’r Drwydded bresennol.

flwyddyn. Bydd hyn yn effeithio ar y cwotâu rhaglenni gwreiddiol a wneir yn lleol ar gyfer radio lleol y BBC yn Niben Cyhoeddus 4[109] a'r cwota cerddoriaeth arbenigol wythnosol ar gyfer BBC Radio 1 yn Niben Cyhoeddus 3.[110]

6.26 Rydym yn cynnig y newidiadau hyn oherwydd ein bod yn credu bod amodau blynyddol yn ddigon i sicrhau bod y Dibenion Cyhoeddus perthnasol yn cael eu cyflawni a bod y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu amodau dyddiol ac wythnosol yn anghymesur. Bydd diwygio'r cwotâu i fod yn berthnasol i flwyddyn yn lleihau'r baich o ran adnoddau a chostau i'r BBC ac i Ofcom (mae'r BBC wedi dweud wrthym fod gorfod monitro ac adrodd yn erbyn yr amodau dyddiol ac wythnosol hyn yn aneffeithlon ac yn feichus). Bydd hefyd yn symleiddio'r Drwydded. Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn gallu gofyn yn ysgrifenedig am gael atal yr amodau hyn am gyfnod penodol, mewn amgylchiadau lle gallai fod yn briodol gwneud hynny.[111] Nodwn ei fod fel arfer yn cyflwyno cais bob blwyddyn i atal gwahanol amodau dros gyfnod y Nadolig. Bydd cwotâu blynyddol yn golygu na fydd angen i'r BBC wneud y ceisiadau hyn mwyach, felly rydym yn cynnig dileu'r amodau hyn.

6.27 Fodd bynnag, drwy symud i gwotâu blynyddol mae risg bosibl y gallai'r BBC ddarparu newyddion yn llai aml nag y mae ar hyn o bryd. I liniaru'r risg hon, rydym yn cynnig cyflwyno amodau ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol i ddarparu bwletinau newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd.[112] Mae'r BBC hefyd wedi dweud wrthym nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i newid ei allbwn newyddion ar y gorsafoedd radio rhwydwaith yr effeithir arnynt ac rydym yn disgwyl i'r BBC barhau â'i ddarpariaeth bresennol.

6.28 Felly, rydym yn cynnig cyflwyno lefelau cwota blynyddol sy'n adlewyrchu faint o gynnwys y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu dros flwyddyn ar hyn o bryd. Gan fod y cwotâu presennol yn wahanol rhwng gwasanaethau (er enghraifft, mae rhai yn cynnwys penwythnosau a rhai ddim), rydym wedi cyfrifo'r cwotâu arfaethedig mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cyrraedd lefelau blynyddol newydd. Mae ein cyfrifiadau isod:

a) **Cwotâu newyddion wythnosol yn Niben Cyhoeddus 1 (BBC Radio 2, BBC 6 Music a BBC Asian Network)** – rydym wedi cyfrifo'r rhain drwy ddefnyddio'r lefelau cwota wythnosol presennol yn gymesur ar draws y flwyddyn (sef, drwy gyfrifo faint o newyddion y mae'n rhaid i'r BBC ei ddangos ar hyn o bryd ar bob gwasanaeth bob dydd a lluosi hynny â 365). Fodd bynnag, rydym wedi lleihau'r ffigurau'n gymesur er mwyn ystyried y ffaith nad yw'r BBC yn gorfod bodloni'r amodau hyn ar hyn o bryd yn ystod gwyliau cyhoeddus.[113]

[109] Amodau 2.75 a 2.76 o'r Drwydded bresennol.
[110] Amod 2.39.3 o'r Drwydded bresennol.
[111] Amod 2.16 o'r Drwydded bresennol yn Niben Cyhoeddus 1 a 2.97 yn Niben Cyhoeddus 4.
[112] Rydym yn cydnabod nad oes yn rhaid i rai o'r gwasanaethau sy'n cael eu targedu ddangos newyddion bob dydd ar hyn o bryd, er ein bod yn nodi bod y BBC yn darparu hyn gan fwyaf.
[113] Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r BBC fodloni cwotâu wythnosol ar gyfer BBC Radio 2, BBC 6 Music a BBC Asian Network, ac eithrio wythnosau sy'n cynnwys gwyliau cyhoeddus, ac os felly gellir lleihau nifer yr oriau'n gymesur. Er mwyn ystyried yr eithriadau hyn yn y lefelau cwota newydd, rydym wedi lleihau'r cwota blynyddol damcaniaethol yn ôl faint o newyddion y byddai'n rhaid i'r BBC ei gynhyrchu ar wyliau cyhoeddus bob blwyddyn. At ddibenion ein cyfrifiadau, rydym wedi tybio bod 8 gŵyl gyhoeddus bob blwyddyn. Dylid nodi, nid yw ein lefelau cwota blynyddol arfaethedig yn ystyried unrhyw ostyngiad posibl yn allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC o ganlyniad i'r amodau atal a nodir uchod, er enghraifft, dros gyfnod y Nadolig. Y rheswm am hyn yw ein bod o'r farn y bydd y cwotâu blynyddol yn rhoi digon o hyblygrwydd i'r BBC leihau'r ddarpariaeth ar adegau pan fydd o'r farn ei bod hi'n briodol gwneud hynny.

b) **Cwotâu newyddion yn ystod yr wythnos ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 1Xtra** – mae'r gwasanaethau hyn ychydig yn wahanol gan fod y cwotâu ond yn berthnasol i ddyddiau'r wythnos ac mae gofynion ar wahân i ddarparu bwletinau newyddion yn rheolaidd ar benwythnosau. Mae ein lefelau cwota blynyddol arfaethedig ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 1Xtra yn seiliedig ar yr hyn y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu ar hyn o bryd yn ystod yr wythnos dros flwyddyn,[114] gan ychwanegu'r hyn y credwn y dylai'r BBC ei ddarparu ar benwythnosau, fel isafswm. Mae'r ychwanegiad yn seiliedig ar wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani gan y BBC, sy'n cynnwys ei ddarpariaeth bresennol ar BBC Radio 1 a BBC Radio 1Xtra ar benwythnosau.

c) **Cwotâu wythnosol rhaglenni ar wahân i'r newyddion yn Niben Cyhoeddus 3 a Diben Cyhoeddus 4**[115] – rydym wedi cyfrifo'r rhain drwy ddefnyddio'r lefelau cwota wythnosol presennol yn gymesur ar draws y flwyddyn (sef, drwy gyfrifo faint o newyddion y mae'n rhaid i'r BBC ei ddangos ar hyn o bryd ar bob gwasanaeth bob dydd a lluosi hynny â 365).

## CBBC

6.29 Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn dangos newyddion bob dydd ar CBBC.[116] Nodwn fodd bynnag fod y BBC yn gwneud newidiadau i amserlen CBBC dros gyfnod y Nadolig sy'n golygu nad yw *Newsround* yn cael ei ddarlledu am oddeutu pythefnos. Yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC y llynedd, gwelsom fod y BBC yn dechnegol yn torri ei ofyniad, er ein bod wedi nodi bod y dull hwn yn cyd-fynd â'r amodau newyddion eraill yn y Drwydded Weithredu sy'n caniatáu i'r BBC amrywio ei allbwn. Roeddem hefyd o'r farn bod amrywiadau i amserlen CBBC yn rhesymol ar y sail bod y BBC yn parhau i ddiweddaru plant ar yr holl newyddion diweddaraf bob dydd drwy wefan *Newsround*.

6.30 Y llynedd, am y tro cyntaf, cyflwynodd y BBC gais ffurfiol i atal *Newsround* dros gyfnod y Nadolig. Fe wnaethom dderbyn y cynnig hwn ar y sail bod hyn yn cyd-fynd â blynyddoedd blaenorol, byddai gwefan *Newsround* yn dal i redeg dros gyfnod y Nadolig (ac eithrio Dydd Nadolig, Dydd Gŵyl San Steffan a Dydd Calan), ac roedd yn caniatáu i'r BBC wneud y defnydd gorau o'i staff.[117]

6.31 Am y rhesymau hyn, ac er mwyn caniatáu i'r BBC wneud newidiadau i amserlen newyddion CBBC heb orfod dod atom ni yn gyntaf, rydym o'r farn bod newid y Drwydded i eithrio'r BBC rhag dangos newyddion bob dydd yn ystod cyfnod y Nadolig yn briodol.[118]

---

[114] Yn yr un modd â'r cwotâu wythnosol yn Niben Cyhoeddus 1, mae'r BBC wedi'i eithrio rhag bodloni'r cwotâu yn ystod yr wythnos ar BBC Radio 1 a BBC Radio 1Xtra ar wyliau cyhoeddus.

[115] Mae hyn yn cyfeirio at y cwota cerddoriaeth arbenigol wythnosol ar gyfer BBC Radio 1 yn Niben Cyhoeddus 3 (amod 2.39.3 yn y Drwydded bresennol) a'r cwota rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol, ar gyfer radio lleol y BBC yn Niben Cyhoeddus 4 (amodau 2.75 a 2.76 yn y Drwydded bresennol).

[116] Amod 2.6.1 o'r Drwydded bresennol.

[117] Gan gynnwys yng ngoleuni effaith Covid-19 - mae rhagor o wybodaeth am eithriadau newyddion dros Nadolig 2021 ar gael ar ein gwefan.

[118] Amod 1.7.1 o'r Drwydded arfaethedig. Mae cyfnod y Nadolig yn cael ei ddiffinio fel unrhyw gyfnod o 14 diwrnod calendr sy'n dechrau ym mis Rhagfyr ac sy'n dod i ben ym mis Ionawr.

## Sianel BBC News

6.32 Rydym yn cynnig dileu'r amod ar sianel BBC News i ddarparu mwy o newyddion rhyngwladol a mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianeli newyddion parhaus eraill y DU.[119] Er bod angen i sianel BBC News barhau i roi sylw i amrywiaeth eang o straeon newyddion lleol, rhanbarthol a rhyngwladol, nid ydym yn credu bod asesu ehangder darpariaeth newyddion y BBC drwy gymharu hynny â darpariaeth newyddion sianeli eraill yn ychwanegu llawer o werth, gan ein bod o'r farn bod hyn yn rhoi safbwynt sy'n rhy gul. Yn lle hynny, rydym yn disgwyl monitro ei berfformiad fel y gwnawn ar gyfer gwasanaethau eraill y BBC.

## BBC Radio 5 Live

6.33 Yn olaf, rydym yn cynnig diwygio'r amod i BBC Radio 5 Live roi sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol,[120] er mwyn iddo gyfeirio at wleidyddiaeth ryngwladol yn unig; rydym o'r farn bod gwleidyddiaeth ryngwladol yn cynnwys gwleidyddiaeth Ewropeaidd.[121]

# Y gofynion o ran tryloywder

## Cynllun Blynyddol

6.34 Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder i'r BBC nodi gyda'i Gynllun Blynyddol y camau mae'n bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â'r amodau ar-lein newydd rydym yn eu cynnig,[122] gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ar-lein a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.[123] Byddem hefyd yn disgwyl i'r BBC nodi unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth ar deledu a radio lle bo hynny'n berthnasol.

## Adroddiad Blynyddol

6.35 Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder cyfatebol i'r BBC adrodd ar a yw wedi cymryd y camau mae wedi'u nodi yn ei Gynllun Blynyddol, gan gynnwys a wnaeth newidiadau sylweddol i'r cynlluniau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.[124]

> **Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 1? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

---

[119] Amod 2.7 o'r Drwydded bresennol.
[120] Amod 2.13.2 o'r Drwydded bresennol.
[121] Amod 1.12.2 o'r Drwydded arfaethedig.
[122] Amodau 1.2 ac 1.3 o'r Drwydded arfaethedig.
[123] Amod 1.16 o'r Drwydded arfaethedig.
[124] Amod 1.17 o'r Drwydded arfaethedig.

# 7. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 2

**Mae ein prif gynigion yn cynnwys:**

- Cadw'r gofynion sy'n ymwneud â darparu cynnwys sy'n cefnogi plant i ddysgu.
- Cyflwyno gofynion newydd i'r BBC ddarparu cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion ac i blant o bob oed ar draws ei wasanaethau a sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn.
- Cyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau i gefnogi dysgu, ac adrodd ar ganlyniad y cynlluniau hynny.

## Cyflwyniad

7.1 Mae Diben Cyhoeddus 2 yn mynnu bod y BBC yn cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:

> "Dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant." *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

7.2 Mae'r BBC yn gyfrannwr pwysig at ddatblygiad addysgol plant a phobl ifanc ar draws y DU, ac mae'n cefnogi dysgu anffurfiol parhaus pob cynulleidfa. Mae cynulleidfaoedd wedi rhoi sgôr uchel i'r BBC yn gyson am ddarparu cynnwys dysgu. Mae'n bwysig bod ein gwaith o reoleiddio Diben Cyhoeddus 2 yn sicrhau bod cynulleidfaoedd y BBC ar draws y DU yn parhau i elwa o gynnwys dysgu o ansawdd uchel sy'n berthnasol iddyn nhw.

7.3 Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio amodau presennol y Drwydded o dan Ddiben Cyhoeddus 2 a'r heriau a nodwyd gyda nhw. Byddwn wedyn yn egluro ein cynigion ar gyfer y Drwydded newydd, gan gynnwys yr amcanion arfaethedig, amodau eraill y Drwydded a'r gofynion tryloywder.

## Mae'r Drwydded bresennol yn cynnwys cwotâu ar gyfer genres gwahanol ac ar gyfer cynnwys i blant, i gefnogi dysgu pob cynulleidfa

7.4 Mae ein Trwydded Weithredu bresennol yn cynnwys amcanion lefel uchel i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu[125] sy'n helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau a

---

[125] Rydym wedi rhannu cynnwys dysgu yn ddau gategori – 'dysgu ffurfiol', sy'n cael ei ddarparu'n bennaf ar gyfer plant ac mae'n gallu bod yn gysylltiedig â chwricwlwm yr ysgol, a 'dysgu anffurfiol.' Mae'r ail yn cyfeirio at wybodaeth a sgiliau sy'n cael eu hennill y tu allan i gyd-destun addysgol ac mae'n cynnwys creu cyfleoedd ac annog cynulleidfaoedd i ddysgu am bynciau newydd a gwahanol fel celf, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes, a chynnwys sydd â

dysgu, gan gynnwys drwy bartneriaethau â sefydliadau addysgol, diwylliannol a chwaraeon.

7.5 Mae'r Drwydded[126] yn nodi gofynion i'r BBC helpu i gyflawni'r amcanion hyn ar draws ei wasanaethau. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys cwotâu ar gyfer gwahanol genres sy'n ymwneud â chynnwys i oedolion ac i blant, yn ogystal ag ar gyfer rhaglenni dogfen a chynnwys cerddoriaeth y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu ar wasanaethau penodol i gefnogi dysgu anffurfiol oedolion. Mae'r Drwydded hefyd yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â dysgu Gaeleg, cynnwys sy'n cefnogi plant cyn oed ysgol i ddysgu a chynnwys dysgu ffurfiol i blant ym mhob rhan o'r DU.

## Mae'r BBC wedi cyflwyno dysgu'n dda hyd yma

7.6 Yn gyffredinol, credwn fod yr amodau presennol wedi sicrhau canlyniadau da o ran dysgu, ac rydym am i hyn barhau. Rydym hefyd yn nodi nad yw rhanddeiliaid wedi mynegi unrhyw bryderon penodol ynghylch yr amodau presennol. Mae ymchwil wedi canfod bod rhieni a phlant yn ymddiried yn y cynnwys addysgol sy'n cael ei ddarparu gan y BBC, sy'n amrywio o CBeebies i blant cyn oed ysgol a rhaglenni fel *Horrible Histories* ar gyfer plant hŷn ar CBBC, i BBC Bitesize sy'n cefnogi dysgu ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau.[127] Mae darpariaeth y BBC wedi cael effaith gadarnhaol ar ei chynulleidfa arfaethedig, gan gynnwys mewn ymateb i gyfnodau clo Covid-19, pan gamodd i'r adwy ar ôl i'r ysgolion gau er mwyn cefnogi dysgu ffurfiol plant ar-lein ac ar deledu sy'n cael ei ddarlledu.

---


ffocws rhyngwladol. Mae hi hefyd yn bosibl darparu dysgu anffurfiol drwy newyddion a materion cyfoes, cynnwys yn ieithoedd brodorol y DU a rhaglenni am ddiwylliannau a safbwyntiau gwahanol. Gellid darparu'r cynnwys hwn mewn sawl fformat gwahanol ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein (gan gynnwys apiau) ac nid yw wedi'i gyfyngu, er enghraifft i raglenni dogfen ar y teledu neu bodlediadau.

[126] Amodau 2.18 – 2.31 o'r Drwydded bresennol.

[127] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.24.

> "Rhaglenni fel *Horrible Histories*, maen nhw'n ddifyr, ac mae hynny'n golygu ei bod hi'n hwyl dysgu".[128] **Bachgen, dan 18 oed**
>
> "Mae rhywfaint o gynnwys addysgol ar YouTube, ond mae'r BBC yn well o ran cynnwys ansawdd uwch. Mae'n ymwneud â'r bobl hefyd fel David Attenborough – maen nhw'n bobl sy'n gysylltiedig â'r BBC ac rydych chi'n eu hadnabod nhw ac yn ymddiried ynddyn nhw".[129] **Dyn, 18-30 oed**
>
> "Mae gan y BBC gynnwys sy'n gwneud i rywun feddwl, fe wnes i wylio rhaglen am newid yn yr hinsawdd, ac fe gafodd ddylanwad arnaf, fe wnaeth i mi feddwl mwy am yr hyn y byddwn i'n gallu ei wneud".[130] **Menyw, Teulu, plant hŷn**

**Ffigur 5: Canfyddiadau rhieni o gynnwys dysgu'r BBC i blant dan 16 oed yn 2020**




*Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.*

7.7 Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ystyried a oes cyfyngiadau i'r amodau presennol yn Niben Cyhoeddus 2. Mae'r agweddau rydym yn credu y gellid eu cryfhau yn cynnwys tryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn cefnogi dysgu ar gyfer *pob* cynulleidfa, a sut mae'n defnyddio ei wasanaethau ar-lein i helpu i hwyluso dysgu.

7.8 Yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar y BBC, fe wnaethom ddweud yr hoffem weld y BBC yn adrodd yn fanylach am ei ddarpariaeth o gynnwys dysgu anffurfiol i oedolion, ac effaith hynny.[131] Rydym yn credu y dylai hyn fod yn fwy na rhoi gwybod a yw wedi darparu nifer penodol o genres gan gynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni crefyddol, dramâu, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni dogfen. Credwn y dylai fod yn adlewyrchiad mwy cynhwysfawr o'r ystod ehangach o allbwn dysgu anffurfiol y mae'n ei ddarparu ar draws ei wasanaethau sy'n cyfrannu at addysgu a hysbysu cynulleidfaoedd.

7.9 Ar ben hynny, er bod y Drwydded bresennol yn mynnu bod cynnwys dysgu'n cael ei ddarparu drwy BBC Ar-lein, mae hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ddysgu ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau, sy'n cael ei ddarparu gan y BBC drwy wefan ac ap BBC Bitesize. Nid yw'n cofnodi'r cyfoeth o gynnwys dysgu anffurfiol ar-lein y mae'r BBC yn ei

[128] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.25.
[129] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.25.
[130] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.25.
[131] Ofcom, Tachwedd 2021. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, t. 37-38.

ddarparu i oedolion a phlant, yn enwedig drwy ei wefan, BBC iPlayer, BBC Sounds ac apiau eraill.

7.10 Yn olaf, mae ymgysylltu â sefydliadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol yn rhan allweddol o Ddiben Cyhoeddus 2 ac mae'n cael ei amlygu yn amcanion ein Trwydded bresennol. Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad Cychwynnol, roedd rhanddeiliaid wedi trafod gweithio mewn partneriaeth â'r BBC ac wedi gofyn am gydweithio ac ymgysylltu rhagweithiol.[132] Roedd rhai wedi dweud wrthym ei bod hi'n gallu bod yn anodd creu partneriaeth â'r BBC, yn enwedig ar lefel leol, ac roeddent wedi mynegi pryderon am ddiffyg tryloywder ynghylch ei bartneriaethau.[133] Ar hyn o bryd nid yw'r BBC yn adrodd ar ei strategaeth ar gyfer partneriaethau, na'u heffeithiolrwydd.

## Rydym yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder newydd o dan Ddiben Cyhoeddus 2

7.11 Rydym yn cynnig cyflwyno dau amcan, wedi'u hategu gan rai o'r amodau sydd yn y Drwydded bresennol ac wedi'u hategu gan ofynion ychwanegol ynghylch tryloywder.

7.12 Rydym hefyd yn cynnig symud gofynion mewn perthynas â genres, rhaglenni dogfen a chynnwys cerddoriaeth BBC Radio 3 o Ddiben Cyhoeddus 2 i Ddiben Cyhoeddus 3.[134] Rydym yn trafod ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r gofynion hyn yn Adran 8 o dan Ddiben Cyhoeddus 3. Rydym yn rhoi sylw i amod dysgu Gaeleg BBC ALBA[135] yn Adran 9 o dan Ddiben Cyhoeddus 4, gyda'r gofynion eraill sy'n ymwneud ag ieithoedd brodorol. Byddai darparu cynnwys o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o genres yn dal i gyfrannu at ddysgu a byddai'n dal yn rhan o'n hasesiad o berfformiad Diben Cyhoeddus 2.

7.13 Rydym hefyd yn cynnig mynnu bod y BBC yn adrodd ar sut mae'n darparu cynnwys dysgu ar draws ei wasanaethau ar-lein, gan gynnwys ar ei wefan, BBC iPlayer, BBC Sounds ac apiau eraill i sicrhau bod y BBC yn fwy agored ynghylch darpariaeth y BBC o gynnwys dysgu ar-lein. Yn olaf, rydym yn nodi sylwadau rhanddeiliaid ynghylch partneriaethau'r BBC ac rydym yn bwriadu monitro sut mae'r BBC yn ymgysylltu â nhw i hyrwyddo ei arlwy dysgu. Lle bo angen, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y BBC i gefnogi ein gwaith monitro.

---

[132] Y Rhwydwaith Teledu Lleol, t.2; MG ALBA, t.1; News Media Association, t.5.
[133] News Media Association a'r Rhwydwaith Teledu Lleol.
[134] Mae hyn yn effeithio ar amodau 2.18-2.21; 2.23; 2.25 – 2.30 o'r Drwydded bresennol.
[135] Amod 2.24 o'r Drwydded bresennol.

## Dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu, sy'n hawdd i gynulleidfaoedd ei ddarganfod

**Amcan P2 (1): Hyd a lled y cynnwys dysgu**

Dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys sy'n hwyluso ac yn hybu dysgu ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed, gan gynnwys mewn amrywiaeth o genres a phynciau.

7.14 Mae allbwn dysgu'r BBC yn gallu chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi addysg a dyfodol holl gynulleidfaoedd y DU, ac mae'n gallu cyfrannu at ymdrechion balchder bro ehangach ar draws y DU, fel sy'n cael eu nodi yng nghynllun y BBC, sef Levelling up and the BBC Ebrill 2022. I gefnogi'r canlyniadau hyn, mae'r amcan cyntaf hwn yn ceisio sicrhau bod cynnwys dysgu o ansawdd uchel yn dal i gael ei ddarparu i bob cynulleidfa.

**Amcan P2 (2): Darganfod ac argaeledd cynnwys dysgu**

Dylai'r BBC ddarparu cynnwys dysgu ar ei Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU, Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU ac ar BBC Ar-lein. Dylai gymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a gwneud cynnwys dysgu yn hawdd ei ddarganfod.

7.15 Mae'r BBC eisoes yn darparu cynnwys dysgu ar draws amrywiaeth o'i wasanaethau, gan gynnwys ar ei wefan, BBC Bitesize, BBC iPlayer, BBC Sounds ac apiau eraill. Nod yr ail amcan hwn yw sicrhau ei fod yn parhau i wneud hynny er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydym yn credu ei bod yn rhaid i'r holl gynnwys dysgu gael ei ddarparu ar *bob* gwasanaeth, yn hytrach, dylai dosbarthiad y cynnwys dysgu fynd i'r afael ag anghenion y gynulleidfa a chael ei deilwra yn ôl yr anghenion hynny.

7.16 Dylai'r BBC hefyd adolygu sut gall arloesi ac arbrofi gyda'r ffyrdd mae'n ymgysylltu ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws y DU gyda chynnwys dysgu sy'n berthnasol iddyn nhw. Rydym yn trafod hyn ymhellach o dan y pedwerydd amcan yn Adran 8 (Diben Cyhoeddus 3).

## Amodau trwydded

7.17 Byddai'r amcanion hyn yn cael eu cefnogi gan amodau arfaethedig sy'n mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys dysgu sy'n berthnasol i blant ac i oedolion o bob oed ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys ar-lein, ac yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys dysgu ar-lein.[136] Rydym hefyd yn cynnig cadw amodau i'r BBC ddarparu cynnwys mewn perthynas â BBC Ar-lein sy'n cefnogi dysgu ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau ym mhob rhan o'r DU,[137] ac i sicrhau bod y BBC yn darparu amrywiaeth o gynnwys ar CBeebies i gefnogi dysgu plant cyn oed ysgol.[138]

[136] Amodau 2.2 a 2.3 o'r Drwydded arfaethedig.
[137] Amod 2.4 o'r Drwydded arfaethedig.
[138] Amod 2.5 o'r Drwydded arfaethedig.

7.18 Rydym yn cynnig defnyddio gofynion tryloywder i ategu'r amodau hyn.

# Y gofynion o ran tryloywder

## Cynllun Blynyddol y BBC

7.19 Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r BBC, gyda'i Gynllun Blynyddol, ddarparu esboniad o'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni amodau'r Drwydded a nodir uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth bresennol ar y pryd a'r rhesymau.[139]

7.20 Er ein bod yn cynnig symud gofynion penodol o ran genres, rhaglenni dogfen a cherddoriaeth o Ddiben Cyhoeddus 2 ac i Ddiben Cyhoeddus 3, byddem yn dal i ddisgwyl y byddai cynnwys mewn amrywiaeth o genres a phynciau yn cefnogi dysgu anffurfiol a dylai'r BBC sôn am hyn yn ei adroddiadau. Fodd bynnag, rydym o'r farn na ellir defnyddio hyd a lled y genres a gyflwynir ar eu pen eu hunain i ddangos gwerth darpariaeth dysgu anffurfiol y BBC. Gallai'r BBC hefyd ddefnyddio, er enghraifft, sut gallai ei ddarpariaeth o newyddion, rhaglenni o'r gwledydd a'r rhanbarthau, a rhaglenni ieithoedd brodorol, gefnogi dysgu. Byddem yn disgwyl i'r BBC egluro sut mae'r cynnwys ar ei wefan neu ar BBC Sounds yn cefnogi dysgu.

## Adroddiad Blynyddol y BBC

7.21 Rydym yn cynnig ei bod yn rhaid i'r BBC egluro gyda'i Adroddiad Blynyddol a yw wedi cymryd y camau roedd wedi bwriadu eu cymryd i ddarparu cynnwys dysgu i oedolion ac i blant o bob oed ar draws ei wasanaethau, a sut mae wedi sicrhau ei bod hi'n hawdd i gynulleidfaoedd ddod o hyd i'r cynnwys hwn.[140] Byddem yn disgwyl i'r BBC ddefnyddio data defnydd, gan ddangos i ba raddau mae cynulleidfaoedd wedi canfod a defnyddio ei gynnwys dysgu ar draws ei wasanaethau, yn ogystal ag unrhyw ddata perthnasol am effaith o ran pa mor hawdd yw dod o hyd i'w gynnwys dysgu. Os oes gennym bryderon ynghylch sut mae'r BBC yn bodloni'r gofyniad adrodd hwn, byddwn yn ystyried gosod gofynion adrodd manwl ar y BBC i nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid iddo roi gwybod amdani.

> **Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 2? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

[139] Amod 2.6 o'r Drwydded arfaethedig.
[140] Amod 2.7 o'r Drwydded arfaethedig.

# 8. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3

**Mae ein prif gynigion yn cynnwys:**

- Cadw'r cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol yn y DU, ac eithrio'r cwota ar gyfer BBC Four, yr ydym yn cynnig ei leihau o 75% i 65%.
- Cadw'r cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, gyda mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar ba wasanaethau a phryd i ddangos cynnwys o'r fath. Byddai hyn yn cael ei ategu gan ofynion newydd ynghylch tryloywder, gan gynnwys gofyniad i'r BBC nodi oriau'r cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf y mae'n bwriadu ei ddarparu ar gyfer pob gwasanaeth.
- Disodli cwotâu ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni crefyddol, cynnwys ar gyfer plant a chomedi ar deledu rhwydwaith ag amod i ddarparu ystod eang o allbwn wedi'i gefnogi gan ofynion ynghylch tryloywder. Byddai hyn yn cynnwys mynnu bod y BBC yn nodi nifer yr oriau y bydd yn eu darparu ar gyfer pob genre sydd mewn perygl gyda'i Gynllun Blynyddol, gan gynnwys oriau rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu.
- Disodli cwotâu radio rhwydwaith ar gyfer rhaglenni celfyddydol a chrefyddol, rhaglenni dogfen, ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig a gweithiau cerddorol newydd gydag amod i ddarparu ystod eang o allbwn wedi'i gefnogi gan ofynion ynghylch tryloywder. Byddai hyn yn cynnwys mynnu bod y BBC yn nodi oriau arfaethedig rhaglenni o'r fath gyda'i Gynllun Blynyddol.
- Cadw'r cwotâu presennol ar gyfer cerddoriaeth ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2, cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig ar BBC Radio 3 a sylw i chwaraeon ar BBC Radio 5 Live.
- Cyflwyno gofyniad tryloywder sy'n ymwneud â chynlluniau'r BBC i sicrhau bod pob un o'i wasanaethau'n unigryw, gan gynnwys ar gyfer BBC iPlayer a BBC Sounds.

## Cyflwyniad

8.1 Mae Diben Cyhoeddus 3 yn mynnu bod y BBC yn dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau:

> "Dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydy pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol."
> *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

8.2 Mae bod yn unigryw wrth galon y BBC a'i ddarpariaeth. Mae'n mesur sut mae'r BBC yn cymharu â darlledwyr eraill ac mae'n mesur y gwerth unigryw mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae'r BBC wedi cynnig ystod a chymysgedd ehangach o gynnwys yn

gyson na darlledwyr a gwasanaethau fideo ar-alw eraill yn y DU.[141] Mae hyn yn allweddol i'w Genhadaeth i wasanaethu pob cynulleidfa, ond mae ei fuddsoddiad mewn cynnwys newydd hefyd yn cefnogi'r sector cynhyrchu yn y DU. Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC am gyflawni gwahanol agweddau ar Ddiben Cyhoeddus 3.[142]

> "Rydych chi'n gwybod pan fyddwch chi'n gwylio un o ddramâu'r BBC, mae'n teimlo'n wahanol, mae'n Brydeinig. Mae'n cyrraedd lefel benodol nad yw'n cael ei hailadrodd yn unman arall. Mae'n hollol wahanol i'r hyn a gewch chi ar ITV neu Sky."[143] **Dyn, Teulu, plant hŷn**

8.3 Bydd rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol yn gorfod sicrhau ffocws parhaus ar amrywiaeth o allbwn gwreiddiol, unigryw o safon uchel yn y DU sy'n apelio at gynulleidfaoedd, a buddsoddiad parhaus yn economi greadigol y DU. Rhaid i Drwydded Weithredu newydd hefyd roi mwy o gyfle i'r BBC gymryd risgiau, arloesi ac addasu ei allbwn i ddiwallu anghenion amrywiol cynulleidfaoedd y DU sy'n newid. Ochr yn ochr â mwy o hyblygrwydd, fodd bynnag, rydym yn credu y dylai rheoleiddio yn y dyfodol sicrhau mwy o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn darparu allbwn unigryw ar draws ystod lawn ei wasanaethau.

8.4 Yn yr adran hon, rydym yn nodi amodau presennol y Drwydded o dan Ddiben Cyhoeddus 3 a'r heriau a nodwyd gyda nhw. Byddwn wedyn yn egluro ein cynigion ar gyfer y Drwydded newydd, gan gynnwys yr amcanion arfaethedig, y cwotâu, amodau eraill y Drwydded a'r gofynion tryloywder. Rydym hefyd yn nodi ein safbwynt cychwynnol ar gynnig y BBC i ddiwygio'r cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar BBC Four.[144]

## Mae amodau presennol Diben Cyhoeddus 3 yn gymysgedd o gwotâu teledu a radio sy'n ceisio sicrhau natur unigryw

8.5 Mae ein Trwydded bresennol yn cynnwys amcanion i'r BBC ddarparu cymysgedd unigryw o genres ac allbwn ar draws ei wasanaethau, ac i'r rhain fod o ansawdd uchel, yn cymryd risgiau ac yn arloesol, gan ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y DU. Mae hefyd yn nodi y dylai cyfran sylweddol o raglenni teledu fod yn gynyrchiadau gwreiddiol o'r DU, gan gynnwys cynyrchiadau gwreiddiol *newydd* o'r DU nad ydynt wedi cael eu dangos yn y DU o'r blaen ('rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf').[145]

8.6 Mae amodau'r Drwydded ar gyfer teledu yn cynnwys cwotâu ar faint o gynnwys gwreiddiol o'r DU sydd ar gael, rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, a

---


[141] Mae modd gweld y cymysgedd o genres yn fanwl yn adran Diben 3 - Teledu - Argaeledd yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol sydd wedi'i atodi i'n Hadroddiad Blynyddol 2020/21 ar y BBC.
[142] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
[143] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.25.
[144] Mae modd darllen cynnig y BBC yn llawn yn Atodiad 10.
[145] Mae 'cynyrchiadau gwreiddiol' yn rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu'r BBC, gan gynnwys ailddarllediadau. Mae 'rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf' yn gynyrchiadau gwreiddiol nad ydynt wedi cael eu dangos ar deledu nac wedi bod ar gael ar-lein yn y DU o'r blaen. I gael diffiniadau cyfredol manwl, gweler amod 2.37.1 y Drwydded bresennol mewn perthynas â BBC One, BBC Two a BBC Three, yn ogystal â 2.37.1A mewn perthynas â CBBC a BBC iPlayer gyda'i gilydd, a CBeebies a BBC iPlayer gyda'i gilydd: Y drwydded weithredu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU.

chynnwys comedi ar wasanaethau teledu.[146] Ar gyfer radio rhwydwaith, maent yn cynnwys cwotâu ar gyfer cerddoriaeth newydd, cerddoriaeth gan artistiaid o'r DU, cerddoriaeth fyw, sesiynau wedi'u recordio, cerddoriaeth arbenigol, amrywiaeth o gerddoriaeth wrth gymharu â darparwyr tebyg, gweithredu cymdeithasol a sylwebaeth chwaraeon.[147] Mae'r Drwydded yn cydnabod bod amodau o dan Ddibenion Cyhoeddus eraill hefyd yn cyfrannu at natur unigryw'r BBC.

## Fodd bynnag, mae'r cwotâu'n canolbwyntio'n bennaf ar niferoedd ac nid ydynt yn ystyried darpariaeth ar-lein y BBC

8.7 Fel yr eglurwyd yn Adran 2, canfu ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar y BBC fod gan ei wasanaethau safle unigryw ym marchnad cyfryngau'r DU, ond bod yn rhaid i'r BBC barhau i ymrwymo i amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU, gan fod hyn yn hanfodol i'w natur unigryw. Mae Ffigur 6 isod yn dangos y gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er bod hyn yn erbyn cefndir o ddirywiad cyson, mae'n dangos bod y BBC yn dal yn un o brif gomisiynwyr cynnwys gwreiddiol newydd o'r DU.[148]

**Ffigur 6: Gwariant rhwydwaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU i'w ddarlledu am y tro cyntaf, yn ôl darlledwr (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Addaswyd y ffigurau ar gyfer CPI yn ôl prisiau 2021. Mae ffigurau'r BBC yn cynnwys BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News, a BBC Parliament. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys S4C, BBC ALBA, BBC HD, rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, na gwariant trydydd parti.*

8.8 Fe wnaethom nodi yn Adran 3 bod y BBC ar ganol gwneud newidiadau strategol i'w wasanaethau a'i allbwn i ymateb i newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd a heriau ariannol. Mae'r newidiadau hyn yn ceisio ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd, gan

[146] Amodau 2.32-2.38 o'r Drwydded bresennol
[147] Amodau 2.39-2.41 o'r Drwydded bresennol
[148] Roedd Covid-19 wedi effeithio ar wariant rhwydwaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2020.

gynnwys drwy ganolbwyntio ar lai o gynnwys unigryw, effaith uchel a'r hyn mae'n ei gynnig ar-lein.

8.9 Mynegodd TAC a Audio UK bryderon mewn ymateb i'n Hymgynghoriad Cychwynnol y gallai'r strategaeth hon arwain at lai o raglenni pwysig, nad ydynt yn denu cynulleidfaoedd mawr, yn cael eu comisiynu.[149] Ar y llaw arall, roedd y BBC yn dadlau bod cwotâu presennol, yn enwedig ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn ei atal rhag gweithredu ei strategaeth ar gyfer arloesi a newid ei allbwn a'i wasanaethau yn unol ag anghenion cynulleidfaoedd. Roedd yn argymell dileu cwotâu rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a genres teledu. O ran pob gwasanaeth, gan gynnwys radio, roedd yn dadlau dros ddull gweithredu 'niwtral o ran gwasanaeth' yn hytrach na phennu gofynion manwl ar gyfer gwasanaethau unigol.[150]

8.10 Er bod cwotâu yn sicrhau ac yn diogelu perfformiad sylfaenol gan y BBC yn llwyddiannus, mae defnyddio cwotâu yn unig yn golygu y gall fod yn anodd dod i gasgliad terfynol ynghylch a yw yn darparu allbwn unigryw, o ystyried bod llawer o agweddau ar natur unigryw yn oddrychol ac yn anodd eu mesur. Gall hefyd fod yn anodd asesu allbwn y BBC o ran ansawdd, uchelgais creadigol a chymryd risg. Efallai na fydd defnyddio llawer ar gwotâu (yn hytrach na mathau eraill o ofynion) yn rhoi'r hyblygrwydd i'r BBC addasu i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a allai, wrth eu cyfuno â'r pwysau ariannol y mae'r BBC yn ei wynebu, arwain at ganlyniadau anfwriadol i gynulleidfaoedd yn y tymor hwy pe bai'n rhaid iddo ddarlledu cynnwys o ansawdd is er mwyn bodloni cwotâu.

8.11 Cwmpas cyfyngedig sydd i amodau'r Drwydded bresennol hefyd, gan nad ydynt yn ymgorffori gwasanaethau ar-lein yn gynhwysfawr fel BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan y BBC ac apiau eraill. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y BBC yn darparu cynnwys gwreiddiol newydd o'r DU ar BBC iPlayer a BBC Sounds, gan fod llawer o gynulleidfaoedd yn disgwyl gwylio mwy a mwy o gynnwys ar-alw.

## Rydym yn cynnig rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu cynnwys unigryw ar draws ei wasanaethau

8.12 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi ein cynigion ar gyfer diweddaru'r Drwydded. Yn gyffredinol, rydym yn cynnig cyflwyno pedwar amcan sy'n cael eu hategu gan rai cwotâu presennol ac sy'n cynnwys amodau newydd a gofynion tryloywder ychwanegol. Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd yn cynnig symud yr amodau mewn perthynas â'r celfyddydau a cherddoriaeth, crefydd, rhaglenni dogfen, dramâu, cynnwys ffeithiol a chynnwys cerddoriaeth penodol o Ddiben Cyhoeddus 2 i'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3. Y rheswm am hyn yw oherwydd ein bod yn ystyried bod yr amodau hyn yn elfennau pwysig i natur unigryw (ac y byddent hefyd yn parhau i gyfrannu at ddarpariaeth y BBC o gynnwys dysgu i gynulleidfaoedd).

8.13 Er ein bod yn cynnig cadw cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rydym am roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu lle a phryd i ddangos

[149] Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC), t.1 ac Audio UK, t.3.
[150] BBC, t. 6.

ei gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. Rydym hefyd yn cynnig rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu sut mae siapio ei genres a'i gymysgedd allbwn ar ei wasanaethau, gyda gofynion tryloywder yn eu hategu.

8.14 Mewn meysydd lle rydym yn cynnig rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC, er mwyn ein galluogi i'w ddal i gyfrif yn well, rydym yn cynnig mynnu rhagor o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn dewis darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. I gefnogi hyn, rydym yn cynnig mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ar gyfer y genres, y rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a'r rhaglenni sy'n cael eu prynu y bydd yn eu darparu ar ei wasanaethau teledu ac ar BBC iPlayer gyda'i Gynllun Blynyddol. Rydym hefyd yn cynnig cael mwy o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn arloesi ac yn sicrhau ansawdd uchel yn yr allbwn gwreiddiol newydd mae'n ei gynhyrchu ar ei wasanaethau. Rydym hefyd yn disgwyl iddo adrodd ar sut mae'n cymryd risgiau. Fel y nodwyd yn Adran 5, byddai'n rhaid i'r BBC gyfiawnhau ac egluro newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth.

8.15 Er mwyn ymgorffori a sicrhau natur unigryw gwasanaethau ar-lein yn well, rydym hefyd yn cynnig gosod gofynion tryloywder ar BBC Sounds a BBC iPlayer i weld sut mae'r hyn maent yn ei gynnig yn unigryw.

8.16 Bydd ein hasesiad o natur unigryw y BBC yn parhau i ganolbwyntio ar ei ddarpariaeth yn gyffredinol ac ar wasanaethau unigol, yn hytrach nag ar raglenni unigol.

## Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol, unigryw ac o safon uchel o'r DU y gall cynulleidfaoedd ddod o hyd iddo'n hawdd

**Amcan P3 (1): Cynnwys gwreiddiol o'r DU**

Dylai'r BBC ddarparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU, gan gynnwys cynnwys newydd o'r DU.

8.17 Amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yw conglfaen natur unigryw y BBC ac mae'n allweddol i'r gwerth cyhoeddus mae'n ei gynnig i'w gynulleidfaoedd. Mae amcan cyntaf arfaethedig Diben Cyhoeddus 3 yn ceisio sicrhau hyn. Dylai pob cynulleidfa ar draws y DU allu elwa o gynnwys newydd a ffres sy'n apelio atynt.

**Amcan P3 (2): Hyd a lled y cynnwys**

Dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o allbwn gan roi sylw i amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys genres nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys: cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant).

8.18 Yr amcan hwn yw bod y BBC yn darparu ystod eang o allbwn ar ei wasanaethau er mwyn cyflawni ar gyfer anghenion cynulleidfaoedd, gan gynnwys mewn genres mewn perygl – sef y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni plant, comedi, ffeithiol arbenigol (ee gwyddoniaeth a hanes) a chrefydd. Mae gan gynulleidfaoedd heddiw fwy o ddewis a

hyblygrwydd i lywio rhwng gwasanaethau i ddod o hyd i'r cynnwys maent ei eisiau. Mae hyn wedi'i gwneud yn fwy heriol, ond hefyd yn bwysicach i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys ac allbwn er mwyn apelio at gynulleidfaoedd gwahanol a chyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

**Amcan P3 (3): Ansawdd uchel a natur unigryw**

Dylai'r BBC sicrhau bod allbwn pob gwasanaeth o ansawdd uchel, yn unigryw ac yn cefnogi talent a lleisiau newydd y DU. Wrth ddatblygu'r allbwn hwn, dylai arloesi, bod yn uchelgeisiol a chymryd risgiau.

8.19 Un agwedd bwysig ar natur unigryw yw ansawdd yr allbwn, gan gynnwys yr ymrwymiad creadigol, yr arloesi a'r risgiau y mae'r BBC yn eu cymryd wrth wneud penderfyniadau comisiynu. Drwy ei benderfyniadau, ei fentrau a'i gynlluniau hyfforddi, mae'r BBC yn hwylusydd allweddol ar gyfer talent a lleisiau newydd y DU yn economi greadigol y DU. Dylai barhau i feithrin hyn i'w helpu i ddarparu arlwy unigryw i gynulleidfaoedd.

**Amcan P3 (4): Darganfod cynnwys gwreiddiol o'r DU**

Dylai'r BBC sicrhau bod pob cynulleidfa yn y DU yn gallu dod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hawdd. Dylai'r BBC hefyd barhau i ystyried sut y gall arloesi yn y ffyrdd mae'n ymgysylltu ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd.

8.20 Rhan bwysig arall o natur unigryw y BBC yw sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y DU yn gallu elwa o'i arlwy cynnwys unigryw, yn enwedig mewn genres mewn perygl. Mae gan wefan y BBC, BBC iPlayer a BBC Sounds lyfrgelloedd cynnwys helaeth, ac mae'n bwysig bod y BBC yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hawdd wrth lywio drwy'r llyfrgelloedd hyn. Nodwn fod hyn hefyd yn berthnasol i wasanaethau teledu a ddarlledir ac ar y radio lle gall y BBC helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU drwy ei benderfyniadau amserlennu.

8.21 Fel rhan o hyn, byddem hefyd yn disgwyl i'r BBC ystyried sut gall arloesi yn y ffyrdd mae'n darparu'r ystod o'i gynnwys gwreiddiol o'r DU – o newyddion, materion cyfoes, cynnwys dysgu, cynnwys newydd ac unigryw gan gynnwys genres mewn perygl a genres eraill, cynnwys mewn ieithoedd brodorol, i raglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pob cynulleidfa ar draws y DU, yn enwedig y rheini sy'n anoddach eu cyrraedd neu a allai ddefnyddio gwasanaethau'r BBC yn llai nag eraill. Gall hyn gynnwys defnyddio llwyfannau trydydd parti i feithrin ymwybyddiaeth a gwasanaethu cynulleidfaoedd, er enghraifft drwy YouTube.

## Amodau trwydded

8.22 Rydym yn cynnig cyflwyno amodau newydd fel sail i'n hamcanion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3 yn ein Trwydded arfaethedig.[151] Mae hyn yn cynnwys set o amodau cyffredinol sy'n berthnasol i wasanaethau teledu, radio rhwydwaith ac ar-lein,[152] yn ogystal

[151] Amodau 3.2 - 3.12 o'r Drwydded arfaethedig.
[152] Amodau 3.2 - 3.4, 3.8 o'r Drwydded arfaethedig.

â rhai amodau mwy penodol y byddwn yn eu trafod yn fanylach isod. Ynghyd â'r gofynion tryloywder arfaethedig[153] a drafodir yn fanylach isod, byddai'r amodau hyn yn helpu i sicrhau bod amcanion y Drwydded yn cael eu cyflawni.

## Cynyrchiadau gwreiddiol

8.23 Mae cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n dathlu lleisiau, talent a straeon y DU ar y sgrin yn allweddol i natur unigryw ac ansawdd uchel Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Rydym o'r farn bod cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi natur unigryw gwasanaethau'r BBC. Roedd COBA o'r farn y byddai 'gwanhau' y cwotâu hyn mewn unrhyw ffordd yn gallu gwneud y BBC yn debycach i lawer o'i gystadleuwyr. Rydym yn bwriadu cadw'r cwotâu ar bob gwasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU ar y lefelau presennol, ac eithrio BBC Four, yn dilyn cais gan y BBC. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach ac yn ei gyflwyno ar gyfer ymgynghori ar ddiwedd Adran 8.[154]

8.24 Mae'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol hefyd yn rhoi cap ar faint o raglenni sy'n cael eu prynu y gall y BBC eu darlledu ar bob gwasanaeth. Gall rhaglenni sy'n cael eu prynu sydd wedi cael eu dewis yn ofalus chwarae rhan bwysig yng nghyfansoddiad gwasanaethau'r BBC, gan helpu'r BBC i apelio at gynulleidfaoedd gwahanol a denu rhai newydd. Fodd bynnag, byddem yn bryderus pe byddai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn chwarae rôl rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC. Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau mae rhanddeiliaid wedi'u gwneud am effaith rhaglenni sy'n cael eu prynu ar natur unigryw y BBC o'i gymharu â darlledwyr eraill.[155] Er mwyn ei gwneud yn gliriach beth yw strategaeth prynu rhaglenni y BBC ar gyfer pob gwasanaeth teledu, rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder, y byddwn yn ei drafod ymhellach ym mharagraff 8.52.

8.25 Wrth i'r sector darlledu esblygu ymhellach, ac wrth i'r BBC barhau i drawsnewid sut mae'n darparu ei gynnwys, efallai y bydd cyfnod pan ddylai'r BBC gael hyblygrwydd ychwanegol i ymateb i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a chael mwy o gyfle i strwythuro ei raglenni gwreiddiol ar draws ystod ei wasanaethau teledu, a BBC iPlayer, lle mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau. Yn benodol, byddai cwota cynyrchiadau gwreiddiol sy'n niwtral o ran gwasanaeth yn caniatáu i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu'r cynnwys hwn ar draws ei holl wasanaethau teledu ac ar-lein, yn hytrach na chwota ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar bob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU. Ar hyn o bryd, rydym yn credu bod y cwotâu hyn yn dal i chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod y BBC yn cyflwyno cyfran sylweddol o gynnwys gwreiddiol o'r DU i gynulleidfaoedd ac o ran capio rhaglenni sy'n cael eu prynu ar wasanaethau teledu unigol sy'n cael eu darlledu. Fodd bynnag, fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried diwygio'r Cytundeb, fel na fydd yn rhaid i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu mwyach. Yn hytrach, byddai'n rhaid i

---

[153] Amodau 3.13 - 3.15 o'r Drwydded arfaethedig
[154] Amod 2.32 o'r Drwydded bresennol, amod 3.7 o'r Drwydded arfaethedig.
[155] ITV, t.5.

Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol sy'n rhoi hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar ba wasanaethau teledu ac ar-lein y byddai'n cyflawni'r cwotâu.

## Rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU

8.26 Fel yr amlinellwyd uchod, rydym yn credu bod rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn dal yn ganolog i natur unigryw'r BBC. Rydym felly'n credu ei bod yn briodol cadw dull gweithredu sy'n seiliedig ar gwota ar gyfer rheoleiddio yn y maes hwn, er mwyn diogelu'r ddarpariaeth, gyda rhai newidiadau er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd.

### Niwtraliaeth gwasanaeth

8.27 Ar hyn o bryd, mae'r Drwydded Weithredu yn gosod cwotâu ar BBC One, BBC Two, CBBC a CBeebies (ar gyfer y ddau olaf, gellir cyflawni'r cwota yn rhannol drwy BBC iPlayer).[156] Mae'n rhaid i'r BBC hefyd gomisiynu rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf sy'n berthnasol i bobl ifanc 16-34 oed ar BBC Three (heb gwota penodol). Wrth i arferion cynulleidfaoedd newid ac wrth i fwy o wylwyr ddefnyddio cynnwys ar-lein, efallai y bydd angen i'r BBC ddarparu mwy o gynnwys gwreiddiol newydd o'r DU ar-lein drwy BBC iPlayer. Ar hyn o bryd, nid yw cynnwys o'r fath yn cyfrif at y cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, er ei fod yn gwasanaethu ac yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

8.28 Er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well yn y maes hwn, rydym yn credu y dylai'r BBC gael yr hyblygrwydd i ddewis y ffordd orau o ddarparu ei raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws ei wasanaethau teledu rhwydwaith a BBC iPlayer. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno cwota niwtral o ran gwasanaeth sy'n cynnwys yr holl wasanaethau rhwydwaith hynny sy'n rhwym wrth ofynion rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn Nhrwydded Weithredu'r BBC, yn ogystal â BBC iPlayer a BBC Four (sydd yn hanesyddol wedi darparu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ym maes y celfyddydau a cherddoriaeth, ond heb gyfrif tuag at gwota).[157] Nid ydym yn cynnig ychwanegu gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill fel BBC News a BBC Parliament at y cwota niwtral o ran gwasanaeth, gan fod natur y cynnwys maent yn ei ddarlledu (rhaglenni newyddion a thrafodaethau byw am faterion seneddol) yn cael ei ddangos am y tro cyntaf fel arfer beth bynnag. Yn unol â hyn, rydym yn credu na fyddai unrhyw gyd-ddarllediadau posibl o BBC News neu BBC Parliament ar unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny sydd i'w cynnwys yn ein cwota arfaethedig ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cyfrif tuag at y cwota.

### Lefel cwota

8.29 Ym mis Mai 2022 cyhoeddodd y BBC y bydd yn lleihau nifer yr oriau mae'n eu comisiynu ar gyfer teledu rhwydwaith tua 200 awr y flwyddyn er mwyn osgoi lleihau cyllidebau ei

---

[156] Yr eithriadau yw CBBC a CBeebies. Yn 2020 fe wnaethom gymeradwyo newidiadau i'r drwydded ar gyfer y rhain, a oedd yn caniatáu i'r BBC gyflawni hanner y cwotâu rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer CBBC a CBeebies drwy BBC iPlayer.

[157] Amodau 3.5 - 3.6 o'r Drwydded arfaethedig.

raglenni, o ganlyniad i'w gyfyngiadau cyllidebol cyffredinol, gan gynnwys y cynnydd mewn costau cynhyrchu. Rydym yn cydnabod bod y pwysau ariannol y mae'r BBC yn ei wynebu yn effeithio'n uniongyrchol ar ei allu i fuddsoddi yn economi greadigol y DU. Dros amser, efallai y bydd hefyd yn ei gwneud yn anoddach iddo ddarparu'r nifer penodol o ran cwota rydym yn gofyn amdano ar hyn o bryd ar y gwasanaethau perthnasol. Ar yr un pryd, mae buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol newydd o'r DU yn ganolog i allu'r BBC i sicrhau natur unigryw a'i Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Oherwydd hyn, rydym o'r farn bod yn rhaid diogelu lefel sylfaenol o allbwn. Rydym am osgoi risgiau i brofiadau cynulleidfaoedd a allai godi petai'r BBC yn gorfod lleihau ansawdd ac uchelgais greadigol cynnwys gwreiddiol newydd o'r DU er mwyn cyrraedd cwota.

8.30 Felly, rydym yn cynnig gosod cwota ar lefel cyfanswm cyfun y cwotâu presennol ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf: 6,650 awr. Gan ei fod yn gwota niwtral o ran gwasanaeth, bydd yn cynnwys mwy o wasanaethau na'r rheini sy'n destun ei gwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar hyn o bryd. Felly, byddai hyn yn darparu haen ychwanegol o hyblygrwydd i'r BBC gyflawni ei gwota ar draws set ehangach o wasanaethau, gan gynnwys ar-lein. Byddai gan y BBC hefyd fwy o hyblygrwydd o ran pryd i ddarlledu'r cynnwys hwn.


8.31 Mae sicrhau'r budd mwyaf posibl i gynulleidfaoedd o gynnwys newydd o'r DU er budd i'r BBC ei hun, ac ar deledu a ddarlledir a byddem yn disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o'r cwota hwn yn cael ei ddarparu yn ystod y dydd a'r oriau brig, sef pan fydd y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn dal i wylio'r teledu. Yn yr un modd, byddem yn disgwyl i'r cwota gael ei ddarparu ar draws amrywiaeth o genres a gwasanaethau – yn benodol, rydym yn pwysleisio ein bod yn disgwyl buddsoddiad parhaus mewn amrywiaeth o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer plant, sydd ar CBBC a CBeebies ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn cynnig gosod gofynion tryloywder ar y BBC i'n helpu i'w ddal i gyfrif. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym mharagraff 8.53.

## Amrywiaeth o genres

8.32 Mae cynnwys ag apêl eang yn dal yn bwysig er mwyn dod â chynulleidfaoedd ar draws y DU at ei gilydd, gan gynnwys ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Fodd bynnag, ni ddylid ei flaenoriaethu ar draul cynnwys gwerthfawr arall gyda chynulleidfaoedd llai. Mae hyn yn bryder a godwyd gan rai rhanddeiliaid hefyd.[158] Mae ymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o raglenni y mae'r BBC yn eu darparu.[159] Er bod y BBC yn gyson wedi dangos mwy o gynnwys sydd mewn perygl ar ei wasanaethau teledu na gweddill y diwydiant, mae'n hanfodol parhau i fuddsoddi mewn genres sydd mewn perygl. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y gostyngiad yn y math hwn o raglenni ers 2017, fel y dangosir yn Ffigur 7.

[158] Voice of the Listener and Viewer (VLV), t.4; Audio UK, t.3; a TAC, t.1.
[159] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.25.

**Ffigur 7: Nifer oriau'r BBC o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres mewn perygl rhwng 2010 a 2020 a chymhariaeth o ddarpariaeth genres mewn perygl ar draws y diwydiant.**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr; Dadansoddiad Ofcom o ddata catalog fideo ar-alw Ampere.*

8.33 Fodd bynnag, bydd sut mae cynulleidfaoedd eisiau defnyddio gwahanol fathau o gynnwys yn parhau i newid. Rydym yn credu ei bod yn bwysig nad yw'r BBC yn rhwym wrth ofynion llym sy'n nodi faint o gynnwys y dylai ei ddarparu a ble, ond bod ganddo fwy o gyfle i benderfynu sut i fynd i'r afael ag anghenion cynulleidfaoedd. Er mwyn galluogi'r BBC i wneud hyn, rydym yn cynnig dileu'r cwotâu genre teledu a radio ar gyfer Diben Cyhoeddus 2[160] a Diben Cyhoeddus 3.[161] Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni'r celfyddydau a cherddoriaeth, comedi a chrefyddol a rhaglenni plant, rhaglenni drama a rhaglenni ffeithiol.

8.34 Yn hytrach, rydym yn cynnig cyflwyno amod i'r BBC ddarparu ystod eang o allbwn sy'n cwmpasu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys ar ei wasanaethau.[162] Ochr yn ochr â hyblygrwydd, byddai'r amod arfaethedig yn atgyfnerthu pwyslais ar amrywiaeth eang o genres a mathau o gynnwys, yn hytrach na bod amodau'n canolbwyntio ar nifer dethol o genres a mathau o gynnwys yn unig yn y ffordd mae ein Trwydded Weithredu bresennol yn ei gwneud.

---

[160] Amodau 2.18-2.21; 2.27.1, 2.27.3, 2.29.2 a 2.23 o'r Drwydded bresennol.
[161] Amod 2.38 o'r Drwydded bresennol.
[162] Amodau 3.2.3, 3.4.3 a 3.8.3 o'r Drwydded arfaethedig.

8.35 Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan ofynion tryloywder i'r BBC nodi ac adrodd ar ei gynlluniau i ddarparu ystod eang o allbwn ar draws amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys.[163] Fel y nodwyd yn Adran 5, byddai'n rhaid i'r BBC hefyd gyfiawnhau ac egluro newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth.[164] Drwy well adroddiadau, mae ein cynnig hefyd yn bwriadu dal y BBC i gyfrif yn well am ddarparu amrywiaeth eang o allbwn ar-lein, gan gynnwys ar BBC iPlayer a BBC Sounds – mae'n bwysig bod y gwasanaethau hynny hefyd yn unigryw. Rydym yn trafod y gofynion tryloywder ategol yn fanylach isod.

## Radio rhwydwaith

8.36 Fel y nodwyd yn Adran 4, nid oes modd cymharu cynigion fideo a sain y BBC yn uniongyrchol. Felly, rydym yn cynnig defnyddio dull gwahanol ar gyfer ei allbwn sain.

8.37 Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad Cychwynnol, roedd y sector radio masnachol yn dadlau bod y BBC, o'i gymharu â fideo, mewn sefyllfa gryfach yn y farchnad sain o ran cyfran y gwrando[165] a'r gwariant o'i gymharu â darparwyr eraill.[166] Roedd Radiocentre o blaid dull mwy sensitif o ymdrin â sain, gan ddarparu gwaith modelu i ddangos yr effaith bosibl y gallai symud oddi wrth gwotâu sy'n seiliedig ar gerddoriaeth ei chael ar y sector radio masnachol.[167]


8.38 Rydym hefyd wedi nodi gwahaniaethau eraill rhwng darpariaeth sain a fideo'r BBC. Yn gyntaf, mae ei wasanaethau radio rhwydwaith yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar gynulleidfaoedd penodol na'i wasanaethau teledu rhwydwaith. Er enghraifft, mae llawer o'i allbwn, yn enwedig ei gerddoriaeth, yn amrywio'n sylweddol yn ôl gorsaf. Felly, rydym yn credu bod llai o gyfle iddo gyflawni amodau ar draws ei wasanaethau rhwydwaith. Yn ail, mae gwahaniaethau pwysig rhwng BBC Sounds a BBC iPlayer o ran defnydd ar-lein. Nid yw BBC Sounds wedi'i sefydlu cymaint ac mae llai yn ei ddefnyddio: yn 2020/21, roedd 3.5 miliwn o gyfrifon wedi mewngofnodi yn defnyddio'r gwasanaeth ar gyfartaledd bob wythnos o'i gymharu â 10.7 miliwn ar gyfer BBC iPlayer.[168] Er ein bod yn credu ei bod yn briodol i gynnwys unigryw BBC iPlayer gyfrannu at gwotâu fideo'r BBC oherwydd cyrhaeddiad y gwasanaeth, nid ydym yn credu bod BBC Sounds yn cael ei ddefnyddio'n ddigon eang i gyflawni cwotâu radio rhwydwaith y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd ar hyn o bryd.

8.39 O ran tueddiadau gwrando ar sain, er ein bod yn cydnabod cynnydd mewn cerddoriaeth wedi'i ffrydio a gostyngiad mewn gwrando ar radio traddodiadol, mae gwrando byw ar set radio yn dal i fod yn weithgaredd sain sydd â'r cyrhaeddiad uchaf, fel y dangosir yn Ffigur 8.

---

[163] Amod 3.13 o'r Drwydded arfaethedig.
[164] Amodau 3.13 - 3.15.1 o'r Drwydded arfaethedig.
[165] Yn ôl RAJAR (Ch1 2022), mae'r gyfran sy'n gwrando ar y radio ar gyfer y BBC a radio masnachol nawr yn 49% a 48% yn y drefn honno, ac o ran y gyfran sy'n gwrando ar-lein 41% o'i gymharu â 55%.
[166] Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol, t.1; Radiocentre, t.2, 4-5, 12-13; a Wireless Group, t.1-3.
[167] Radiocentre, t.2, 4-5, 19-26.
[168] BBC, Gorffennaf 2021. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2020/21, t.166.

**Ffigur 8: Cyrhaeddiad wythnosol gweithgareddau sain dethol (pob oedolyn 15 oed a hŷn)**




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints. Oedolion 15 oed a hŷn, Prydain Fawr Gwaith maes 2020 (cyn y cyfnod clo) - Ionawr-Mawrth 23 2020 (cyfnod clo 1) – 24 Mawrth-16 Ebrill 2020*

## Amodau cerddoriaeth ar gyfer radio rhwydwaith

8.40 Rydym yn cynnig cadw'r cwotâu cerddoriaeth presennol ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 2 ar eu lefelau presennol. Mae'r rhain ar gyfer cyfran y gerddoriaeth yn ystod y dydd sy'n gerddoriaeth newydd[169] ac sy'n gerddoriaeth gan artistiaid o'r DU yn y drefn honno; cwotâu ar gyfer nifer yr oriau o sesiynau newydd (BBC Radio 1) a cherddoriaeth fyw (BBC Radio 2); a nifer yr oriau o gerddoriaeth arbenigol.[170] Rydym hefyd yn cynnig cadw'r amod presennol i BBC Radio 1 a BBC Radio 2 chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na gwasanaethau tebyg. Rydym o'r farn bod yr amodau hyn yn allweddol i sicrhau bod allbwn cerddorol y ddwy orsaf yn unigryw o'i gymharu â gorsafoedd cerddoriaeth eraill.[171]

8.41 Ar ben hynny, rydym yn cynnig cynyddu ein dealltwriaeth o allbwn cerddoriaeth arbenigol y BBC ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2 drwy gyflwyno gofyniad tryloywder sy'n gysylltiedig â'i Adroddiad Blynyddol. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn Adran 8.63 isod.

8.42 Rydym yn cynnig cadw cwota BBC Radio 3 ar gyfer cyfran y gerddoriaeth sy'n cael ei darlledu sy'n gerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio'n arbennig.[172] Mae hyn yn parhau i fod yn ffordd bwysig o ddiogelu natur unigryw drwy gyfyngu ar gyfresi cerddoriaeth sydd wedi'u recordio ymlaen llaw, heb fod yn fyw (heb fod yn gyfyngedig), a sicrhau lefel briodol o sylw i artistiaid a cherddorfeydd y DU.

---

[169] Bydd trac cerddoriaeth yn cael ei ystyried yn 'Gerddoriaeth Newydd' am gyfnod o naill ai: (a) 12 mis o ddyddiad ei ryddhau am y tro cyntaf (boed hynny drwy ddulliau ffisegol, ar y radio, lawrlwytho neu ffrydio), neu (b) 6 wythnos o'r dyddiad y bydd yn cyrraedd yr 20 uchaf yn Siart Senglau Swyddogol y DU, pa un bynnag sydd gyntaf.

[170] Er mwyn cadw pethau'n syml, rydym hefyd yn cynnig gwneud y gofyniad am gerddoriaeth arbenigol ar BBC Radio 1 ar gyfer y flwyddyn ariannol yn hytrach nag ar gyfer 'bob wythnos'.

[171] Amodau 3.9.1 - 3.9.5 a 3.10.1 - 3.10.5 o'r Drwydded arfaethedig.

[172] Mae 'cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig' yn cynnwys cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth sydd wedi cael ei recordio'n arbennig ar gyfer BBC Radio 3 (gan gynnwys recordiadau newydd neu recordiadau o'r archif).

8.43 Ar hyn o bryd mae gan BBC Radio 3 ddau gwota cerddoriaeth ychwanegol hefyd. Mae’r cyntaf yn ymwneud â nifer y perfformiadau byw neu wedi’u recordio’n arbennig y mae’n rhaid iddo eu darlledu (yn wahanol i gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi’i recordio’n arbennig yn gyffredinol). Mae’r perfformiadau hyn yn cynnwys digwyddiadau cerddorol fel cyngherddau, opera a datganiadau côr, ac maent hefyd yn cyfrannu at gwota cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi’i recordio’n arbennig ar BBC Radio 3. Er ein bod o’r farn bod darlledu perfformiadau a digwyddiadau cerddorol yn dal yn allweddol i ddarpariaeth yr orsaf, rydym yn nodi y gallant fod yn wahanol iawn o ran math a maint. Gan gadw hyn mewn cof, ac yn unol â’n hegwyddorion ar gyfer Trwydded newydd (paragraff 1.7), rydym o’r farn y dylai’r BBC gael mwy o gyfle i benderfynu pa berfformiadau i’w cynnwys er mwyn gwasanaethu ei gynulleidfaoedd orau, yn hytrach nag ar sail lefel cwota. Yn hytrach na chwota, ac yn ogystal ag amod cyffredinol i’r BBC ddarparu ystod eang o allbwn,[173] rydym yn cynnig gofyniad tryloywder i’r BBC nodi gyda’i Gynllun Blynyddol faint o berfformiadau y bydd yn eu darlledu ar BBC Radio 3. Byddai hyn hefyd ochr yn ochr ag adrodd ar gyfraniad y cynlluniau hyn at sicrhau bod BBC Radio 3 yn unigryw. Fel y trafodwyd yn flaenorol, byddem yn disgwyl i’r lefel allbwn aros yr un fath fwy neu lai â’r ddarpariaeth bresennol.

8.44 Mae’r ail ar gyfer nifer y gweithiau cerddorol newydd y mae’n rhaid iddo eu comisiynu bob blwyddyn. Fel gyda pherfformiadau, gallai pob ‘gwaith’ fod yn wahanol iawn, er enghraifft o ran hyd y darn o gerddoriaeth neu fath a maint yr ensemble. Mae hyn, yn ogystal â’r ffaith bod y BBC wedi rhagori’n sylweddol ar y cwota hwn dros y tair blynedd diwethaf, yn golygu nad ydym yn ystyried bod cwota’n briodol mwyach.[174] Yn hytrach, rydym yn cynnig amod i sicrhau bod y BBC yn comisiynu ac yn darlledu gweithiau cerddorol newydd,[175] gyda gofyniad tryloywder yn ategu’r amod hwn iddo nodi gyda’i Gynllun Blynyddol faint y bydd yn ei gomisiynu a’i ddarlledu, ac adrodd ar y cyfraniad y bydd yn ei wneud at sicrhau bod BBC Radio 3 yn unigryw.[176]

## Amodau llafar ar gyfer radio rhwydwaith

8.45 Fel y nodwyd ym mharagraff 8.34, rydym yn cynnig cyflwyno amod i’r BBC ddarparu ystod eang o allbwn sy’n cwmpasu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys ar ei wasanaethau. Ar gyfer rhaglenni’r celfyddydau a chrefyddol, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, rydym yn cynnig bod gofynion tryloywder yn cefnogi'r amod hwn, yn hytrach na chwotâu.[177] Rydym yn credu bod cwotâu yn y meysydd hyn yn gallu effeithio ar uchelgais creadigol y BBC a’i allu i ddatblygu ei allbwn llafar. Wrth i gynulleidfaoedd barhau i symud tuag at wrando ar-lein, bydd angen mwy o hyblygrwydd ar y BBC i barhau i’w gwasanaethu.

---

[173] Amod 3.8.3 o’r Drwydded arfaethedig.
[174] Dyma’r ffordd y mae’r BBC wedi darparu gweithiau cerddorol newydd yn erbyn ei gwota o 25 yn ystod y tair blynedd diwethaf: 50 (2020), 40 (2019) a 32 (2018).
[175] Amod 3.11.2 o’r Drwydded arfaethedig.
[176] Amodau 3.14.5.6 a 3.14.1 o’r Drwydded arfaethedig.
[177] Mae ei gwotâu presennol ar gyfer rhaglenni celfyddydol ar BBC Radio 2, rhaglenni crefyddol ar BBC Radio 2 a BBC Radio 4, rhaglenni dogfen ar BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 6 Music, ac ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ar BBC Radio 1. Byddai’r meysydd hyn yn cael eu cynnwys yn Amodau 3.14.5.1, 3.14.5.2, 3.14.5.3, 3.14.5.4 a 3.14.5.7 o'r Drwydded arfaethedig.

8.46 Fodd bynnag, mae faint o’r math hwn o gynnwys y mae’r BBC yn ei ddarparu ar radio rhwydwaith yn dal yn fesur pwysig o natur unigryw. Felly, rydym yn cynnig mynnu bod y BBC yn nodi ei allbwn arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gyda’i Gynllun Blynyddol. Byddem yn disgwyl i’r lefelau hyn aros yr un fath fwy neu lai a byddem yn gofyn i’r BBC roi rhesymau manwl dros unrhyw newidiadau sylweddol i’w gynlluniau. Mae ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol yn eithriad i hyn, ac oherwydd eu natur, ac oherwydd eu bod yn gallu bod ar sawl ffurf, nid ydym yn credu mwyach bod nifer yr ymgyrchoedd yn fesur ystyrlon o ran a yw cynulleidfaoedd wedi cael gwasanaeth da. Yn hytrach, rydym yn cynnig amod i BBC Radio 1 gynnig ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol pwysig, gyda gofyniad tryloywder yn ategu’r amod hwn i’r BBC nodi ei gynlluniau i gyflawni ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, ar BBC Radio 1 ac ar draws ei wasanaethau’n ehangach.

8.47 Yn olaf, rydym yn cynnig cadw cwota presennol BBC Radio 5 Live er mwyn iddo ddarparu sylwebaeth ar o leiaf 20 o wahanol chwaraeon drwy gydol y flwyddyn. Mae rhoi sylw i amrywiaeth eang o chwaraeon, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael llawer iawn o sylw darlledu ar hyn o bryd, yn gwneud y BBC yn wahanol i ddarparwyr eraill ac mae’n rhan greiddiol o ddyletswydd y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’i ddarpariaeth yn y maes hwn, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder sy’n gysylltiedig â’i Adroddiad Blynyddol, er mwyn iddo nodi’r chwaraeon y rhoddodd sylw iddynt, a sawl awr o sylw a roddwyd ar gyfer pob un.

# Y gofynion o ran tryloywder

8.48 Isod, rydym yn nodi’r gofynion tryloywder arfaethedig ar gyfer Diben Cyhoeddus 3. Mae’r rhain yn cynnwys meysydd lle rydym yn cynnig dileu cwotâu, neu lle rydym yn credu bod angen mwy o dryloywder. Mae’r adran hon yn cynnwys yr hyn y byddem yn gofyn i’r BBC adrodd arno a gwybodaeth ychwanegol am ein disgwyliadau. Rydym yn bwriadu ymhelaethu ar hyn yn ein datganiad terfynol ar ôl i ni ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid.

## Cynllun Blynyddol y BBC

### Natur unigryw

8.49 Yn dilyn ein cynnig i gyflwyno amod i’r BBC gefnogi arloesi creadigol a thalent newydd,[178] rydym yn cynnig gosod gofynion tryloywder ar y BBC i nodi ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod pob un o’i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys pob un o wefannau’r BBC, BBC iPlayer a BBC Sounds, yn unigryw.[179] Mae’n anodd sicrhau ansawdd uchel, arloesi, cymryd risgiau ac uchelgais creadigol ar ffurf cwotâu. Er bod cwotâu’n gallu bod yn brocsi effeithiol ar gyfer rhai agweddau penodol ar natur unigryw (fel y nodir uchod), rydym yn credu mai’r BBC sydd yn y sefyllfa orau i arfer ei farn strategol, greadigol a golygyddol am y meysydd cyffredinol hyn. Fodd bynnag, rydym o’r farn y gellid sicrhau gwell dealltwriaeth o’r meysydd hyn o dan Drwydded newydd.

---

[178] Amodau 3.2.2, 3.4.2 a 3.8.2 o’r Drwydded arfaethedig.
[179] Amod 3.14.1 o’r Drwydded arfaethedig.

8.50 Rydym wedi dweud yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC y gallai fynd ymhellach i ddangos i gynulleidfaoedd sut mae'n arloesi ac yn cymryd risgiau yn ei allbwn.[180] Wrth adrodd ar y gofyniad hwn, byddem yn disgwyl iddo ddefnyddio sut a pham mae rhai dewisiadau y mae wedi'u gwneud wedi'i helpu i sicrhau natur unigryw. Er enghraifft, gallai hyn ymwneud â fformat rhaglenni, y dull o ymdrin â phwnc, y dalent/cynhyrchwyr a ddefnyddir, sut mae'n rhannu rhwng cyfresi newydd a chyfresi sy'n dychwelyd a chyfraniad partneriaethau a mentrau perthnasol, fel Menter Cyfarwyddwyr Rhaglenni Dogfen Newydd y BBC, Audio Lab BBC Sounds, neu adnodd Presenter Uploader BBC Radio 1.

8.51 Byddwn yn defnyddio ein fframwaith mesur perfformiad a'n pwerau casglu gwybodaeth i asesu natur unigryw'r BBC. Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad Cychwynnol, roedd ITV o'r farn y dylai Ofcom fod yn fwy chwilfrydig ynghylch natur unigryw cynnwys y BBC o dan Drwydded newydd ac na fu digon o graffu yn y maes hwn hyd yma.[181] Fel rhan o'n gwaith parhaus, rydym hefyd yn ystyried pa fetrigau ychwanegol y gallai Ofcom eu defnyddio i asesu natur unigryw'r BBC.

### Rhaglenni sy'n cael eu prynu

8.52 Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi'r rôl y bydd rhaglenni a brynir yn ei chwarae yn ei gynlluniau i ddarparu allbwn a gwasanaethau unigryw i gynulleidfaoedd.[182] Mae'r cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer gwasanaethau teledu eisoes, i bob pwrpas, yn rhoi cap ar yr oriau o raglenni a brynir y gall y BBC eu darlledu ar ei sianeli teledu. Felly, byddai'r gofyniad hwn yn ceisio gwella tryloywder ynghylch strategaeth ehangach y BBC ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu prynu ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds, a sut mae'r rhain yn ei helpu i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

### Rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU

8.53 Rydym yn cydnabod y gallai cwota rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n niwtral o ran gwasanaeth ac sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf o bosibl arwain at fwy o fudd i rai cynulleidfaoedd nag eraill. Er enghraifft, petai'r BBC yn buddsoddi mwy mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar rai gwasanaethau a/neu genres neu'n dangos y cynnwys hwn ar adegau pan na fydd cynulleidfaoedd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu. Er mwyn lliniaru'r risg hon, rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad i'r BBC nodi yn ei Gynllun Blynyddol sut bydd yn dosbarthu ei raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws gwasanaethau dynodedig ac egluro sut bydd hyn yn galluogi pob cynulleidfa i elwa o amrywiaeth o gynnwys newydd o ansawdd yn y DU sy'n apelio iddynt.[183] Fel rhan o hyn, byddem yn disgwyl i'r BBC gynnwys esboniad o sut bydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd plant gydag amrywiaeth o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

---

[180] Ofcom, Tachwedd 2021. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, t.49-50.
[181] ITV, t.2.
[182] Amod 3.14.2 o'r Drwydded arfaethedig.
[183] Amod 3.14.3 o'r Drwydded arfaethedig.

## Amrywiaeth o genres

8.54 Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC bennu ei gynlluniau ar gyfer darparu ystod eang o allbwn ar draws amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys.[184] Fel rhan o hyn, ar gyfer ei wasanaethau teledu a BBC iPlayer gyda'i gilydd, rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r BBC hefyd nodi'r oriau y bydd yn eu darparu ym mhob genre mewn perygl yn ogystal â dadansoddiad o'r oriau hyn yn ôl rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu.[185] Er bod rhaglenni plant yn genre ynddo'i hun, byddem yn disgwyl i'r adroddiadau yn y cyswllt hwn ganolbwyntio ar is-genres, i ddangos sut mae plant yn gallu elwa o amrywiaeth eang o genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys dadansoddiad rhwng rhaglenni gydag actorion[186] a rhaglenni wedi'u hanimeiddio.[187]

8.55 Rydym hefyd yn cynnig gofynion adrodd ar genre ar gyfer radio rhwydwaith, sy'n cael eu trafod ymhellach isod. Ar gyfer BBC Sounds, byddem yn disgwyl i'r BBC ddefnyddio ehangder ei allbwn wrth adrodd yn erbyn ei gynlluniau i gyflawni amod arfaethedig 3.2.3.[188]

8.56 Dylai'r BBC hefyd ddefnyddio amrywiaeth yr allbwn a'r amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys mae'n eu darparu wrth adrodd ar ei gynlluniau i sicrhau bod pob gwasanaeth yn unigryw.[189]

## Hwylustod

8.57 Fel rhan o adroddiad y BBC ar sut bydd yn cydymffurfio ag amodau arfaethedig 3.2.4, 3.3, 3.4.4 a 3.8.4,[190] byddem yn disgwyl iddo nodi sut bydd yn sicrhau bod modd i gynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau, yn arbennig ar-lein, ddod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hwylus. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut mae'n edrych ar gyfleoedd i arloesi yn y ffyrdd y mae'n cyrraedd cynulleidfaoedd. Fel rhan o'n hasesiad perfformiad, byddem yn ceisio ystyried canfyddiadau cynulleidfaoedd o hwylustod dod o hyd i gynnwys gwreiddiol y BBC o'r DU ar draws ei wasanaethau. Lle bo angen, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y BBC.

## Radio rhwydwaith

8.58 Yn ogystal â'r gofynion tryloywder cyffredinol ar gyfer gwasanaethau radio rhwydwaith a BBC Sounds, rydym hefyd yn cynnig gofynion mwy penodol gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o natur unigryw darpariaeth sain y BBC nag o dan y Drwydded bresennol.

---

[184] Amodau 3.2.3, 3.4.3, 3.8.3 a 3.13 o'r Drwydded arfaethedig.
[185] Amod 3.14.4 o'r Drwydded arfaethedig.
[186] Mae rhaglenni gydag actorion yn cyfeirio at raglenni sy'n cynnwys pobl go iawn neu anifeiliaid, yn hytrach nag animeiddio neu effeithiau a gynhyrchir gan gyfrifiadur.
[187] Fel y nodwyd gennym yn ein datganiad ar gais y BBC i newid y Drwydded Weithredu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar CBBC ym mis Mai 2022, rydym yn disgwyl i'r BBC fod yn dryloyw ynghylch y newidiadau mae wedi'u gwneud i CBBC a gweld cymysgedd eang o genres gyda llawer iawn o raglenni gydag actorion, ochr yn ochr â rhaglenni wedi'u hanimeiddio ar y sianel.
[188] Mae amod 3.13 o'r Drwydded arfaethedig yn mynnu ei fod yn adrodd ar ei gynlluniau i gyflawni 3.2-3.4 a 3.8.
[189] Amod 3.14.1 o'r Drwydded arfaethedig.
[190] Amod 3.13 o'r Drwydded arfaethedig.

8.59 Ar gyfer rhaglenni celfyddydol a chrefyddol, rhaglenni dogfen, perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig a gweithiau cerddorol newydd, ar gyfer pob gwasanaeth y mae'r amodau presennol yn berthnasol iddynt, rydym yn cynnig mynnu bod y BBC yn nodi lefel yr allbwn[191] y mae'n bwriadu ei ddarparu fel rhan o'i Gynllun Blynyddol.[192]

8.60 Ar gyfer gweithredu cymdeithasol, rydym o'r farn bod rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ifanc a chreu fforwm ar gyfer trafod yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar ddarpariaeth BBC Radio 1. Am y rhesymau a nodir ym mharagraff 8.46, rydym yn cynnig gofyniad tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ar BBC Radio 1 ac ar draws gweddill ei wasanaethau.[193] Byddem yn disgwyl iddo adrodd ar natur yr ymgyrchoedd y mae'n eu cynllunio, y cynulleidfaoedd y mae'n anelu atynt, yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni a sut bydd yn mesur llwyddiant.

## Adroddiad Blynyddol y BBC

8.61 Byddai ein Trwydded arfaethedig yn mynnu bod y BBC yn adrodd ynghylch a yw wedi cymryd y camau y dywedodd y byddai'n eu cyflawni yn ei gynlluniau.[194] Fel rhan o hyn, byddai'n rhaid i'r BBC egluro a wnaeth unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynlluniau hynny a'r rhesymau dros hynny. Byddem hefyd yn disgwyl i'r BBC bwyso a mesur yr effaith mae ei ddarpariaeth wedi'i chael ar gynulleidfaoedd.

### Rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU

8.62 O ran rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn dilyn ein cynnig i fynnu bod y BBC yn adrodd ar sut mae'n cyflawni yn erbyn ei gynlluniau, byddwn hefyd yn parhau i gasglu gwybodaeth ychwanegol ac atodol gan y BBC, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am ei wariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Dyma wybodaeth rydym eisoes yn ei chasglu'n gyfrinachol fel rhan o'n gwaith monitro'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob blwyddyn, ac nad ydym yn ei chyhoeddi fel gwybodaeth wedi'i dadgyfuno. Er mai Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am benderfyniadau cyllidebu, ac er y gallai fod newidiadau i faint o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, byddem yn disgwyl gweld cyfrannau tebyg o gyfanswm y gyllideb sy'n cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf fel y gwelwyd yn hanesyddol.

### Radio rhwydwaith

8.63 Er mwyn cael mwy o wybodaeth am ddarpariaeth y BBC, rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder sy'n gysylltiedig ag Adroddiad Blynyddol y BBC ar gyfer ei allbwn

---

[191] Mae'r cwotâu presennol ar gyfer rhaglenni dogfen ar gyfer BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra, BBC Radio 3 ar gyfer y 'nifer' o raglenni dogfen yn hytrach nag 'oriau'. Yn yr achosion hyn, rydym yn cynnig y dylai'r BBC, o dan Drwydded newydd, nodi ei allbwn arfaethedig mewn oriau. Er mwyn ein galluogi ni a rhanddeiliaid i olrhain tueddiadau allbwn, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu data allbwn yn erbyn 'nifer' ac 'oriau' cynnwys.
[192] Amodau arfaethedig 3.14.5.1 i 3.14.5.6.
[193] Amod 3.14.5.7 o'r Drwydded arfaethedig.
[194] Amod 3.15.1 o'r Drwydded arfaethedig.

cerddoriaeth arbenigol ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2.[195] Mae'r math hwn o gynnwys, sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, yn hanfodol i natur unigryw pob gwasanaeth, ac er nad oes gennym bryderon am sut mae'r BBC yn cyflawni yn y maes hwn, rydym o'r farn y gellid gwella tryloywder i gynulleidfaoedd. Yn ei adroddiadau, byddem yn disgwyl i'r BBC ddefnyddio ehangder ei arlwy cerddoriaeth arbenigol ac i ba raddau y mae wedi cefnogi artistiaid y DU (rhai sydd wedi'u sefydlu yn ogystal â rhai newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg) a'r sector cynhyrchu sain.

8.64 Rydym hefyd yn cynnig ychwanegu gofyniad adrodd i ategu cwota presennol y BBC ar gyfer BBC Radio 5 Live i gynnig sylwebaeth fyw ar o leiaf 20 o chwaraeon bob blwyddyn. Er nad oes gennym ni bryderon ynghylch sut mae'r BBC yn cyflawni yn y maes hwn chwaith, rydym yn credu y byddai tryloywder i gynulleidfaoedd yn gwella'n sylweddol petai'r BBC, ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol, yn nodi'r chwaraeon roedd wedi rhoi sylw iddynt, a'r oriau darlledu a ddarparwyd ar gyfer pob un.[196]

> **Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

## Astudiaeth achos: Cais i newid Trwydded BBC Four

### Mae'r BBC yn bwriadu newid ei gynnig o ran y celfyddydau a cherddoriaeth er mwyn sicrhau mwy o effaith ac er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach

8.65 Yn ei Gynlluniau Blynyddol ar gyfer 2020/21, 2021/22 a 2022/23, nododd y BBC ei uchelgais i ddiwygio ei arlwy celfyddydol a cherddoriaeth i gynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau teledu a BBC iPlayer. Fel rhan o'i strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth, dywedodd y byddai'n dyblu ei wariant ar y celfyddydau a cherddoriaeth ar BBC Two ac yn gwneud BBC Four yn sianel archif yn bennaf. Drwy gyflwyniad, sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad hwn yn Atodiad 10 ('y cyflwyniad'), eglurodd y byddai angen gwneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu er mwyn rhoi'r strategaeth hon ar waith.

8.66 Mae sail resymegol y BBC ar gyfer y strategaeth hon yn seiliedig ar yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu. Dywedodd fod angen iddo sicrhau'r effaith fwyaf bosibl yn sgil ei wariant, a'i fod yn darparu llawer mwy o werth i gynulleidfaoedd iau. Nododd yn ei gyflwyniad fod cynulleidfa BBC Four yn tueddu i wyro tuag at y rheini sydd eisoes yn cael llawer gan y BBC. Eglurodd hefyd nad yw'r swmp uchel o gynnwys cerddoriaeth a chelfyddydau cost is y mae'n ei gomisiynu ar gyfer BBC Four ar hyn o bryd yn perfformio'n dda a bod cynnwys BBC Two yn denu cynulleidfaoedd mwy ac ehangach. Er enghraifft, dywedodd y BBC fod 28% o gynulleidfaoedd yn 2020, wedi gwylio o leiaf un o 22 o raglenni cerddoriaeth BBC Two, a bod 50 o raglenni cerddoriaeth BBC Four gyda'i gilydd wedi cyrraedd 12%. Roedd cynulleidfaoedd rhaglenni celfyddydol 2020 ar BBC Two ar gyfartaledd bron i dair gwaith yn fwy na BBC Four. Dywedodd y BBC hefyd fod BBC Two yn

[195] Amod 3.15.3 o'r Drwydded arfaethedig.
[196] Amod 3.15.2 o'r Drwydded arfaethedig.

cyrraedd cynulleidfa ehangach o ran oedran, ethnigrwydd a "dosbarth cymdeithasol". Er enghraifft, yn ôl y BBC, yn 2021 roedd BBC Two ar gyfartaledd wedi cyrraedd 13.9% o bobl 16-34 oed bob wythnos, o'i gymharu ag 1.7% ar gyfer BBC Four.

8.67 Dywedodd y BBC fod ei strategaeth yn ceisio sicrhau bod y gynulleidfa ehangaf bosibl yn gallu cael gafael ar ei gynnwys celfyddydol a cherddoriaeth ar draws ei wasanaethau. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy flaenoriaethu cyfresi celfyddydau a cherddoriaeth newydd ar raddfa, a fyddai hefyd yn annog gwylio ar BBC iPlayer. Dywedodd y byddai comisiynau o'r fath ar BBC Two yn well yn fasnachol i'r cynhyrchwyr sy'n eu hennill. Ar ôl rhoi mwy o sylw i BBC Two a buddsoddi mwy yn y sianel, dywedodd y BBC ei fod yn disgwyl i'r strategaeth hon arwain at gynnydd net sylweddol yn lefelau gwylio cyffredinol cynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth. Mae hefyd yn rhagweld y byddai gwylio BBC Four yn gostwng tua phum munud y pen yr wythnos.

8.68 Mae strategaeth y BBC hefyd yn cynnwys newidiadau i BBC Four. Mae'r BBC yn bwriadu gwneud BBC Four yn gartref i gynnwys o'i archif, gan adeiladu ymhellach ar ddefnydd presennol y sianel o'r archif. Dywedodd y BBC ei fod eisoes yn cynrychioli 70% o oriau darlledu BBC Four heddiw. Byddai BBC Four yn parhau i ddarlledu perfformiadau celfyddydol a cherddoriaeth gan gynnwys Proms y BBC ac yn cefnogi gwaith sefydliadau celfyddydol blaenllaw ledled y wlad, fel Theatr y Lyric Belfast. Mae'r BBC hefyd yn bwriadu defnyddio rhaglenni sy'n cael eu prynu i gryfhau BBC Four, gan gynnwys i gefnogi cynnwys sy'n cael ei guradu ar sail tymhorau a chasgliadau ar thema, ac i gyfleu perfformiadau byw gan bartneriaid. Mae hefyd yn ceisio cael gafael ar gynnwys fel rhaglenni dogfen rhyngwladol a dramâu ieithoedd tramor a fyddai'n helpu i gynnal BBC Four fel sianel aml-genre, gan weithredu ar gyllideb is.

## Er mwyn gweithredu'r strategaeth hon, mae'r BBC wedi gofyn i Ofcom newid dau amod yn y Drwydded bresennol ar gyfer BBC Four

8.69 Mae'r BBC yn gofyn am newidiadau i amod 2.21 o'r Drwydded Weithredu gyfredol, sy'n mynnu bod y BBC yn dyrannu o leiaf 175 awr y flwyddyn ar BBC Four i raglenni celfyddydol a cherddoriaeth newydd (gan gynnwys rhaglenni wedi'u prynu); ac amod 2.32 sy'n mynnu bod 75% o raglenni ar draws 'pob awr' a 60% ar draws oriau brig[197] ar BBC Four yn gynyrchiadau gwreiddiol.[198]

### Rhaglenni'r celfyddydau a cherddoriaeth newydd

8.70 O ganlyniad i'w strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth, mae'r BBC yn disgwyl na fydd yn gallu darparu o leiaf 175 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth newydd ar BBC Four mwyach. Mae'n rhagweld y byddai'n cyflawni 100 awr yn 2022/23 ac y byddai'r allbwn yn gostwng ymhellach, i 85 awr yn 2023/24. Yn y dyfodol, mae'r BBC yn rhagweld y bydd yn darparu o leiaf 60 awr o raglenni cerddoriaeth a chelfyddydau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf bob blwyddyn ar BBC Four. Yn ei Gynllun Blynyddol, darparodd y

[197] Mae oriau brig yn cyfeirio at yr 'oriau gwylio brig' sef 19:00 i 24:00 ar gyfer BBC Four, yn ôl Trwydded Weithredu'r BBC.
[198] Mae amod 2.32 o'r Drwydded bresennol yn mynnu bod yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol ar BBC Four ym mhob blwyddyn galendr yn 75% ar draws yr holl oriau darlledu a 60% ar draws oriau brig.

BBC gyd-destun pellach ar gyfer ei gynlluniau, gan nodi, "rydym yn bwriadu darparu dros 1,000 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth i gynulleidfaoedd ar draws BBC iPlayer a'n sianeli, gydag o leiaf 400 awr o gynnwys yn cael ei ddarlledu ar y teledu, ac o leiaf 250 awr o gynnwys yn cael ei ddangos am y tro cyntaf."[199]

8.71 O dan ein cynigion ehangach ar gyfer newidiadau i'r Drwydded Weithredu, rydym yn cynnig dileu cwotâu genres a chyflwyno amod ar y BBC i ddarparu amrywiaeth eang o allbwn. Mae hyn yn ymgorffori cynnwys mewn genres mewn perygl – y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni plant, comedi, ffeithiol arbenigol a chrefydd – sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau teledu (gweler paragraffau 8.32 - 8.35 uchod). Fel rhan o hyn, ar gyfer ei wasanaethau teledu a BBC iPlayer gyda'i gilydd, byddai gofyn i'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer yr oriau y bydd yn eu darparu ym mhob genre mewn perygl (sy'n cynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth) yn ogystal â dadansoddiad o'r oriau hyn yn ôl rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu.[200] Oherwydd i ba raddau y disgwylir y bydd ei ddarpariaeth o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth newydd ar BBC Four yn gostwng – dros 50% yn is na'r cwota erbyn 2023/24 – byddai'r Drwydded newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC roi esboniad manwl am y newid.

8.72 Fodd bynnag, mae'r BBC wedi dweud y byddai'n hoffi i'r newidiadau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl yn 2022/23, sef cyn y byddai Trwydded Weithredu newydd ar waith. O'r herwydd, rydym wedi ystyried cyd-destun amodau presennol y Drwydded a'n hamodau newydd arfaethedig.

8.73 Ein barn gychwynnol, yn amodol ar ymgynghoriad, yw petai'r BBC yn gweithredu ei gynigion, y byddai cynulleidfaoedd yn parhau i gael gwasanaeth da am y rhesymau canlynol:

a) Mae'r BBC wedi ymrwymo i barhau i ddarparu cynnwys ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth, ac rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylai'r ffordd y mae'r BBC yn darparu cynnwys o'r fath ar draws ei wasanaethau teledu gael ei sbarduno gan anghenion y gynulleidfa. Mae'r dystiolaeth mae'r BBC wedi'i darparu yn awgrymu bod cynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth ar BBC Two yn cyrraedd cynulleidfaoedd yn well nag ar BBC Four. Mae ein dadansoddiad ein hunain o ddata BARB yn dangos bod 98% o wylwyr BBC Four wedi gwylio BBC Two hefyd yn Ch4 2021. Felly, os bydd cynnwys newydd ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth yn symud i BBC Two, rydym yn credu y byddai cynulleidfaoedd BBC Four yn dal i allu elwa o hyn.

b) Er y byddai llai o ffocws ar raglenni newydd, byddai BBC Four yn parhau i ddangos perfformiadau fel Proms y BBC a bydd yn darparu allbwn celfyddydol a cherddoriaeth drwy gasgliadau o'r archif. Nodwn, er enghraifft, fod y BBC, ar ddechrau mis Ebrill 2022, wedi cyflwyno slot perfformio wythnosol newydd ar nos Sul sy'n dangos perfformiadau o gymysgedd o gynyrchiadau gwreiddiol newydd yn y DU, archif y BBC a rhaglenni wedi'u prynu. Rydym yn credu bod llawer o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth y BBC yn debygol o barhau i fod yn berthnasol, gan sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd dros

---

[199] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, t.57.
[200] Amodau 3.2.3, 3.4.3, 3.13 a 3.14.4 o'r Drwydded arfaethedig

amser. Ar y cyfan, rydym o'r farn y byddai cynulleidfa BBC Four yn parhau i allu elwa o allbwn cerddoriaeth a chelfyddydol o ansawdd ar BBC Four.

c) Gallai'r newidiadau olygu bod allbwn y BBC ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth yn cyrraedd cynulleidfa ehangach, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau a C2DE[201]. Ar hyn o bryd mae BBC Two yn cyrraedd 37% o unigolion C2DE a 15% o bobl o dan 35 oed o'i gymharu â 10% a 2% yn y drefn honno ar gyfer BBC Four.[202] Cylch gwaith y BBC yw gwasanaethu pob cynulleidfa, a gallai newid i BBC Two helpu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus yn well.

### Cynyrchiadau gwreiddiol

8.74 Gyda mwy o ffocws ar archif BBC Four ac ailddyrannu gwariant comisiynu oddi wrth BBC Four, mae'r BBC yn disgwyl na fydd mwyach yn gallu cyflawni ei gwota cynyrchiadau gwreiddiol o 75% (pob awr) a 60% (oriau brig) ar gyfer BBC Four. Mae wedi gofyn i'r cwota oriau brig gael ei dynnu ac i ni osod un cwota 'pob awr' o 60% yn lle hynny. Fel y nodir uchod, bydd ein Trwydded newydd arfaethedig yn parhau i gynnwys cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol ac felly rydym yn ymgynghori ar gynnig y BBC i leihau hyn.

8.75 Mewn perthynas â'r cwota oriau brig, mae ein Trwydded Weithredu yn diffinio oriau gwylio brig BBC Four fel 19:00-00:00 bob dydd. Sianel ran amser yw BBC Four sydd ond yn dechrau darlledu am 19:00 bob nos. O ganlyniad i'r oriau darlledu byrrach, os mai dim ond y 60% o gynyrchiadau gwreiddiol y mae'n rhaid i'r BBC eu darparu yn ystod yr oriau gwylio brig, er mwyn cyrraedd ei gwota 75% 'pob awr', byddai'n rhaid i'r BBC gynyddu ei gyfran o gynyrchiadau gwreiddiol y tu allan i'r oriau brig, sef rhwng hanner nos a phan fydd yn stopio darlledu, fel arfer tua 03:00.

8.76 Roedd y BBC yn dadlau, os bydd yn cyrraedd 60% yn erbyn ei gwota oriau brig, ei bod yn rhaid iddo barhau i ddarlledu BBC Four tan o leiaf 03:00, ac i 100% o'r rhaglenni hyn fod yn gynyrchiadau gwreiddiol i fodloni'r cwota 75% 'pob awr'. Dywedodd fod 85% o lefelau gwylio BBC Four yn ystod oriau brig yn 2021/22 a bod y gynulleidfa gyfartalog yn ystod yr oriau hyn yn 246,000. Mewn cymhariaeth, rhwng 00:00 a'r amser cau, dywedodd y BBC mai nifer cyfartalog y gynulleidfa oedd 29,000.

8.77 Eglurodd y BBC, am y rhesymau hyn, ac er mwyn caniatáu iddo ddarparu ar gyfer cynnydd mewn rhaglenni sy'n cael eu prynu, y byddai'n hoffi cael cwota 'pob awr' o 60%.

8.78 Yn gyntaf, rydym wedi ystyried a oes rhesymau dros barhau i osod cwota cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer BBC Four yn ystod oriau brig, sy'n wahanol i'w gwota 'pob awr', ac a oes rhesymau dros gadw cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' sy'n uwch na'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer oriau brig. Dim ond nifer cyfyngedig o oriau y mae BBC Four yn eu darlledu y tu allan i oriau brig (tua 3-4 awr, y tu allan i gyfanswm yr oriau darlledu o 8-9 awr y dydd). Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig i'r BBC amserlennu

---

[201] Penderfynir ar grŵp economaidd-gymdeithasol yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a galwedigaeth. Yn gyffredinol,
mae'r grwpiau uchaf, sef A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 ac C2 yn y canol, ac
mae'r grwpiau isaf, sef D ac E, yn llai tebygol o fod yn gefnog.
[202] BARB gwylio wedi'i gyfuno dros 28 diwrnod, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 15 munud a mwy yn olynol, 2021.

cynyrchiadau gwreiddiol pan fydd y rhan fwyaf o bobl yn gwylio, er mwyn darparu'r gwerth gorau i gynulleidfaoedd. Ac eto, mae ein dadansoddiad yn dangos bod cyfran sylweddol o gynyrchiadau gwreiddiol yn cael eu darlledu yn yr oriau cyfyngedig hynny y tu allan i oriau brig ac yn ystod y nos. Wrth edrych ar 2012 i 2020, gwelsom fod tua 40% o'r oriau a oedd yn cyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' ar BBC Four, ar gyfartaledd, yn cael eu darlledu ar ôl 00:00.[203] Felly, o ystyried y cyswllt rhwng y cwota cynyrchiadau gwreiddiol oriau brig a 'phob awr' ar BBC Four, rydym yn credu ei bod yn rhesymol cael gwared ar y cwota oriau brig.

8.79 Nesaf, rydym wedi ystyried beth ddylai lefel briodol y cwota 'pob awr' fod. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 8.68, mae strategaeth y BBC ar gyfer prynu rhaglenni ar gyfer BBC Four yn nodi y bydd rhai o'r rhaglenni newydd a brynir yn cynnwys perfformiadau byw drwy bartneriaethau â sefydliadau celfyddydol a cherddoriaeth yn y DU. Er na fyddai rhaglenni o'r fath sy'n cael eu prynu yn cael eu diffinio fel cynnwys gwreiddiol o'r DU, mae'n adlewyrchu cynnwys diwylliannol y DU, yn cefnogi sector cynhyrchu ac economi greadigol y DU, ac felly'n gallu darparu gwerth pwysig i gynulleidfaoedd. Mae partneriaethau hefyd yn ffordd bwysig i'r BBC ymgysylltu â sefydliadau diwylliannol y DU a'u cefnogi, a gallant ei helpu i ddarparu cynnwys o bob cwr o'r DU a'i gwledydd a'i rhanbarthau i gynulleidfaoedd. Felly, nid oes gennym bryderon am y BBC yn prynu'r math hwn o gynnwys.

8.80 Rhan arall o strategaeth y BBC ar gyfer prynu rhaglenni ar gyfer BBC Four yw cynnwys wedi'i brynu i gefnogi casgliadau a themâu'r celfyddydau a cherddoriaeth, ac i helpu'r BBC i ddarparu cymysgedd eang o genres ar BBC Four, gan gynnwys rhaglenni dogfen rhyngwladol a drama ieithoedd tramor. Rydym wedi dweud o'r blaen y gall defnyddio rhywfaint o raglenni a brynir helpu'r BBC i apelio at gynulleidfaoedd gwahanol a denu rhai newydd.[204] Gallant hefyd helpu'r BBC i adnewyddu ei amserlenni os yw wedi'i gyfyngu'n ariannol. Mae darparu cymysgedd eang o genres ar bob un o'i wasanaethau yn ddisgwyliad allweddol sydd gennym ni a chynulleidfaoedd o'r BBC, a gallwn weld sut gallai rhaglenni a brynir ei helpu i gyflawni hyn ar BBC Four, ochr yn ochr â chanolbwyntio ar gynnwys o'r archif a gynhyrchwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, byddem yn bryderus petai rhaglenni a brynir yn chwarae rhan rhy amlwg yn y gymysgedd gyffredinol o gynnwys, gan gynnwys o ran yr effaith y gallai hyn ei chael ar ddarlledwyr eraill.

8.81 Yn gyffredinol, ein barn gychwynnol yw bod gostwng y cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' ar gyfer BBC Four yn ymddangos yn rhesymol. Byddai hyn yn darparu ar gyfer perfformiadau a brynir, ac yn helpu'r BBC i gynnal BBC Four fel sianel aml-genre unigryw.

8.82 Fodd bynnag, rydym o'r farn bod cwota cynyrchiadau gwreiddiol o 60% 'pob awr' yn isel o'i gymharu â gwasanaethau teledu eraill y BBC. Mae gennym bryderon am yr effaith ar gynulleidfaoedd pe bai rhaglenni a brynir yn chwarae rhan amlycach na chynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig ar BBC Four o ganlyniad i effeithiau cyfun cael gwared ar gwota oriau brig a gostyngiad yn y cwota 'pob awr'. Er mwyn cydbwyso'r pryderon hyn â manteision posibl rhoi mwy o gyfle i'r BBC ddarparu ar gyfer rhaglenni a brynir ar BBC Four,

203 Dadansoddiad Ofcom o ddata trawsyrru'r BBC.
204 Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, t. 9, 48-49.

rydym yn cynnig gosod un cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' ar gyfer BBC Four o 65%, yn hytrach na chais y BBC o 60%.

8.83 Rydym yn disgwyl y byddai'r gwahaniaeth yn lefel y cynyrchiadau gwreiddiol sydd eu hangen yn cael rhywfaint o effaith ar y gymysgedd o gynnwys gwreiddiol a chynnwys wedi'i brynu ar BBC Four (o'i gymharu â chynnig y BBC), lle mae disgwyl i'r BBC ddangos mwy o gynnwys gwreiddiol sy'n cael ei ailddarlledu a llai o raglenni wedi'u prynu (neu ailddarlledu llai o gynnwys wedi'i brynu). Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol arfaethedig yn caniatáu i'r BBC weithredu'r strategaeth y mae wedi'i nodi, gan gynnwys prynu cynnwys sy'n ymwneud â'r celfyddydau a cherddoriaeth gan ei bartneriaid, gan sicrhau lefel fwy priodol o gynnwys gwreiddiol ar yr un pryd.

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:** Ydych chi'n cytuno â'n safbwynt rhagarweiniol ar gais y BBC i newid amodau 2.21 a 2.32 o'r Drwydded Weithredu ar gyfer BBC Four, gan gynnwys ein cynnig i ddileu cwota cynyrchiadau gwreiddiol brig BBC Four a gosod y cwota 'pob awr' ar 65% yn hytrach na 60% ar gais y BBC? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

# 9. Cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4

**Mae ein prif gynigion yn cynnwys:**

- Gwella gofynion tryloywder y BBC o ran amrywiaeth, cynrychiolaeth a phortreadu.
- Cadw’r cwotâu ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd a’r rhanbarthau ar deledu a radio. Caniatáu i gynnwys a wneir ar gyfer BBC Sounds gyfrif tuag at gyflawni’r cwota cynhyrchu radio rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau.
- Cadw’r cwotâu presennol ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau teledu a radio’r BBC ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau.
- Disodli’r cwotâu ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau optio allan y BBC ar gyfer y gwledydd ag amod i ddarparu’r gofynion hyn o ran allbwn a thryloywder. Mae’r rhain yn cynnwys gofyniad i’r BBC nodi oriau’r cynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf y mae’n bwriadu ei ddarparu ar gyfer pob gwasanaeth.
- Cadw’r holl gwotâu rhaglenni llafar ar wasanaethau radio’r BBC ar gyfer y gwledydd.
- Ar gyfer radio lleol yn Lloegr, cadw cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol; cadw’r cwota ar gyfer rhaglenni llafar ar oriau craidd yn 60%; ond lleihau’r cwota llafar ar gyfer oriau brig amser brecwast o 100% i 75%. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ofyniad newydd ar y BBC i ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod yr oriau brig amser brecwast.
- Disodli’r cwota ar gyfer BBC ALBA i ddarparu cynnwys sydd wedi’i anelu at y rheini sy’n dysgu Gaeleg ag amod i ddarparu’r allbwn hwn a’r gofynion tryloywder hyn.

## Cyflwyniad

9.1 Mae Diben Cyhoeddus 4 yn mynnu bod y BBC yn adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig:


> “Dylai’r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a’i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai’r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw yn gywir ac yn ddilys, a chodi ymwybyddiaeth o’r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy’n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai’r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.” *Siarter y BBC*

9.2 Mae gan y BBC rôl unigryw, a nodir yn ei Genhadaeth, i wasanaethu pob cynulleidfa. Mae’n rhaid iddo allu cysylltu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, sydd â hawl i ddisgwyl y dylai’r BBC adlewyrchu eu bywydau, ynghyd ag amrywiaeth y DU, a dal i fod yn berthnasol iddynt.

Felly, mae'n hollbwysig bod y BBC yn cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ledled y DU yn gywir ac yn ddilys.

9.3 Yn yr adran hon, rydym yn ymdrin â thri maes Diben Cyhoeddus 4 – amrywiaeth y gweithlu ac oddi ar y sgrin, a chynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd ar y sgrin; cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau; a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Ar gyfer pob maes, rydym yn nodi amodau presennol y Drwydded a'r heriau a nodwyd gyda nhw. Byddwn wedyn yn egluro ein cynigion ar gyfer y Drwydded newydd, gan gynnwys yr amcanion arfaethedig, y cwotâu, amodau eraill y Drwydded a'r gofynion tryloywder.

**Ffigur 9: Diben Cyhoeddus 4 yn y Drwydded newydd**




## Mae'r Drwydded bresennol yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, a chynhyrchu a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

### Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

9.4 Mae'r Drwydded bresennol yn gosod amcanion ar gyfer y BBC i wasanaethu, adlewyrchu a chynrychioli cymunedau amrywiol y DU, ac ar gyfer ei weithlu a chyflenwyr cynnwys a gomisiynir i adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol gymunedau ledled y DU.

9.5 Rydym yn gosod amodau yn y Drwydded bresennol i gefnogi'r amcanion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion tryloywder i'r BBC egluro sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu'r DU i gyd, mesur ac adrodd ar grwpiau cynulleidfa sy'n anfodlon â hyn, a'r camau y bydd yn eu cymryd i wella bodlonrwydd. Rhaid i'r BBC hefyd adrodd bob blwyddyn ar gynnydd tuag at ei dargedau cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ogystal ag amrywiaeth ei

weithlu.[205] Ar ben hynny, mae’n rhaid i’r BBC adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â’i  (DCCoP).[206] (DCCoP).[207]

## Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

9.6 Mae’r Drwydded bresennol hefyd yn gosod amcanion ar y BBC i ddosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y DU i sicrhau ei fod yn cefnogi’r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a’r rhanbarthau. Wrth wneud hynny, dylai’r BBC feithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o’r DU.

9.7 Mae amodau cyfatebol y Drwydded yn cynnwys cwotâu ar gyfer gwariant ar raglenni rhwydwaith y mae’n rhaid i’r BBC eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a’r tu allan i ardal yr M25 yn Lloegr, a nifer y rhaglenni hynny.[208] Ceir cwotâu hefyd ar wariant y tu allan i’r M25 ar gyfer Gwasanaethau Radio Cyhoeddus yn y DU.[209]

9.8 Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU newidiadau i Gytundeb y BBC sy’n cynnwys newidiadau sy’n berthnasol i sut mae’r BBC yn cyflawni amodau ei drwydded ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd a’r rhanbarthau. Mae’r rhain yn cynnwys gofynion newydd i’r BBC gynyddu gwariant yn y gwledydd a’r rhanbarthau ar raglenni teledu a sain erbyn diwedd 2027.[210] Cyfrifoldeb Bwrdd y BBC yw’r gofynion hyn ac nid ydynt yn dod o dan gylch gwaith rheoleiddio Ofcom.[211]

## Rhaglenni yn y gwledydd a’r rhanbarthau

9.9 Mae’r Drwydded hefyd yn nodi y dylai’r BBC sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau yn gwasanaethu, ac o ddiddordeb i bobl sy’n byw yn yr ardal y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer, ac y dylent gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol.

---

[205] Rhaid i’r BBC adrodd ar amrywiaeth gweithlu holl staff Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, sy’n weithwyr cyflogedig a gweithwyr llawrydd sydd wedi’u contractio’n uniongyrchol. A rhaid iddo adrodd yn ôl yn ôl oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol. Rhaid i’r BBC roi gwybod am y rhain yn ôl lefel y swydd a’r math o swydd. Mae’r derminoleg a ddefnyddir yma i ddiffinio nodweddion gwarchodedig yn dod o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein defnydd o’r iaith hon fel rhan o’n Cais am Fewnbwn ar ddiweddaru trefniadau casglu data gweithlu Ofcom, tud. 6.

[207] Mae’n rhaid i'r BBC lunio cod ymarfer, a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Ofcom, a chydymffurfio â’r cod hwnnw. Bydd y cod yn nodi’r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys ar draws pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys o’r fath yn adlewyrchu ac yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol ledled y DU mewn ffordd ddilys. Mae’n rhaid i’r cod ymarfer gynnwys comisiynau sy’n cael eu cynhyrchu’n fewnol gan y BBC a chomisiynau sy’n cael eu cynhyrchu’n allanol.

[208] Mae Ardal yr M25 yn golygu’r ardal y caiff ei ffin allanol ei chynrychioli gan y Drafforddd sy’n Amgylchynu Llundain (yr M25).

[209] BBC Radio 1; BBC Radio 1Xtra; BBC Radio 2; BBC Radio 3; BBC Radio 4; BBC Radio 4 Extra; BBC Radio 5 Live; BBC Radio 5 Live Sports Extra; BBC Radio 6 Music; BBC Asian Network.

[210] Mae’r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn cyflwyno cynlluniau i sicrhau bod 60% o’i wariant ar raglenni teledu perthnasol yn digwydd y tu allan i ardal yr M25 a bod 50% o’i wariant perthnasol ar raglenni radio rhwydwaith a cherddoriaeth (gyda’i gilydd) yn digwydd y tu allan i ardal yr M25 erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae’r Drwydded yn cynnwys cwotâu blynyddol ar gyfer gwariant y tu allan i ardal yr M25 ar raglenni teledu rhwydwaith (50%) ac ar wasanaethau Radio Cyhoeddus yn y DU (30%) - gweler amodau 2.53 a 2.64 y Drwydded bresennol

[211] Mae Ofcom yn gorfodi’r “gofynion penodol” fel y’u diffinnir o dan erthygl 49 o’r Siarter a chymal 59 o’r Cytundeb.

9.10 Mae amodau cysylltiedig y Drwydded yn cynnwys cwotâu o ran rhaglenni sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, sy'n ymwneud â chynnwys newyddion a chynnwys heb fod yn newyddion a materion cyfoes. Nid yw'r cwotâu hyn yn nodi faint o raglenni'r BBC ddylai fod yn newydd, yn hytrach nag ailddarllediadau. Rhaid i'r BBC hefyd ddarparu rhaglenni llafar ar ei wasanaethau radio ar gyfer gorsafoedd radio cenedlaethol a gorsafoedd radio lleol yn Lloegr, a darparu rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol ar gyfer Lloegr. Ar BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu newyddion a gwybodaeth a sylw penodol i chwaraeon ar gyfer rhanbarthau Lloegr ac ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu rhywfaint o gynnwys mewn ieithoedd brodorol[212] ar deledu, radio ac ar BBC Ar-lein.

## Dylid gwella'r ffordd y mae'r BBC yn adrodd ar amrywiaeth, a dylai'r amodau ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ymgorffori cynnwys ar-lein

### Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

9.11 Mae'r Drwydded yn cynnwys gofynion i'r BBC adrodd ar sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ar draws y DU, amrywiaeth ei weithlu, a sut mae'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Rydym o'r farn y gellid gwella'r gofynion tryloywder hyn er mwyn ein galluogi i ddeall yn well sut mae'r BBC yn gwasanaethu ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol y DU.

### Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

9.12 Ar hyn o bryd mae'r Drwydded yn gosod cwotâu i'r BBC gynhyrchu a buddsoddi mewn canran benodol o'i gynnwys yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Fodd bynnag, mae'r cwotâu hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau teledu a radio'r BBC ac nid ydynt yn nodi buddsoddiad y BBC mewn cynnwys ar gyfer BBC iPlayer a BBC Sounds, ac nid ydynt ychwaith yn cymell y BBC i ddarparu cynnwys sy'n cael ei wneud yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein. Rydym o'r farn bod y gwasanaethau ar-lein hyn yn cynnig cyfleoedd i'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y gwledydd a'r rhanbarthau i'r DU gyfan, a byddant yn dod yn fwyfwy pwysig o ran sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau.

### Rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau

9.13 Mae'r Drwydded bresennol yn gosod cwotâu ar gyfer rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n berthnasol yn bennaf i wasanaethau optio allan teledu'r BBC.[213] Mae'r cwotâu'n canolbwyntio ar ddarpariaeth y BBC ar gyfer teledu, ond yn unol â'n

---

[212] Mae amodau'r Drwydded bresennol yn mynnu bod y BBC yn darparu rhaglenni mewn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar y teledu a'r radio; rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr Gaeleg ar BBC ALBA; a rhaglenni newyddion a llafar ar ei orsafoedd radio Cymraeg a Gaeleg; a chynnwys mewn ieithoedd brodorol ar gyfer yr holl wledydd ar BBC Ar-lein.
[213] Gwasanaeth optio allan yw'r amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).

hegwyddorion ar gyfer y Drwydded newydd, rydym o'r farn y dylai'r Drwydded ymgorfforì gwasanaethau ar-lein y BBC i sicrhau ei bod yn cyflawni Diben Cyhoeddus 4 ar-lein.

9.14 Rydym hefyd wedi nodi rhai amodau eraill y gellid eu gwella yn ein barn ni er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well, gan gynnwys y gofynion ar gyfer ieithoedd brodorol a'r cwota cynnwys llafar ar y cyfnod brig amser brecwast ar gyfer radio lleol yn Lloegr.

9.15 Mynegodd rhanddeiliaid bryderon mewn ymateb i'n Hymgynghoriad Cychwynnol am ansawdd cynnwys lleol y BBC; roedden nhw'n dweud bod cyllidebau'n llai ar gyfer rhaglenni i'r gwasanaethau optio allan na'r rheini ar y rhwydwaith.[214] Awgrymwyd y dylai'r BBC fuddsoddi ei gyllidebau ar gyfer rhaglenni rhwydwaith yn fwy cyfartal ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU i wella'r gynrychiolaeth o wahanol gymunedau'r DU ar y rhwydwaith.[215] Ar ben hynny, mae Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom wedi dweud wrthym nad yw'n hawdd dod o hyd i gynnwys sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar wasanaethau ar-lein y BBC, fel BBC iPlayer a BBC Sounds.

9.16 Yn fwy cyffredinol, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r BBC fod yn fwy agored am ei strategaeth, ei fuddsoddiad a'i berfformiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Er enghraifft, roedd y Campaign for Regional Broadcasting Midlands yn teimlo y gallai fod mwy o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn gwario refeniw ffi'r drwydded yn ôl rhanbarthau Lloegr[216] a nododd MG ALBA bryderon ynghylch tryloywder, atebolrwydd ac a oedd y BBC yn buddsoddi digon mewn cyfryngau Gaeleg.[217] Awgrymwyd hefyd y gallai fod mwy o gyfleoedd i randdeiliaid a chynulleidfaoedd ymgysylltu â'r BBC ar lefel leol.[218]

## Rydym yn cynnig cyflwyno newidiadau i'r amodau amrywiaeth a gofynion y gwledydd a'r rhanbarthau

9.17 Rydym yn nodi isod grynodeb o'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 sy'n ceisio ymgorffori ein tair egwyddor ar gyfer y Drwydded newydd, ac i fynd i'r afael â'r heriau a nodir uchod.

### Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

9.18 Rydym yn cynnig cyflwyno amcan Trwydded newydd a fydd yn seiliedig ar y gofynion tryloywder sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Drwydded. Byddai ein cynigion yn cryfhau'r gofynion hyn ymhellach. I grynhoi, rydym yn cynnig:

---

[214] Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom, tud.4
[215] Campaign for Regional Broadcasting Midlands, t.5-6.
[216] Campaign for Regional Broadcasting Midlands, tud.4.
[217] MG ALBA, tud.1.
[218] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom, tud.1; Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom, tud.2. Ar ben hynny, mae Below the Radar wedi galw ar y BBC i gyhoeddi canlyniadau ei rowndiau comisiynu ac i fod yn fwy tryloyw wrth wneud penderfyniadau wrth benderfynu peidio â buddsoddi mewn mathau penodol o raglenni neu gomisiynu rhaglen benodol. Ar ben hynny, mae Screen Scotland wedi tynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb comisiynu'r BBC yn yr Alban a'r rôl sydd gan y comisiynwyr hyn o ran cynyddu cynhyrchu ar draws sector creadigol yr Alban, sy'n gallu arwain at bortreadu mwy dilys o'r Alban ar draws y BBC.

a) Mynnu bod y BBC yn adrodd yn gyhoeddus ar ei rwymedigaethau cynrychiolaeth a phortreadu, yn hytrach nag adrodd i Ofcom yn unig, er mwyn egluro'n glir ei ddull o gyflawni a chynyddu atebolrwydd am ei berfformiad.

b) Cryfhau geiriad y gofynion yng Nghod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC, i fynnu bod y BBC yn nodi sut mae'n cyflawni ei ymrwymiadau mewn ffordd dryloyw.

## Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

9.19 Rydym yn cynnig cyflwyno amcan Trwydded newydd, wedi'i gefnogi gan y cwotâu teledu a radio presennol ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae ein cynnig yn ceisio ehangu'r cwotâu hyn fel eu bod yn cynnwys cynyrchiadau ar gyfer gwasanaethau ar-lein y BBC. Rydym yn cynnig ehangu ein gwaith rheoleiddio i wasanaethau ar-lein drwy ganiatáu i gynnwys a wneir ar gyfer BBC Sounds gyfrif tuag at gyflawni'r cwota cynhyrchu radio rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Hoffem hefyd ehangu'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau teledu rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau i gynnwys rhaglenni a wneir ar gyfer BBC iPlayer, ond byddai angen newidiadau i'r Cytundeb er mwyn gwneud hyn.

## Rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau

9.20 Rydyn ni'n cynnig gosod amcan Trwydded newydd, wedi'i ategu gan gymysgedd o amodau, cwotâu a gofynion tryloywder. I grynhoi, rydym yn cynnig y dylid diweddaru'r gofynion er mwyn:

a) Disodli cwotâu rhaglenni heb fod yn rhai newyddion a materion cyfoes y BBC ar gyfer y gwledydd â gofynion i'r BBC ddarparu'r cynnwys hwn, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Ar ben hynny, rydym yn cyflwyno gofynion tryloywder i sicrhau mwy o eglurder ynghylch cynlluniau'r BBC i ddarparu cynnwys perthnasol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan roi mwy o hyblygrwydd hefyd i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau. Byddai angen newidiadau i'r Cytundeb er mwyn dileu rhai o'r cwotâu hyn.

b) Cyflwyno gofynion tryloywder ychwanegol ynghylch darpariaeth y BBC o raglenni yn yr ieithoedd brodorol. Rydym hefyd yn cynnig disodli'r cwota ar gyfer BBC ALBA i ddarparu cynnwys sydd wedi'i anelu at y rheini sy'n dysgu Gaeleg gyda gofynion i'r BBC ddarparu'r cynnwys hwn, ac i nodi ei gynlluniau ar gyfer yr allbwn hwn, gan gynnwys oriau o raglenni.

c) Ychwanegu gofyniad i'r BBC ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod yr oriau brig amser brecwast ar radio lleol y BBC yn Lloegr, gan roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC wrth wasanaethu gwrandawyr drwy ostwng lefel y cwota cynnwys llafar ar oriau brig amser brecwast.

9.21 Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn nodi ein tri amcan Trwydded arfaethedig ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 yn fanylach ac yn mynd ymlaen i egluro ein cynigion cysylltiedig ar gyfer amodau newydd sy'n cefnogi'r amcanion hyn.

# Mae'n rhaid i'r BBC gynrychioli a phortreadu pob cynulleidfa, cefnogi economi greadigol y DU, a chreu cynnwys ar gyfer y DU i gyd

**Amcan P4 (1): Cynrychioli a phortreadu pob cynulleidfa**

Dylai'r BBC sicrhau bod ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn adlewyrchu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ar draws ei genres. Dylai gynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y DU yn gywir ac yn ddilys a chodi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC gymryd camau i sicrhau bod ei gynnwys a gwneuthurwyr rhaglenni'n adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol gymunedau o holl wledydd a rhanbarthau'r DU.

9.22 Mae'r amcan hwn yn ymwneud â sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ar draws pob un o'i wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd,[219] hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir economaidd-gymdeithasol ac amrywiaeth daearyddol. Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ddilys o'r cymunedau hyn ar y sgrin, mae angen gweithlu a chyflenwyr cynnwys ar y BBC sydd hefyd yn adlewyrchu amrywiaeth y DU.

**Amcan P4 (2): Cefnogi diwydiannau creadigol y DU**

Dylai'r BBC ddosbarthu ei fuddsoddiad mewn amrywiaeth o gynyrchiadau o bob cwr o'r DU a sicrhau ei fod yn cefnogi twf cynaliadwy yn y diwydiannau creadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

9.23 Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar rôl y BBC o ran cefnogi diwydiannau creadigol y DU ym mhob cwr o'r DU drwy ei broses gomisiynu a darparu allbwn. Dylai buddsoddi mewn cynyrchiadau o bob cwr o'r gwledydd a'r rhanbarthau hefyd helpu i gynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y DU yn well ar y sgrin.

**Amcan P4 (3): Gwasanaethu a chreu cynnwys ar gyfer y DU i gyd**

Dylai'r BBC wasanaethu a chreu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd o holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Dylai gymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a gwneud cynnwys dysgu yn hawdd ei ddarganfod. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai'r hyn gynnwys cynnwys yn yr ieithoedd brodorol ac amrywiaeth eang o genres.

9.24 Mae'r amcan hwn yn nodi y dylai'r BBC wasanaethu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU gyda chynnwys perthnasol ar draws pob un o'i wasanaethau, gan gynnwys ar ei wasanaethau ar-lein. Mae hefyd yn ychwanegu y dylai'r BBC gymryd camau i sicrhau ei bod yn hawdd i

[219] Mae 'hunaniaeth rhywedd' yn cynnwys nodweddion gwarchodedig "newid rhyw" fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein defnydd o'r iaith hon fel rhan o'n Cais am Fewnbwn ar ddiweddaru trefniadau casglu data gweithlu Ofcom, tud. 6.

gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys ar-lein sydd o ddiddordeb i wlad neu ranbarth penodol, gan gynnwys ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

# Rydym yn cynnig disodli rhai cwotâu â gofynion tryloywder a chadw amodau lle maent yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y ffordd orau

## Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

### Cynrychioli a phortreadu

9.25 Mae'r Drwydded yn cynnwys gofynion i'r BBC adrodd i Ofcom ar sut mae wedi bodloni'r gofynion cynrychioli a phortreadu yn y drwydded. Rydym yn nodi bod pa mor dda mae'r BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU yn cael sgôr cymharol wael gan gynulleidfaoedd. Mae'r canfyddiadau'n tueddu i fod yn is ymysg rhai grwpiau, gan gynnwys pobl anabl, y rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a'r rheini sy'n byw yn yr Alban.[220] Canfu ymchwil diweddar fod cynulleidfaoedd yn ystyried fod 'cynnwys sy'n cynnwys pobl fel fi' yn un o'r agweddau gwaethaf a bod bron i draean (31%) o gynulleidfaoedd eisiau i'r BBC ddarparu mwy o gynnwys a oedd yn cynnwys eu rhanbarth neu eu gwlad.[221]

> "Ar y cyfan, mae'r cynnwys yn canolbwyntio'n fawr ar Lundain, nid oes cynrychiolaeth fawr iawn o Ogledd Lloegr na rhanbarthau eraill fel Cymru/yr Alban".[222] **Dyn, 18-30 oed**

9.26 Y llynedd, rhoddodd y BBC wybodaeth fanwl i Ofcom am y camau mae'n eu cymryd i wella bodlonrwydd ymysg grwpiau llai bodlon,[223] ond nid yw ein hamodau Trwydded presennol yn mynnu bod y BBC yn nodi camau o'r fath yn gyhoeddus. Ar ben hynny, mae rhanddeiliaid wedi galw am ragor o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer grwpiau llai bodlon.[224]

9.27 Er mwyn gwella tryloywder i randdeiliaid a chynulleidfaoedd, ac er mwyn hybu atebolrwydd y BBC am ei berfformiad, rydym yn cynnig y dylai adrodd yn gyhoeddus ar ei ddarpariaeth o ofynion cynrychioli a phortreadu.[225] Byddai hyn yn ei golygu bod yn rhaid i'r BBC nodi ar yr un pryd â'i Gynllun Blynyddol y camau y byddai'n eu cymryd i wella bodlonrwydd ymysg grwpiau llai bodlon, ac adrodd ar ei berfformiad ar yr un pryd â'i Adroddiad Blynyddol. I gefnogi hyn, rydym yn cynnig diwygio'r amodau i'r BBC fesur ac adrodd ar grwpiau o'r gynulleidfa sy'n llai bodlon, yn hytrach na'n anfodlon. Mae'r dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gan y BBC yn wirfoddol i gyflwyno data bodlonrwydd

[220] Ofcom, Tachwedd 2021. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tud. 56.
[221] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.27.
[222] Ymchwil Ofcom: . Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, t.28.
[223] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tud. 56.
[224] Pwyllgor Cynghori'r Alban Ofcom; Pwyllgor Cynghori Lloegr Ofcom.
[225] Amodau 2.42 i 2.45 o'r drwydded bresennol ac amodau 4.2 i 4.6 o'r drwydded arfaethedig

cynulleidfaoedd i Ofcom ar bob grŵp cynulleidfa sy'n rhoi sgôr is na chyfartaledd y DU a/neu ei grwpiau cymharol ar gyfer darpariaeth y BBC.

9.28 Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad i'r BBC adrodd ar gynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau cynrychioli a/neu bortreadu, gan gynnwys ei dargedau ar y sgrin (teledu) ac ar yr awyr (radio)..[226] Rydym o'r farn y bydd hyn hefyd yn cynnwys adroddiadau ar unrhyw dargedau y bydd y BBC yn eu gosod yn y dyfodol ar ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys ar y teledu, y radio ac ar-lein.

## Amrywiaeth y gweithlu

9.29 Pan wnaethom osod y Drwydded am y tro cyntaf, roeddem wedi penderfynu gosod amodau rheoleiddio sy'n ymwneud ag amrywiaeth y gweithlu er mwyn helpu i sicrhau bod Diben Cyhoeddus 4 yn cael ei gyflawni. Roeddem o'r farn y dylai gwelliannau yn amrywiaeth gweithlu'r BBC gyfrannu at gynrychioli a phortreadu'n well ar y sgrin ac ar yr awyr, a bod lefelau uchel o atebolrwydd a thryloywder yn hanfodol er mwyn sicrhau newid cadarnhaol yn y maes hwn. Mi wnaethom felly gyflwyno gofynion ar y BBC i ddarparu adroddiad blynyddol manwl i Ofcom ar gyfansoddiad cyffredinol ei staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU ac i adrodd ar gynnydd tuag at ei dargedau amrywiaeth gweithlu.

9.30 Mae'r BBC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at sicrhau gweithlu mwy amrywiol dros gyfnod y Siarter, ond mae rhagor i'w wneud yn dal.[227] Rydym o'r farn bod gofynion Trwydded y BBC o ran amrywiaeth y gweithlu yn dal yn bwysig o ran cefnogi rhagor o gynnydd yn y maes hwn.[228]

9.31 Yn ogystal â'r rhwymedigaethau Trwydded hyn i sicrhau bod PP4 yn cael ei ddarparu, mae'r BBC hefyd yn rhwym wrth ofynion eraill sy'n ymwneud ag amrywiaeth ei weithlu o dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae'r ddyletswydd amrywiaeth gyffredinol dan erthygl 14 y Siarter yn cynnwys gofyniad ar y BBC i sicrhau bod cymunedau amrywiol y DU i gyd yn cael eu hadlewyrchu yn y modd y caiff ei allbwn a'i wasanaethau eu darparu (gan gynnwys lle caiff gweithgareddau eu gwneud a gan bwy) ac yn sut caiff y BBC ei drefnu a'i reoli. Mae'n rhaid i'r BBC hefyd wneud trefniadau ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal o dan baragraff 12 Atodlen 3 y Cytundeb.[229]

[226] Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu gosod targedau amrywiaeth newydd ar y sgrin (Teledu) ac ar yr awyr (radio) ar ôl cyhoeddi data cyfrifiad newydd yn 2022. Tan hynny, bydd yn parhau i ddefnyddio targedau 2020 i helpu i sicrhau cynrychiolaeth amrywiaeth ar y sgrin ac ar yr awyr. Dyma'r ystadegau: a. 50% o fenywod ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn rolau arweiniol ar draws pob genre, o ddrama i newyddion b. 8% o bobl anabl ar y sgrin ac ar yr awyr, gan gynnwys rhai rolau arweiniol c. 8% o Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yn cael eu portreadu ar y sgrin, gan gynnwys rhai rolau arweiniol d. 15% o leiafrifoedd ethnig, du ac Asiaidd ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn rolau arweiniol ar draws pob genre. Gweler tud.61 o Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21.
[227] Gweler tud.63 o Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21.
[228] Gweler amod presennol 2.50 ac amod arfaethedig 4.12.
[229] Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn bodloni ei ddyletswyddau cyffredinol, gan gynnwys ei ddyletswydd o dan erthygl 14 o'r Siarter. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Ofcom ystyried (gan gynnwys gosod y Drwydded Weithredu) y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol. Mae Ofcom yn gyfrifol am orfodi dyletswydd cyfle cyfartal y BBC o dan baragraff 12, Atodlen 3 i'r Cytundeb (gweler y diffiniad o "ofynion penodol" yng nghymal 59 y Cytundeb). Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth newidiadau i'r Cytundeb a oedd yn cynnwys ehangu cwmpas dyletswydd cyfle cyfartal y BBC (am ragor o fanylion, gweler newidiadau'r Llywodraeth i Gytundeb y BBC).

9.32 Nodwn fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi newidiadau i'r Cytundeb ym mis Mai 2022, gan gynnwys gofynion newydd i'r BBC wneud cynnydd sylweddol o ran amrywiaeth a chyfansoddiad ei weithlu erbyn diwedd y siarter, ac yn benodol tuag at dargedau Bwrdd y BBC sef 50% o fenywod, 25% o grwpiau economaidd-gymdeithasol isel, 20% o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a 12% o bobl anabl.[230] Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar gynnydd tuag at y materion hyn yn ei Adroddiad Blynyddol. Rydyn ni'n cynnig cynnal y gofyniad yn y Drwydded i'r BBC adrodd i Ofcom ar y cynnydd tuag at ei dargedau amrywiaeth gweithlu, gan fod hyn hefyd yn cynnwys targed y BBC ar gyfer gweithlu Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol[231] ac unrhyw dargedau y bydd y BBC yn penderfynu eu gosod yn y dyfodol.

9.33 Mae'r BBC yn arwain y diwydiant o ran faint o wybodaeth mae'n ei chasglu a'i chyhoeddi am amrywiaeth. Mae'r BBC wedi ymateb i'n galwadau i gynyddu tryloywder yn y maes hwn drwy gyhoeddi data ychwanegol, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau'r bylchau data dros gyfnod y Siarter.[232] Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, rydym am weld pob darlledwr yn casglu ac yn rhannu set gyfoethocach o ddata ar amrywiaeth eu gweithluoedd.[233]

9.34 Rydym wedi egluro o'r blaen ein bod yn ystyried y byddai cyhoeddi data amrywiaeth y gweithlu fesul ardal ddaearyddol yn helpu i nodi lle mae angen i'r BBC, a darlledwyr eraill, wneud mwy i sicrhau bod eu gweithluoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cynrychioli'r cynulleidfaoedd maent yn eu gwasanaethu yn fwy cywir.[234] Mae amrywiaeth o randdeiliaid wedi cefnogi'r cynnig i adrodd fel hyn ar gyfansoddiad gweithluoedd darlledwyr.[235] Gall y data hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i helpu'r BBC i fonitro ac asesu llwyddiant ei strategaeth Ledled y DU. Felly, rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol diweddar gan y BBC i'n cais i ddarparu'r data hwn. Bydd hyn yn galluogi Ofcom i gyhoeddi data ar amrywiaeth gweithlu'r BBC ar gyfer y gwledydd wrth i ni adrodd ar Gyfle Cyfartal mewn Darlledu am y tro cyntaf yr hydref hwn. Bydd hyn yn nodi dechrau pennod newydd mewn adroddiadau ar amrywiaeth darlledu yn y DU. Am y rheswm hwn, nid ydym yn credu bod angen cynnig cyflwyno rhagor o ofynion ar y Drwydded a mynnu bod data daearyddol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'n ofalus y wybodaeth sydd ar gael i'w chyhoeddi, er mwyn dal y BBC i gyfrif yn y maes hwn.

9.35 Rydyn ni'n cynnig diweddaru gofynion Trwydded y BBC ar gyfer adrodd ar amrywiaeth y gweithlu i roi'r hyblygrwydd i ni addasu'r categorïau data rydyn ni'n eu casglu ar lefelau a

---

[230] Mae'r newidiadau hyn hefyd yn cynnwys gofynion newydd i'r BBC ehangu ei gynllun prentisiaeth, gan gynnwys sicrhau bod 30% o'r lleoedd yn cael eu derbyn gan brentisiaid o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar newidiadau'r Llywodraeth i Gytundeb y BBC.

[231] Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant y BBC 2021-2023, tud.16.

[232] Er enghraifft, mae'r BBC wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran casglu data am gefndir economaidd-gymdeithasol ei weithwyr (gweler tud.62 o Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21).

[233] Fel rhan o'n gwaith ehangach ar Amrywiaeth mewn Darlledu, rydym wrthi'n ymgynghori ar wella ansawdd y data rydym yn ei gasglu. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer adrodd yn wirfoddol ar y gweithlu yn ôl ardal ddaearyddol.

[234] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tud. 56: Adolygiad pum mlynedd:Amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn darlledu yn y DU, tud. 34.

[235] Er enghraifft, gweler ymateb Llywodraeth yr Alban i gynllun gwaith arfaethedig Ofcom 2022/23, tud.2. ac ymatebion i'n Cais am Fewnbwn ar ddiweddaru trefniadau casglu data gweithlu Ofcom.

rolau swyddi.[236] Rydyn ni hefyd yn bwriadu diweddaru'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio yn y gofynion Trwydded o ran cynrychioli a phortreadu ac amrywiaeth gweithlu'r BBC sy'n ymwneud ag 'ailbennu rhywedd'.[237] Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod adroddiadau'r BBC yn parhau i gyd-fynd â dull adrodd y diwydiant darlledu ehangach ar amrywiaeth eu gweithluoedd teledu a radio. Dylai hyn ein galluogi i adlewyrchu'r arferion gorau yn y data rydym yn ei gasglu gan y BBC, ac osgoi cymhlethdod gweinyddol diangen i'r BBC ac Ofcom.

### Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth

9.36 Pan wnaethom osod y Drwydded am y tro cyntaf, mi wnaethom benderfynu mynnu bod y BBC yn creu Cod Ymarfer comisiynu amrywiaeth, i'w gymeradwyo gan Ofcom, erbyn mis Mai 2018. Roedd y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn nodi newid sylweddol yn ymrwymiad y BBC i ymgorffori ystyriaethau amrywiaeth yn ei arferion comisiynu, ac yn y gofynion sydd ar wneuthurwyr cynnwys i bennu a rhoi cyfrif am gyflawni amcanion amrywiaeth y cytunwyd arnynt. Mae'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi amcan y BBC o sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael ei chynrychioli a'i phortreadu'n gywir ar y sgrin, ac rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig ehangu gofynion sy'n ymwneud â'r Cod Ymarfer yn y Drwydded newydd.

9.37 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer yr wybodaeth y mae'n rhaid i'r BBC ei nodi yn ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC nodi'r camau y bydd yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys mewn perthynas â phortreadu ar y sgrin a chastio, amrywiaeth gweithlu'r timau cynhyrchu a gomisiynir, a'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchu a chomisiynu. Mae'r BBC wedi defnyddio'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth i nodi ei ddisgwyliadau hefyd o ran timau cynhyrchu a gomisiynir, a sut bydd yn monitro cydymffurfiad timau o'r fath â'r disgwyliadau hyn. Rydym yn croesawu'r elfennau hyn o'r cod, sy'n bwysig er mwyn dal cynhyrchwyr i gyfrif yn y maes hwn. Rydym yn cynnig ehangu gofynion perthnasol y Drwydded ar yr hyn mae'n rhaid i'r cod ymarfer ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'r agweddau hyn ar y Cod cyfredol a sicrhau bod y BBC yn parhau i nodi'r wybodaeth hon yn ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth.[238]

9.38 Mae'r Drwydded hefyd yn mynnu bod y BBC yn monitro ei gydymffurfiad â'i God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth ac yn adrodd yn flynyddol i Ofcom ar hyn.[239] Rydym wedi codi pryderon dro ar ôl tro nad yw'r ffordd mae'r BBC yn adrodd ar ei gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth wedi cael ei gysylltu'n glir â'r ymrwymiadau yn y Cod. Yn gyson, nid yw adroddiadau'r BBC wedi bod yn ddigon manwl o ran sut mae'n dal ei hun a'i gyflenwyr i gyfrif am fodloni ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, felly mae'n dal yn anodd asesu faint o gynnydd sy'n cael ei wneud.[240]

---

[236] Amod 2.50 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.12 o'r Drwydded arfaethedig

[237] Amodau 2.42.1 a 2.50.1 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.2.1 i 4.12.1 o'r Drwydded arfaethedig. Bydd y geiriad terfynol yn ystyried canfyddiadau ein Cais am Fewnbwn ar ddiweddaru'r data gweithlu a gesglir gan Ofcom.

[238] Amod 2.46 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.8 o'r Drwydded arfaethedig.

[239] Amod 2.48 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.9 o'r Drwydded arfaethedig.

[240] Ers cyflwyno'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth am y tro cyntaf yn 2018, mae'r BBC yn adrodd mai dim ond 30 o 46 ymrwymiad sydd wedi cael eu gweithredu'n llawn a bod 16 yn dal ar y gweill - mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â disgwyliadau cynhyrchwyr.

9.39 Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r BBC wedi cytuno i ddarparu adroddiad manylach i Ofcom eleni ar y cynnydd yn erbyn ei ofynion o ran y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, ac rydym yn croesawu hynny. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu adroddiadau gwell yn barhaus, rydyn ni'n cynnig egluro fel rhan o'r adroddiadau blynyddol ar ei gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, bod yn rhaid i'r BBC adrodd ar y camau mae wedi'u cymryd mewn perthynas ag unrhyw dîm cynhyrchu a gomisiynwyd nad oedd yn bodloni disgwyliadau'r Cod. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon nad yw'r BBC, hyd yma, wedi nodi digon o wybodaeth ynghylch sut mae'n dal cynhyrchwyr i gyfrif. Rydym hefyd yn cynnig nodi bod yn rhaid i'r BBC adrodd ar nifer y comisiynau lle nad oedd timau cynhyrchu'n bodloni disgwyliadau'r cod, gan roi manylion ynghylch a oedd y rhain yn gomisiynau mewnol neu allanol. Dylai hyn roi mwy o eglurder ynghylch graddfa'r diffyg cydymffurfio gan gynhyrchwyr, a'n galluogi i olrhain cynnydd yn y maes hwn.[241]

## Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

### Cynhyrchu teledu

*Cynnwys BBC iPlayer*

9.40 Mae'r cwotâu cynhyrchu[242] ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau'n berthnasol ar hyn o bryd i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar sianeli rhwydwaith teledu'r BBC.[243] Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid eu bod yn helpu i sicrhau buddsoddiad yn y sector cynhyrchu ac yn helpu i gefnogi economïau creadigol gwledydd a rhanbarthau'r DU.[244] Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni ellir cyfrif rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer BBC iPlayer tuag at gyflawni'r cwotâu hyn.

9.41 Un o brif egwyddorion ein Trwydded Weithredu newydd yw y dylai'r BBC allu darparu cynnwys lle mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau – ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-lein. Felly, rydym yn credu y dylai'r BBC allu cyfrif cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf a wnaed y tu allan i'r M25 ar gyfer BBC iPlayer tuag at gyflawni ei gwotâu cynhyrchu.

9.42 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau i sicrhau bod cyfran addas o'r holl raglenni rhwydwaith yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25. Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn argymell bod y llywodraeth, fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, yn ystyried diwygio'r Cytundeb er mwyn i Ofcom allu pennu'r cwotâu hyn ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i'r M25, sy'n berthnasol i raglenni sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith ac ar gyfer BBC iPlayer.[245]

9.43 Fodd bynnag, er bod llawer o bobl yn gwylio llai o deledu wedi'i ddarlledu, rydym yn cydnabod y bydd rhai cynulleidfaoedd yn parhau i ddibynnu ar y teledu am beth amser ac ni ddylent golli allan ar fanteision posibl cynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y

[241] Gweler amod 4.10 o'r drwydded arfaethedig.
[242] Amodau 2.53 i 2.62 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.15 i 4.26 o'r Drwydded arfaethedig.
[243] Nid yw'r cwotâu cynhyrchu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn cynnwys rhaglenni wedi'u prynu.
[244] Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, tud. 2.
[245] Cymal 2(7) o Gytundeb y BBC.

DU yn well ar y sgrin, os nad ydynt yn gwylio rhaglenni ar-lein. Felly, os byddwn yn rhoi'r cynnig hwn ar waith, byddwn yn monitro cyfran y cwotâu sy'n cael eu cyflawni gyda chynyrchiadau ar gyfer teledu rhwydwaith ac ar gyfer BBC iPlayer.

*Cyd-gomisiynu rhwng gwasanaethau rhwydwaith a gwasanaethau optio allan*

9.44 Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod ei dimau comisiynu ar gyfer y gwledydd a'r rhwydwaith yn comisiynu rhaglenni ar y cyd os ydynt o ddiddordeb i wlad neu ranbarth penodol ond eu bod ag apêl ehangach hefyd, ac y byddent yn elwa o ragor o gyllidebau comisiynu. Er mwyn sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cyfrannu at gyflawni'r cwotâu cynhyrchu, mae'r BBC yn eu dangos ar y rhwydwaith yn gyntaf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw'n credu bod hyn o fudd i gynulleidfaoedd bob amser, ac y gallai fod o fudd i gynulleidfaoedd sicrhau bod y rhaglenni hyn ar gael ar y gwasanaethau optio allan yn gyntaf, a'r sianeli rhwydwaith wedi hynny. Mae hefyd wedi dweud, yn dilyn ei strategaeth Ledled y DU, bod cyd-gomisiynu gwasanaethau o'r fath yn rhan gynyddol bwysig o'i strategaeth gomisiynu i sbarduno portread cenedlaethol a rhanbarthol.

9.45 Rydym yn cydnabod gwerth y rhaglenni hyn i gynulleidfaoedd, ac rydym am i'n gwaith rheoleiddio gymell y BBC i barhau i ddarparu allbwn o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd. Felly, byddwn yn diweddaru'r Drwydded i egluro y gall cyd-gomisiynu gyfrif tuag at y cwotâu cynhyrchu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau pan fyddant yn cael eu dangos ar wasanaeth optio allan yn gyntaf.[246]

## Cynhyrchu radio

*Cynnwys BBC Sounds*

9.46 Rydym yn cynnig newid cwota gwariant cynyrchiadau radio rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau fel bod cynnwys a wneir ar gyfer BBC Sounds yn cael ei gynnwys yn y cwotâu, yn unol â'n nodau i ymgorffori darpariaeth ar-lein yn y Drwydded.[247] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o wrandawyr yn dal i ddibynnu ar wrando ar radio byw a'i bod yn bwysig o ran cynrychioli a phortreadu bod gwrandawyr o'r fath hefyd yn gallu gwrando ar raglenni a wnaed y tu allan i'r M25. Felly, rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i fuddsoddi mewn cynhyrchu rhaglenni radio rhwydwaith y tu allan i Ardal yr M25. Rydyn ni'n cynnig monitro darpariaeth y BBC yn y maes hwn, gan gynnwys cyfran y cwotâu sy'n cael eu cyflawni gyda chynyrchiadau ar gyfer radio rhwydwaith a BBC Sounds. Yn wahanol i gynnwys BBC iPlayer, gallwn wneud y newid hwn i'r Drwydded heb newid y Cytundeb.

*Rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol ar radio lleol yn Lloegr*

9.47 Mae'r Drwydded bresennol yn cynnwys cwotâu i'r BBC ddarparu rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol ar radio lleol yn Lloegr.[248] Rydym yn credu bod yr amodau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau fod y BBC yn parhau i ddarparu cynnwys sy'n berthnasol yn lleol ac yn cefnogi'r sector cynhyrchu radio lleol. Nodwn fod y llywodraeth wedi dweud y bydd yn symleiddio'r

[246] Amod 4.26 o'r Drwydded arfaethedig.
[247] Amod 2.64 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.28 o'r Drwydded arfaethedig.
[248] Amod 2.75 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.40.6 o'r Drwydded arfaethedig.

gofynion cynhyrchu lleol ar gyfer gwasanaethau radio masnachol.[249] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan y BBC, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, rôl allweddol o ran cefnogi cynyrchiadau radio yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac felly rydym yn cynnig cadw'r gofynion hyn ar radio lleol y BBC yn Lloegr.

9.48 Mae'r Drwydded yn caniatáu i'r BBC rannu ei raglenni gwreiddiol sydd wedi cael eu gwneud yn lleol â 'gorsafoedd cyfagos' yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn rhannu rhaglenni rhwng gorsafoedd sy'n rhannu ffin ddaearyddol. Fodd bynnag, mae'r BBC o'r farn y gallai fod yn briodol i rannu rhaglenni dros ardal ddaearyddol ehangach mewn rhai achosion, ac mae wedi dweud ei fod yn dymuno ystyried hyn wrth symud ymlaen. Felly, mae wedi gofyn i Ofcom egluro ystyr gorsafoedd cyfagos.

9.49 Rydym o'r farn y byddai unrhyw orsaf sydd yn yr un ardal ddaearyddol, ond nad yw o reidrwydd yn rhannu ffin ddaearyddol, yn orsaf gyfagos. Nid ydym yn credu bod hyn yn golygu bod angen newid y Drwydded. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig monitro'r gorsafoedd y mae'r BBC yn rhannu ei raglenni rhyngddynt, yn ogystal â'r rhaglenni penodol sy'n cael eu rhannu. Rydym yn bwriadu gwneud hyn yn y dyfodol i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cynnwys lleol pwysig fel newyddion lleol.

9.50 Yn olaf, cwotâu wythnosol yw'r cwotâu hyn ar hyn o bryd, felly rydyn ni'n cynnig eu diwygio fel eu bod yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i gwotâu dyddiol ac wythnosol eraill yn y Drwydded. Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn Adran 6 uchod.

### Tryloywder

9.51 Nodwn fod y llywodraeth wedi cyhoeddi newidiadau i Gytundeb y BBC sy'n cynnwys gofynion newydd i'r BBC adrodd bob blwyddyn ar gynnydd tuag at ei amcan Ledled y DU yn ei Adroddiad Blynyddol. Mae'r amcan hwn, yn cynnwys sicrhau bod buddsoddiad y BBC yn y diwydiannau creadigol, a'r gwaith o'u datblygu, yn cael ei ddosbarthu'n ehangach ledled y DU.[250] Gan ystyried hyn, nid ydym yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder ychwanegol yn y Drwydded sy'n ymwneud â sut mae'r BBC yn cefnogi'r economi greadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau oherwydd y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn adroddiadau Ledled y DU y BBC.[251]

## Rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau

### Rhaglenni teledu

9.52 Mae'r Drwydded bresennol yn cynnwys amryw o gwotâu o ran rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.

---

[249] Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ebrill 2022. Ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Sain a Radio Digidol, paragraff 2.1.
[250] Mae'r amcan hwn hefyd yn cynnwys sicrhau bod cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn adlewyrchu ac yn cynrychioli pobl a safbwyntiau yn y DU sy'n cael eu tangynrychioli yn y cynnwys hwnnw ar hyn o bryd.
[251] Fel yr eglurwyd ym mharagraff 9.8, cyfrifoldeb Bwrdd y BBC yw'r newidiadau hyn i Gytundeb y BBC ac nid ydynt yn dod o dan gylch gwaith rheoleiddio Ofcom.

*Gofynion newyddion a materion cyfoes*

9.53 Rydym yn cynnig bod Amcan P4 (3) yn cael ei gefnogi gan y cwotâu a'r gofynion presennol ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau optio allan y BBC.[252] Mae cynnal yr amodau hyn hefyd yn cyd-fynd â'n dull o gynnal cwotâu newyddion y BBC ar gyfer ei wasanaethau teledu sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU o dan Ddiben Cyhoeddus 1.[253] Byddwn hefyd yn cadw'r gofynion ar newyddion ar gyfer BBC ALBA[254] a BBC Scotland,[255] a'r cwota i roi sylw i drafodion seneddol ar gyfer pob gwlad ar BBC Parliament.[256]

9.54 Mae ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer ein hadolygiad Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr wedi canfod bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hystyried yn arbennig o bwysig o ran darparu newyddion a materion cyfoes ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau,[257] na fyddai'r farchnad o bosibl yn eu darparu fel arall, ac mae rhanddeiliaid wedi gwneud y pwynt hwn hefyd.[258] Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod bodlonrwydd cynulleidfaoedd â newyddion teledu rhanbarthol y BBC yn uchel ar y cyfan.[259]

9.55 Rydym yn nodi, yn wahanol i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, nad oes cwotâu penodol ar hyn o bryd sy'n mynnu bod y BBC yn darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau optio allan ar gyfer teledu yn Lloegr. Fodd bynnag, mae darparu cynnwys o'r fath wedi'i ddiogelu i ryw raddau gan y cwotâu sy'n berthnasol i gynnwys ar gyfer gwasanaethau optio allan y BBC gyda'i gilydd, a dydyn ni ddim yn credu ar hyn o bryd bod angen pennu cwotâu newyddion a materion cyfoes yn benodol ar gyfer gwasanaethau optio allan yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn credu bod angen mwy o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn darparu newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn Lloegr. Rydym felly'n cynnig mynnu bod y BBC yn nodi cyfanswm oriau o raglenni newyddion a materion cyfoes ar y teledu ar draws ei wasanaethau optio allan yn Lloegr, gyda'i Gynllun Blynyddol, ac adrodd yn erbyn ei ddarpariaeth gyda'i Adroddiad Blynyddol.[260]

*Cwotâu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau*

9.56 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n berthnasol i wasanaethau optio allan y BBC gyda'i gilydd. Mae'r rhain yn mynnu bod nifer sylfaenol o oriau o raglenni (gan gynnwys newyddion a rhaglenni heb fod

---

[252] Mae hyn yn golygu cadw'r cwota ar gyfer rhaglenni newyddion sy'n berthnasol i holl wasanaethau optio allan BBC One ar draws y gwledydd a rhanbarthau Lloegr, sy'n ofynnol o dan y Cytundeb (amod 2.68 o'r Drwydded gyfredol ac amod 4.23 o'r Drwydded arfaethedig). Byddem hefyd yn cadw'r cwotâu newyddion a materion cyfoes ar wasanaeth optio allan pob gwlad (gosodwyd y cwotâu hyn gan Ofcom ac nid ydynt yn ofynnol dan y Cytundeb) (amodau 2.78.1, 2.85.1, 2.91.1 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.46.1, 4.55.1 a 4.63.1 o'r Drwydded arfaethedig).
[253] Adran 6.
[254] Amod 2.81 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.48.1 o'r Drwydded arfaethedig.
[255] Amod 2.80.5 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.47.2 o'r Drwydded arfaethedig.
[256] Amod 2.70 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.34 o'r Drwydded arfaethedig.
[257] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Effaith y cyfnod clo ar berthynas cynulleidfaoedd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, t.7.
[258] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom, tud. 2 ac Ofcom, Gorffennaf 2021. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Argymhellion i'r Llywodraeth ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, tud.21, troednodyn 68.
[259] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig. Mae 82% o oedolion sy'n dilyn newyddion ar deledu rhanbarthol y BBC yn fodlon ag ansawdd y newyddion lleol maent yn eu darparu.
[260] Amod 4.68.2 o'r Drwydded arfaethedig.

yn newyddion) ar draws y gwasanaethau optio allan, yn ogystal â nifer sylfaenol o oriau o raglenni heb fod yn newyddion cyn, yn ystod, ac ychydig ar ôl yr oriau brig.[261]

9.57 Mae'r cwotâu hyn yn sicrhau bod y BBC yn darparu allbwn heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar y teledu. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar gwotâu teledu hefyd yn golygu, hyd yn oed os bydd y BBC yn darparu allbwn unigryw o ansawdd uchel ar BBC iPlayer, na fyddai'r rhaglenni hyn yn cyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu.

9.58 Felly, hoffem ddisodli'r cwotâu rhaglenni hyn ag amodau i gyflawni'r cynnwys hwn, yn ogystal â gofynion o ran tryloywder. Byddai hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r BBC ddarparu rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar draws ei wasanaethau teledu ac ar-lein er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well. Felly, fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, rydym yn argymell bod y llywodraeth yn ystyried diwygio'r Cytundeb i ddileu'r gofyniad i Ofcom osod cwotâu ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

*Cwotâu rhaglenni heb fod yn newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau optio allan y gwledydd unigol*

9.59 Yn ogystal â'r cwotâu rhaglenni, mae'r Drwydded hefyd yn cynnwys cwotâu ar wahân ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion a materion cyfoes ar y gwasanaethau optio allan yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[262] Rydym o'r farn y byddai amodau i ddarparu'r allbwn hwn, ynghyd â gofynion tryloywder, yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC addasu ei ddarpariaeth i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, er enghraifft drwy ddarparu mwy neu lai o oriau o raglenni ar wasanaeth penodol, neu ddarparu cynnwys ar iPlayer i'r rheiny y mae'n well ganddynt weld cynnwys ar-lein. O'r herwydd, rydyn ni'n cynnig disodli'r cwotâu â gofynion i'r BBC ddarparu rhaglenni heb fod yn newyddion a materion cyfoes ar gyfer gwasanaeth optio allan pob gwlad, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ynghyd â gofynion tryloywder newydd.[263]

9.60 Byddai'r gofynion tryloywder hyn yn mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu amrywiaeth o gynnwys heb fod yn newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys y rhaglenni mae'n bwriadu eu dangos am y tro cyntaf a chyfanswm ei oriau ar wasanaeth optio allan pob gwlad gyda'i Gynllun Blynyddol. Byddai gofyn iddo wedyn adrodd ar ei gyflawniad gyda'i Adroddiad Blynyddol.

9.61 Er nad oes unrhyw gwota o raglenni heb fod yn newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Scotland ar hyn o bryd, rydym yn cynnig ychwanegu gofyniad ar gyfer darparu'r cynnwys hwn, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ynghyd â gofynion tryloywder tebyg.[264] Mae hyn yn cyd-fynd â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, a byddai'n darparu mwy o dryloywder am allbwn y

[261] Amodau 2.67.2, 2.67.6, 2.67.8 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.31.1, 4.31.4, 4.31.5 o'r Drwydded arfaethedig.
[262] Amodau 2.78.2, 2.85.2, 2.87, 2.91.2 a 2.93 o'r Drwydded bresennol.
[263] Gweler amodau 4.46.2, 4.55.2, 4.56, 4.63.2, 4.64 a 4.68.3 o'r Drwydded arfaethedig.
[264] Gweler amodau 4.47.3 a 4.68.3 o'r drwydded arfaethedig.

BBC nad yw'n newyddion a materion cyfoes ar BBC Scotland, gan gynnwys oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

9.62 Rydym hefyd yn credu y dylai'r Drwydded ddarparu gwybodaeth am sut mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC iPlayer, yn unol â'n hegwyddor o ymgorffori darpariaeth y BBC ar-lein. Felly, rydym hefyd yn cynnig mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i wledydd a rhanbarthau'r DU ar iPlayer, gan gynnwys ei oriau arfaethedig o gynnwys heb fod yn newyddion nac yn faterion cyfoes, ac adrodd ar y ddarpariaeth gyda'i Adroddiad Blynyddol.[265] Byddai hyn yn darparu tryloywder o ran sut mae'r BBC yn defnyddio ei wasanaethau ar-lein i ddarparu cynnwys sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

*Ystod addas o raglenni a wneir yn yr ardal berthnasol*

9.63 Rydym yn bwriadu cynnal y gofynion i'r BBC sicrhau bod 95% o raglenni ar wasanaethau optio allan y BBC gyda'i gilydd yn cael eu gwneud yn yr ardal berthnasol a bod 90% o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC Scotland yn cael eu gwneud yn yr Alban.[266] Mae hyn er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i gefnogi cynhyrchwyr lleol gyda'i raglenni ar gyfer y sianeli hyn.

*Ieithoedd brodorol*

9.64 Mae'r BBC yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarlledu yn ieithoedd brodorol y DU yn unol â'i ddyletswyddau yn y Siarter a'r Cytundeb. Mae'n cefnogi gwasanaethau penodol ar gyfer darparu cynnwys teledu a radio yn yr iaith Gaeleg (BBC ALBA a BBC Radio nan Gàidheal) a'r Gymraeg (S4C[267] a BBC Radio Cymru). Mae ymatebwyr i'n hadolygiad *Sgrin Fawr: Trafodaeth Fawr* a'n Hymgynghoriad Cychwynnol wedi pwysleisio pwysigrwydd diogelu'r ddarpariaeth hon mewn trefniadau rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.[268]

9.65 Gan ystyried hyn, rydym yn cynnig cadw'r amodau presennol i'r BBC ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar y teledu a'r radio.[269] Mae'r amod presennol yn mynnu bod y BBC yn darparu'r allbwn hwn ar BBC Two Northern Ireland yn unig (yn hytrach na BBC One Northern Ireland hefyd). Nid ydym yn credu bod hyn o fudd i gynulleidfaoedd gan nad yw'n cymell y BBC i ddangos yr allbwn hwn ar BBC One Northern Ireland, sydd â chynulleidfa uwch.[270] Felly, rydym yn cynnig diwygio'r amod hwn er mwyn i'r BBC gael yr hyblygrwydd i ddarparu'r allbwn hwn ar y ddwy sianel.

9.66 Rydym hefyd yn cynnig gwella tryloywder o ran sut mae'r BBC yn darparu'r cynnwys hwn drwy gyflwyno gofynion newydd i'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu rhaglenni

---

[265] Gweler amod 4.68.3 o'r drwydded arfaethedig
[266] Amodau 2.67.4 a 2.80.3 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.31.3 a 4.47.1 o'r Drwydded arfaethedig.
[267] Mae cyllid cyhoeddus S4C bellach yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl o ffi'r drwydded. Fodd bynnag, mae'n sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan statud ac sy'n atebol i Lywodraeth y DU. Dyma pam nad yw'n rhan o Fframwaith Gweithredu'r BBC. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y Cytundeb Partneriaeth, Cyllido ac Atebolrwydd rhwng y BBC ac S4C.
[268] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, tud.23, troednodyn 85.
[269] Amodau 2.94 a 2.95.4 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.65 i 4.66.4 o'r Drwydded arfaethedig.
[270] BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: cyfartaledd wythnosol, 15 munud a mwy yn olynol.

Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar BBC One Northern Ireland, BBC Two Northern Ireland a BBC iPlayer, gan gynnwys oriau arfaethedig ac oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.[271]

9.67 Mae'r Drwydded hefyd yn cynnwys cwota sy'n mynnu bod y BBC yn darparu nifer penodol o oriau o raglenni sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd sy'n dysgu Gaeleg ar BBC ALBA.[272] Rydym o'r farn y gellid gwella'r gofyniad dysgu Gaeleg drwy ddarparu mwy o wybodaeth am sut mae eu rhaglenni'n helpu pobl i ddysgu Gaeleg, gan gynnwys ar iPlayer. Mae MG ALBA hefyd wedi mynegi pryderon nad yw cwota BBC ALBA o 5 awr o 'raglenni gwreiddiol wedi'u hanelu at y rheini sy'n dysgu'r iaith Gaeleg' wedi'i ddiffinio'n ddigon clir i gael ei fesur yn gywir ac nad yw'n ymwneud yn hawdd ag ystyriaethau strategol ar gyfer helpu pobl i ddysgu Gaeleg ar draws pob llwyfan".

9.68 Felly, rydym yn cynnig disodli'r cwota â gofyniad ar y BBC i ddarparu'r allbwn hwn ar BBC ALBA, ynghyd â gofynion tryloywder. Bydd y rhain yn mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau i ddarparu rhaglenni sydd wedi'u hanelu at y rheini sy'n dysgu'r iaith Gaeleg ar gyfer BBC ALBA a BBC iPlayer, gan gynnwys ei raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a chyfanswm yr oriau o raglenni perthnasol.[273] Bydd angen i'r BBC adrodd ar y ffordd mae'n cyflawni ei gynlluniau gyda'i Adroddiad Blynyddol. Credwn y dylai hyn arwain at adroddiadau mwy ystyrlon a thryloyw ar sut mae'r BBC yn helpu cynulleidfaoedd i ddysgu Gaeleg.

9.69 Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn darparu cynnwys Gaeleg yn ehangach ar draws ei wasanaethau teledu perthnasol. Fel rhan o hyn, rydyn ni'n cynnig bod yn rhaid i'r BBC nodi ei oriau arfaethedig a'i oriau o gynnwys Gaeleg sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar BBC ALBA a BBC iPlayer, ac adrodd ar ei ddarpariaeth yn ei Adroddiad Blynyddol.[274]

## Rhaglenni radio lleol ac i'r gwledydd

*Amodau newyddion*

9.70 Rydyn ni'n gwybod bod y rheini sy'n gwrando ar newyddion radio lleol ac i'r gwledydd ar y BBC yn ei werthfawrogi'n fawr.[275] Rydym yn cynnig cadw'r amodau newyddion presennol ar orsafoedd radio lleol ac i'r gwledydd ar y BBC yn unol â chadw amodau newyddion ar y teledu ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 a 4; a defnyddio'r cwotâu newyddion wythnosol ar draws y flwyddyn, yn unol â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 (gweler Adran 6).[276] Rydyn ni hefyd yn cynnig cadw'r amod i ddarparu newyddion yn achlysurol drwy gydol y

---

[271] Gweler amod 4.68.5 o'r Drwydded arfaethedig.
[272] Amod 2.24 o'r Drwydded bresennol.
[273] Gweler amodau 4.48.2 a 4.68.4 o'r drwydded arfaethedig.
[274] Gweler amod 4.68.5 o'r Drwydded arfaethedig.
[275] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig. Mae 80% o oedolion sy'n dilyn newyddion ar radio gwledydd neu radio lleol y BBC yn fodlon ag ansawdd y newyddion lleol maent yn eu darparu.
[276] Amodau 2.82.1, 2.88.1, 2.89.1, 2.95.1 a 2.95.2 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.49.1, 4.57.1, 4.58.1, 4.66.1 a 4.66.2 o'r Drwydded arfaethedig.

dydd ar orsafoedd radio lleol yn Lloegr,[277] ac rydyn ni'n cynnig cyflwyno gofyniad tebyg i ddarparu bwletinau newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd ar gyfer gorsafoedd radio'r gwledydd, er mwyn sicrhau bod newyddion yn dal ar gael yn rheolaidd.[278]

*Cwotâu cynnwys llafar*

9.71 Mae'r Drwydded yn cynnwys cwotâu sy'n mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys llafar ar ei orsafoedd radio yn y gwledydd a gorsaf radio lleol yn Lloegr yn ystod oriau craidd a'r oriau brig amser brecwast.[279] Mae'r amodau hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael cynnwys llafar sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol.

9.72 Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod ymchwil a gynhaliwyd ganddynt yn 2018 wedi dangos bod gwrandawyr gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr yn credu bod diffyg cerddoriaeth amser brecwast yn cael effaith negyddol ar eu canfyddiadau o orsafoedd radio lleol y BBC. Ychwanegodd y BBC fod pwysau ariannol wedi ei gwneud yn fwyfwy anodd darparu 100% o gynnwys llafar yn ystod yr oriau brig amser brecwast, ac hefyd cynnal lefelau ansawdd ar draws yr holl gynnwys newyddion a nodweddion. O ganlyniad, mae'r BBC wedi gofyn am ddileu'r gofyniad ar orsafoedd radio y gwledydd a'i orsafoedd radio lleol yn Lloegr i ddarparu 100% o gynnwys llafar yn ystod amser brecwast. Mae'n dadlau y gallai'r gallu i chwarae pedair neu bum cân yn ystod y cyfnod hwn helpu i hybu ymgysylltiad â newyddion lleol a gwasanaethu anghenion cynulleidfaoedd yn well ar y cyfan. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod Radiocentre yn credu bod cwotâu radio llafar y BBC (o 60% ar oriau craidd a 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau radio lleol y BBC yn wahanol i wasanaethau masnachol, sy'n darparu mwy o gerddoriaeth.[280]

9.73 Rydym hefyd yn nodi bod data gwrando ar gyfer Lloegr yn dangos bod cyrhaeddiad wythnosol y gorsafoedd hyn wedi bod yn dirywio ar y cyfan dros y tymor hir, yn enwedig ymhlith y rheini sy'n 55 oed a hŷn. Mae hyn yn cynnwys gwrando yn ystod yr oriau brig amser brecwast, lle mae'n rhaid i'r BBC ddarparu allbwn llafar 100%.[281]

9.74 Felly, rydym yn cynnig cynnal cwotâu llafar yr oriau craidd ar orsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i wasanaethu gwrandawyr â chyfran sylweddol o gynnwys llafar o ansawdd uchel (gan gynnwys newyddion lleol) yn ystod oriau craidd.[282] Ar hyn o bryd, nid ydym yn credu ei bod yn briodol dileu'r cwota oriau brig amser brecwast yn gyfan gwbl, ond rydym yn credu y dylai'r BBC gael rhywfaint o hyblygrwydd yn ystod ei raglenni brecwast er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well. Felly, rydym hefyd yn cynnig lleihau'r cwota cynnwys llafar amser brecwast i 75%, ac ychwanegu

---

[277] Rydym yn cynnig newid geiriad yr amod o "newyddion" i "fwletinau newyddion" er mwyn iddo gyd-fynd â'r amodau rydym yn eu cyflwyno ar gyfer gorsafoedd radio'r gwledydd. Amod 2.74.1 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.40.3 o'r Drwydded arfaethedig.
[278] Amodau 4.49.2, 4.57.2, 4.58.2, 4.66.3 o'r Drwydded arfaethedig.
[279] Amodau 2.71.2.73 o'r Drwydded bresennol.
[280] Radiocentre, t.36-37.
[281] RAJAR. Nodyn: Oherwydd y newid yn y fethodoleg sydd ei hangen oherwydd y cyfnod clo a chyfyngiadau Covid-19, mae angen bod yn ofalus wrth gymharu data o ddata Ch3 2021 ymlaen â Ch1 2020 ac yn gynharach. Fodd bynnag, mae data hanesyddol yn dangos dirywiad tymor hir.
[282] Amod 2.71-2.72 o'r Drwydded bresennol ac amod 4.40.1 o'r Drwydded arfaethedig.

gofyniad i'r BBC ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod yr oriau brig amser brecwast.[283]

9.75 Ar gyfer gwasanaethau radio gwledydd y BBC, nid ydym yn credu ei bod yn briodol lleihau'r cwota cynnwys llafar oriau brig amser brecwast oherwydd bod y gorsafoedd hyn yn darlledu allbwn llafar yn bennaf yn ystod y bore. Felly, rydym yn cynnig cadw'r holl gwotâu cynnwys llafar presennol ar orsafoedd radio'r gwledydd i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu newyddion a materion cyfoes a chynnwys o ddiddordeb cenedlaethol ar adegau gwrando poblogaidd.[284] Bydd yr amodau hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod gorsafoedd radio'r gwledydd yn wahanol i wasanaethau masnachol sy'n tueddu i chwarae mwy o gerddoriaeth.

### Amrywiaeth o gynnwys ar draws teledu, radio ac ar-lein

9.76 Mae amodau yn y Drwydded ar hyn o bryd sy'n mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys perthnasol mewn amrywiaeth eang o genres sy'n adlewyrchu diwylliant gwlad benodol ar wasanaethau optio allan y BBC yng ngwledydd y BBC ac ar BBC Scotland.[285] Mae amodau hefyd i'r BBC ddarparu cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i orsafoedd radio pob gwlad[286] a chynnwys perthnasol ar bob un o orsafoedd radio lleol y BBC.[287] Fodd bynnag, nid oes amodau cyfatebol i ddarparu'r allbwn hwn ar wasanaethau ar-lein y BBC nac ar BBC ALBA. Felly, yn unol ag Amcan P4 (3), a'n hegwyddor i ymgorffori darpariaeth ar-lein y BBC, rydym yn cynnig ehangu'r amodau hyn i gynnwys BBC iPlayer, BBC Sounds, gwefan y BBC a BBC ALBA.[288] Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder ar y BBC i nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu cynnwys perthnasol ar ei wasanaethau ar-lein gyda'i Gynllun Blynyddol, ac adrodd i nodi a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol.[289]

9.77 Rydym hefyd yn cynnig cadw'r dyletswyddau ar y BBC i ddarparu newyddion a gwybodaeth, cynnwys ieithoedd brodorol a chynnwys chwaraeon ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr ar BBC Ar-lein, i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu'r cynnwys hwn.[290]

9.78 Er ein bod eisiau rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddarparu mwy o raglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar ei wasanaethau ar-lein, gan gynnwys ar BBC iPlayer a BBC Sounds, cyfyngedig yw budd hyn i gynulleidfaoedd os nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno gofynion i sicrhau bod y BBC yn gwneud yn siŵr ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn y

---

[283] Amodau 4.40.2 - 4.40.4 o'r Drwydded arfaethedig. Y gofyniad ar hyn o bryd yw darparu 100% o raglenni llafar yn ystod yr oriau brig amser brecwast, gweler amod 2.71.2 o'r Drwydded bresennol.
[284] Amod 2.71-2.72 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.35-4.36 o'r Drwydded arfaethedig.
[285] Amodau 2.79, 2.80.1, 2.80.2, 2.86 a 2.92 o'r Drwydded bresennol
[286] Amodau 2.82.3, 2.83.2, 2.88.2, 2.89.2, 2.95.3 o'r Drwydded bresennol.
[287] Amod 2.74.2 o'r Drwydded bresennol.
[288] Gweler amodau 4.37, 4.42, 4.43, 4.51, 4.52, 4.59 a 4.60 o'r Drwydded arfaethedig.
[289] Gweler amod 4.68.1 o'r Drwydded arfaethedig.
[290] Amodau 2.77, 2.84, 2.90 a 2.96 o'r Drwydded bresennol ac amodau 4.38, 4.44, 4.53 a 4.61 o'r Drwydded arfaethedig.

gwledydd a’r rhanbarthau (gan gynnwys ei newyddion a’i wybodaeth, cynnwys mewn ieithoedd brodorol a chynnwys chwaraeon).[291]

## Y gofynion o ran tryloywder

9.79 Yn ogystal â’r gofynion tryloywder penodol a amlinellir uchod, rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad ehangach ar y BBC i nodi bob blwyddyn yn ei Gynllun Blynyddol pa gamau y mae’n bwriadu eu cymryd i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr. Bydd angen i’r BBC nodi unrhyw newidiadau sylweddol y mae’n bwriadu eu gwneud i’w ddarpariaeth bresennol, a’r rhesymau dros y newidiadau hynny. Bydd angen i’r BBC hefyd gyflwyno adroddiad ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ynghylch a yw wedi cyflawni’r cynlluniau hyn, gan gynnwys a yw wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol, a nodi’r rhesymau drostynt.

9.80 Wrth nodi ei gynlluniau ar gyfer rhaglenni ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau, byddem yn disgwyl i’r BBC egluro sut mae wedi ystyried anghenion cynulleidfaoedd, er enghraifft drwy gynnal ymchwil â’r gynulleidfa, neu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

> **Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad:** Ydych chi’n cytuno â’n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

[291] Amodau 4.39, 4.45, 4.54 a 4.62 o’r Drwydded arfaethedig.

# 10. Y camau nesaf

10.1 Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 14 Medi 2022. Byddwn wedyn yn adolygu ymatebion rhanddeiliaid ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n cynigion, cyn cyhoeddi datganiad terfynol a Thrwydded Weithredu newydd ddechrau 2023. Rydym yn cynnig y byddai'r Drwydded Weithredu newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

## Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar newidiadau posibl i'r Cytundeb i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus

10.2 Ochr yn ochr â'n cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd y BBC, rydym wedi nodi ein safbwyntiau cychwynnol, drwy gydol yr ymgynghoriad hwn, ynghylch lle gallai newidiadau posibl i'r Cytundeb gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Er mwyn eglurder, ailadroddir y rhain isod.

### Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

10.3 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau i sicrhau bod cyfran addas o'r holl raglenni rhwydwaith yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25. Rydym o'r farn bod y cwotâu hyn yn dal yn bwysig o ran sicrhau bod y BBC yn parhau i gefnogi'r economïau creadigol ledled y DU, gan gynnwys ym mhob un o'r gwledydd. Fodd bynnag, dim ond ar ei wasanaethau teledu rhwydwaith y gall y BBC ddarparu'r cwota hwn ar hyn o bryd.

10.4 Un o brif egwyddorion ein Trwydded Weithredu arfaethedig yw y dylai'r BBC allu darparu cynnwys lle mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau – ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-lein. Fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, rydym wedi argymell bod y Llywodraeth yn ystyried diwygio'r Cytundeb er mwyn i Ofcom allu pennu'r cwotâu ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25, sy'n berthnasol i raglenni sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith ac ar gyfer BBC iPlayer.

### Rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau

10.5 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau optio allan gyda'i gilydd i sicrhau bod rhywfaint o newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn cael eu darparu ar draws yr holl fersiynau cenedlaethol a rhanbarthol o BBC One a BBC Two.[292]

10.6 Ar gyfer cynnwys heb fod yn newyddion, rydym o'r farn y byddai gofyn i'r BBC ddarparu'r cynnwys hwn, ynghyd â gofynion tryloywder, yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well, yn hytrach na chwota. Felly, fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, rydym yn argymell bod y

[292] Atodlen 2(6)(1) o'r Cytundeb.

llywodraeth yn ystyried diwygio'r Cytundeb i ddileu'r gofyniad i Ofcom osod cwotâu ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

## Cynyrchiadau gwreiddiol

10.7 Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar bob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU. Ar hyn o bryd, rydym yn credu bod y cwotâu hyn yn dal i chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod y BBC yn cyflwyno cyfran sylweddol o gynnwys gwreiddiol o'r DU i gynulleidfaoedd ac o ran capio rhaglenni sy'n cael eu prynu ar wasanaethau teledu unigol sy'n cael eu darlledu. Fodd bynnag, wrth i'r sector darlledu esblygu ymhellach, ac wrth i'r BBC barhau i drawsnewid sut mae'n darparu ei gynnwys, efallai y bydd cyfnod pan ddylai'r BBC gael hyblygrwydd ychwanegol i ymateb i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a chael mwy o gyfle i strwythuro ei raglenni gwreiddiol ar draws ystod ei wasanaethau teledu a BBC iPlayer, lle mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau. Yn benodol, byddai cwota cynyrchiadau gwreiddiol sy'n niwtral o ran gwasanaeth yn caniatáu i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu'r cynnwys hwn ar draws ei holl wasanaethau teledu ac ar-lein.

10.8 Fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, rydym yn argymell bod y llywodraeth yn ystyried diwygio'r Cytundeb, fel na fydd yn rhaid i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu mwyach. Yn hytrach, byddai'n rhaid i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol sy'n rhoi hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar ba wasanaethau teledu ac ar-lein y byddent yn cyflawni'r cwotâu.

DC1 DC2 DC3 DC4

# A1. Geirfa

**Rhaglenni a brynir:** rhaglenni nad ydynt yn cael eu comisiynu gan y BBC nac ar ei gyfer, ond sy’n cael eu darlledu neu eu darparu ar un o wasanaethau’r BBC.

**Genres mewn perygl:** genres sy’n cyfrannu’n benodol at y Genhadaeth a’r Dibenion Cyhoeddus nad ydynt yn cael eu darparu’n ddigonol neu sy’n dirywio ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant.

**Gwasanaethau fideo ar-alw (BVoD):** gwasanaethau fideo ar-alw rhad ac am ddim gan y prif ddarlledwyr, gan gynnwys BBC iPlayer, ITV Hub, All 4, My5 (mae’r gwasanaethau hyn yn cynnig mwy na dim ond fideo ar-alw ond cyfeirir atynt fel BVoD er hwylustod).

**Teledu a ddarlledir:** sydd hefyd yn cael ei alw’n deledu llinol – rhaglenni teledu sy’n cael eu dangos ar sianel deledu.

**Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf:** rhaglenni sy’n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu’r BBC, nad ydynt wedi bod ar gael ar-lein nac wedi cael eu dangos ar deledu o’r blaen yn y Deyrnas Unedig.

**Adolygiad Canol Tymor o Siarter y BBC:** mae’r Siarter yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad canol tymor sy’n canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu a rheoleiddio’r BBC. Ni ddylid cynnal yr Adolygiad cyn 2022 a rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn 2024[293].

**Cynnwys ar-alw:** cynnwys ydy hwn sydd ar gael i bobl ei ddefnyddio ar amser o’u dewis, o blith catalog o raglenni a gynigir gan ddarparwr gwasanaeth (ee BBC iPlayer).

**Gwasanaeth optio allan**: yr amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli’r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).

**Cynyrchiadau gwreiddiol:** rhaglenni sy’n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu’r BBC, gan gynnwys ailddarllediadau.

**Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs):** y BBC, trwyddedeion Channel 3 (ITV ac STV), Channel 4, Channel 5 ac S4C.

**Niwtral o ran gwasanaeth:** darparu cynnwys drwy deledu neu radio a ddarlledir, neu ar-lein.

**Fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD):** Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio y telir amdanynt fel Netflix, Amazon Prime Video a NOW. Er bod y gwasanaethau hyn yn cynnig mwy na dim ond fideo ar-alw (ee ffrydio, sianeli teledu a ddarlledir y telir amdanynt, yn ogystal â chynnwys i'w brynu neu rentu) maent yn cael eu categoreiddio fel SVoD yn yr ymgynghoriad hwn er hwylustod.

[293] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 26 Mai 2022. Adolygiad Canol Tymor y BBC: Cylch Gorchwyl.

# A2. Cymharu’r Drwydded Weithredu bresennol a’r Drwydded Weithredu ddrafft

## Pwrpas y ffurflen hon

A2.1 Mae ein Trwydded arfaethedig yn cadw rhai amodau o’r Drwydded bresennol, yn diwygio ac yn cael gwared ar rai eraill, ac yn ychwanegu rhai newydd. Isod, ceir tabl cyfeirio sy’n nodi ar gyfer pob un o amodau'r Drwydded bresennol, a yw wedi cael ei drosglwyddo i’r Drwydded arfaethedig a lle mae modd dod o hyd iddo.

A2.2 Mae pob un o amodau’r drwydded wedi cael un o’r statws canlynol:

a) Cadw: mae’r amod wedi cael ei drosglwyddo i’r drwydded arfaethedig. Gall hyn gynnwys mân newidiadau drafftio (er enghraifft er mwyn egluro ystyr) nad ydynt yn effeithio ar sylwedd yr amod.

b) Diwygio: mae’r amod wedi cael ei drosglwyddo i’r drwydded arfaethedig gyda rhai newidiadau sylweddol. Gall hyn gynnwys newid y cyfnod amser y mae amod yn berthnasol iddo, newid lefel cwota neu amrywio iaith amod yn ddigon sylweddol i newid ei effaith.

c) Disodli: mae’r amod wedi cael ei ddisodli gan ofyniad newydd o fath gwahanol. Gall hyn gynnwys cwota yn cael ei ddisodli gan amod disgrifiadol mwy cyffredinol, gofyniad tryloywder neu gyfuniad o wahanol amodau.

d) Dileu: mae’r amod wedi cael ei ddileu o’r drwydded arfaethedig.

A2.3 Mae’r Drwydded arfaethedig wedi cael ei chymharu â fersiwn Gyfunol y Drwydded Weithredu ar 19 Mai 2022.

## Tabl cymharu trwyddedau

| Y Drwydded Bresennol | Y Drwydded Arfaethedig | Statws |
|---|---|---|
| **Diben Cyhoeddus 1** | | |
| 2.4 | 1.4 | Cadw |
| 2.4.1 | 1.4.1 | Cadw |
| 2.4.2 | 1.4.2 | Cadw |
| 2.4.3 | 1.4.3 | Cadw |
| 2.5 | 1.5 | Cadw |
| 2.5A | 1.6 | Cadw |
| 2.6 | 1.7 | Cadw |
| 2.6.1 | 1.7.1 | Diwygio |
| 2.6.2 | 1.7.2 | Cadw |
| 2.7 | - | Dileu |
| 2.7.1 | - | Dileu |
| 2.7.2 | - | Dileu |

| | | |
|---|---|---|
| 2.8 | 1.8 | Cadw |
| 2.8.1 | 1.8.1, 1.8.2, 1.8.3 | Diwygio |
| 2.8.2 | 1.8.3 | Diwygio |
| 2.9 | 1.9 | Cadw |
| 2.9.1 | 1.9.1, 1.9.2, 1.9.3 | Diwygio |
| 2.9.2 | 1.9.3 | Diwygio |
| 2.10 | 1.10 | Cadw |
| 2.10.1 | 1.10.1 | Diwygio |
| 2.10.2 | 1.10.2 | Diwygio |
| 2.11 | 1.11 | Cadw |
| 2.12 | 1.12 | Cadw |
| 2.12.1 | 1.12.1 | Cadw |
| 2.12.2 | 1.12.2 | Cadw |
| 2.13 | 1.13 | Cadw |
| 2.13.1 | 1.13.1 | Cadw |
| 2.13.2 | 1.13.2 | Cadw |
| 2.14 | 1.14, 1.14.1, 1.14.2 | Diwygio |
| 2.15 | 1.15, 1.15.1, 1.15.2 | Diwygio |
| 2.16 | - | Dileu |
| 2.17 | 1.2 | Cadw |
| 2.17.1 | 1.2.3 | Cadw |
| 2.17.2 | 1.2.2 | Cadw |
| - | 1.2.1 | Newydd |
| - | 1.3 | Newydd |
| - | 1.3.1 | Newydd |
| - | 1.3.2 | Newydd |
| - | 1.3.3 | Newydd |
| - | 1.16 | Newydd |
| - | 1.17 | Newydd |
| **Diben Cyhoeddus 2** | | |
| 2.18 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.19 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.20 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.21 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.22 | 2.5 | Cadw |
| 2.23 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.23.1 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.23.2 | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.24 | 2.2, 4.48.2, 4.68.4.1, 4.68.4.2 | Disodli |
| 2.25 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.1 | Disodli |
| 2.26 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.1 | Disodli |
| 2.27 | 2.2, 3.8.3 | Disodli |

| | | |
|---|---|---|
| 2.27.1 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.2 | Disodli |
| 2.27.2 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.1 | Disodli |
| 2.27.3 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.4 | Disodli |
| 2,28 | 3,11 | Cadw |
| 2.28.1 | 3.11.1 | Cadw |
| 2.28.2 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.5 | Disodli |
| 2.28.3 | 3.11.2 (gweler hefyd amod 3.14.5.6) | Disodli |
| 2.28.4 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.3 | Disodli |
| 2.29 | 2.2, 3.8.3 | Disodli |
| 2.29.1 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.1 | Disodli |
| 2.29.2 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.4 | Disodli |
| 2.30 | 2.2, 3.8.3, 3.14.5.1 | Disodli |
| 2.31 | 2.4 | Cadw |
| - | 2.2 | Newydd |
| - | 2.3 | Newydd |
| - | 2.6 | Newydd |
| - | 2.7 | Newydd |
| **Diben Cyhoeddus 3** | | |
| 2.32 | 3.7 | Cadw (diwygio ar gyfer BBC Four) |
| 2.32.1 | 3.7.1 | Cadw |
| 2.32.2 | 3.7.2 | Cadw |
| 2.32A | 3,7 | Cadw |
| 2.32A.1 | 3.7.1 | Cadw |
| 2.32A.2 | 3.7.1 | Cadw |
| 2,33 | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2,34 | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2.34A | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2.35 | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2.35A | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2.36 | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2.36A | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| 2.37 | 5.1, 3.6 | Cadw |
| 2.37.1 | 5.1 | Cadw |
| 2.37.2 | 3.6 | Cadw |
| 2.37A | 5.1, 3.6 | Cadw |
| 2.37A.1 | 5,1 | Cadw |
| 2.37A.2 | 3.6 | Cadw |
| 2.38 | 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| 2.39 | 3,9 | Cadw |
| 2.39.1 | 3.9.1 | Cadw |
| 2.39.2 | 3.9.2 | Cadw |

| | | |
|---|---|---|
| 2.39.3 | 3.9.3 (gweler hefyd amod 3.15.3) | Diwygio |
| 2.39.4 | 3.9.4 | Cadw |
| 2.39.5 | 3.9.5 | Cadw |
| 2.39.6 | 3.9.6 (gweler hefyd amod 3.14.5.7) | Disodli |
| 2.40 | 3.10 | Cadw |
| 2.40.1 | 3.10.1 | Cadw |
| 2.40.2 | 3.10.2 | Cadw |
| 2.40.3 | 3.10.3 | Cadw |
| 2.40.4 | 3.10.4 (gweler hefyd amod 3.15.3) | Cadw |
| 2.40.5 | 3.10.5 | Cadw |
| 2.41 | 3.12 (gweler hefyd amod 3.15.2) | Cadw |
| - | 3.2 | Newydd |
| - | 3.2.1 | Newydd |
| - | 3.2.2 | Newydd |
| - | 3.2.3 | Newydd |
| - | 3.2.4 | Newydd |
| - | 3.3 | Newydd |
| - | 3.4 | Newydd |
| - | 3.4.1 | Newydd |
| - | 3.4.2 | Newydd |
| - | 3.4.4 | Newydd |
| - | 3.8 | Newydd |
| - | 3.8.1 | Newydd |
| - | 3.8.2 | Newydd |
| - | 3.8.4 | Newydd |
| - | 3.13 | Newydd |
| - | 3.14 | Newydd |
| - | 3.14.1 | Newydd |
| - | 3.14.2 | Newydd |
| - | 3.15 | Newydd |
| - | 3.15.1 | Newydd |
| - | 3.15.2 | Newydd |
| - | 3.15.3 | Newydd |
| **Diben Cyhoeddus 4** | | |
| 2.42 | 4.2 | Diwygio |
| 2.42.1 | 4.2.1 | Diwygio |
| 2.42.2 | 4.2.2 | Diwygio |
| 2.42.3 | 4.2.3 | Diwygio |
| 2.42.4 | 4.2.4 | Diwygio |

| | | |
|---|---|---|
| 2.42.5 | 4.2.5 | Diwygio |
| 2.43 | 4.3 | Diwygio |
| 2.44 | 4.4 | Diwygio |
| 2.44.1 | 4.4.1 | Diwygio |
| 2.44.2 | 4.4.2 | Diwygio |
| 2.44.3 | 4.4.3 | Diwygio |
| 2.45 | 4.5, 4.6 | Diwygio |
| 2.45.1 | 4.5 | Diwygio |
| 2.45.2 | 4.6 | Diwygio |
| 2.46 | 4.7 | Cadw |
| 2.47 | 4.8 | Cadw |
| 2.47.1 | 4.8.1 | Cadw |
| 2.47.2 | 4.8.2 | Cadw |
| 2.47.3 | 4.8.3 | Cadw |
| 2.48 | 4.9 | Cadw |
| 2.49 | 4.11 | Cadw |
| 2.49.1 | 4.11.1 | Cadw |
| 2.49.2 | 4.11.2 | Cadw |
| 2.50 | 4.12 | Cadw |
| 2.50.1 | 4.12.1 | Cadw |
| 2.50.2 | 4.12.2 | Diwygio |
| 2.50.3 | 4.12.3 | Diwygio |
| 2.50.4 | 4.12.4 | Cadw |
| 2.51 | 4.13 | Cadw |
| 2.52 | 4.14 | Cadw |
| 2.52A | 4,25 | Cadw |
| 2.53 | 4.15 | Cadw |
| 2.53.1 | 4.15.1 | Cadw |
| 2.53.1 (gwall rhifo, dylai fod yn 2.53.2) | 4.15.2 | Cadw |
| 2.53.2 (gwall rhifo, dylai fod yn 2.53.3) | 4.15.3 | Cadw |
| 2.54 | 4.16 | Cadw |
| 2.54.1 | 4.16.1 | Cadw |
| 2.54.2 | - | Dileu |
| 2.54.3 | 4.16.2 | Cadw |
| 2.55 | 4.17 | Cadw |
| 2.56 | 4.18 | Cadw |
| 2.56.1 | 4.18.1 | Cadw |
| 2.56.2 | 4.18.2 | Cadw |
| 2.57 | 4.19 | Cadw |
| 2.58 | 4.20 | Cadw |
| 2.58.1 | - | Dileu |

| | | |
|---|---|---|
| 2.58.2 | 4.20.1 | Cadw |
| 2.58.3 | 4.20.2 | Cadw |
| 2.59 | 4.21 | Cadw |
| 2.60 | 4.22 | Cadw |
| 2.60.1 | - | Dileu |
| 2.60.2 | 4.22.1 | Cadw |
| 2.60.3 | 4.22.2 | Cadw |
| 2.61 | 4.23 | Cadw |
| 2.62 | 4.24 | Cadw |
| 2.63 | 4.27 | Cadw |
| 2.64 | 4.28 | Diwygio |
| 2.65 | 4.29 | Cadw |
| 2.65.1 | 4.29.1 | Cadw |
| 2.65.2 | 4.29.2 | Cadw |
| 2.65.3 | 4.29.3 | Cadw |
| 2.65.4 | 4.29.4 | Cadw |
| 2.65.5 | 4.29.5 | Cadw |
| 2,66 | 4,30 | Cadw |
| 2.67 | 4.31 | Cadw |
| 2.67.1 | - | Dileu |
| 2.67.2 | 4.31.1 | Cadw |
| 2.67.3 | 4.31.2 | Cadw |
| 2.67.4 | 4.31.3 | Cadw |
| 2.67.5 | - | Dileu |
| 2.67.6 | 4.31.4 | Cadw |
| 2.67.7 | - | Dileu |
| 2.67.8 | 4.31.5 | Cadw |
| 2.68 | 4.32 | Cadw |
| 2.69 | 4.33 | Cadw |
| 2.70 | 4.34 | Cadw |
| 2.71 | 4.35 | Cadw |
| 2.71.1 | 4.35.1 | Cadw |
| 2.71.2 | 4.35.2 | Cadw |
| 2.72 | 4.36 | Cadw |
| 2.72.1 | 4.40.1 (oriau craidd); 4.40.2 (oriau brig amser brecwast) | Cadw amod oriau craidd; diwygio amod oriau brig amser brecwast |
| 2.72.2 | 4.36.1 | Cadw |
| 2.72.3 | 4.36.2 | Cadw |
| 2.72.4 | 4.36.3 | Cadw |
| 2.72.5 | 4.36.4 | Cadw |
| 2.72.6 | 4.36.5 | Cadw |
| 2.73 | 5.1 | Cadw |
| 2.74 | 4.40 | Cadw |

| | | |
|---|---|---|
| 2.74.1 | 4.40.3 | Cadw |
| 2.74.2 | 4.40.5 | Cadw |
| 2.75 | 4.40.6 | Diwygio |
| 2.76 | 4.41 | Diwygio |
| 2.77 | 4.38 | Cadw |
| 2.77.1 | 4.38.1 | Cadw |
| 2.77.2 | 4.38.2 | Cadw |
| 2.78 | 4.46 | Cadw |
| 2.78.1 | 4.46.1 | Cadw |
| 2.78.2 | 4.46.2, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| 2.79 | 4.42 | Cadw |
| 2.80 | 4.47 | Cadw |
| 2.80.1 | 4.42 | Cadw |
| 2.80.2 | 4.42 | Cadw |
| 2.80.3 | 4.47.1 | Cadw |
| 2.80.4 | - | Dileu |
| 2.80.5 | 4.47.2 | Cadw |
| 2.81 | 4.48, 4.48.1 | Cadw |
| 2.82 | 4.49 | Cadw |
| 2.82.1 | 4.49.1, 4.49.2 | Diwygio |
| 2.82.2 | 4.49.3 | Cadw |
| 2.82.3 | 4.42, 4.43 | Cadw |
| 2.83 | 4.50, 4.43 | Cadw |
| 2.83.1 | 4.50 | Cadw |
| 2.83.2 | 4.42, 4.43 | Cadw |
| 2.84 | 4.44 | Cadw |
| 2.84.1 | 4.44.1 | Cadw |
| 2.84.2 | 4.44.3 | Cadw |
| 2.84.3 | 4.44.2 | Cadw |
| 2.85 | 4.55 | Cadw |
| 2.85.1 | 4.55.1 | Cadw |
| 2.85.2 | 4.55.2, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| 2.86 | 4.51 | Cadw |
| 2.87 | 4.56, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| 2.88 | 4.57 | Cadw |
| 2.88.1 | 4.57.1, 4.57.2 | Diwygio |
| 2.88.2 | 4.51, 4.52 | Cadw |
| 2.89 | 4.58 | Cadw |
| 2.89.1 | 4.58.1, 4.58.2 | Diwygio |
| 2.89.2 | 4.51, 4.52 | Diwygio |
| 2.90 | 4.53 | Cadw |
| 2.90.1 | 4.53.1 | Cadw |
| 2.90.2 | 4.53.3 | Cadw |

| | | |
|---|---|---|
| 2.90.3 | 4.53.2 | Cadw |
| 2.91 | 4.63 | Cadw |
| 2.91.1 | 4.63.1 | Cadw |
| 2.91.2 | 4.63.2, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| 2.92 | 4.59 | Cadw |
| 2.93 | 4.64, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| 2.94 | 4.65 | Diwygio |
| 2.95 | 4.66 | Cadw |
| 2.95.1 | 4.66.1, 4.66.3 | Diwygio |
| 2.95.2 | 4.66.2, 4.66.3 | Diwygio |
| 2.95.3 | 4.59, 4.60 | Cadw |
| 2.95.4 | 4.66.4 | Cadw |
| 2.96 | 4.61 | Cadw |
| 2.96.1 | 4.61.1 | Cadw |
| 2.96.2 | 4.61.3 | Cadw |
| 2.96.3 | 4.61.2 | Cadw |
| 2.97 | - | Dileu |
| - | 4.1 | Newydd |
| - | 4.8.4 | Newydd |
| - | 4.8.5 | Newydd |
| - | 4.10 | Newydd |
| - | 4.37 | Newydd |
| - | 4.39 | Newydd |
| - | 4.39 | Newydd |
| - | 4.40.4 | Newydd |
| - | 4.42 | Newydd |
| - | 4.43 | Newydd |
| - | 4.45 | Newydd |
| - | 4.47.3 | Newydd |
| - | 4.51 | Newydd |
| - | 4.52 | Newydd |
| - | 4.54 | Newydd |
| - | 4.59 | Newydd |
| - | 4.60 | Newydd |
| - | 4.62 | Newydd |
| - | 4.67 | Newydd |
| - | 4.68 | Newydd |
| - | 4.68.1 | Newydd |
| - | 4.68.2 | Newydd |
| - | 4.68.3 | Newydd |
| - | 4.68.3.1 | Newydd |
| - | 4.68.3.2 | Newydd |
| - | 4.68.4 | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| - | 4.68.4.1 | Newydd |
| - | 4.68.4.2 | Newydd |
| - | 4.68.5 | Newydd |
| - | 4.68.5.1 | Newydd |
| - | 4.68.5.2 | Newydd |
| - | 4,69 | Newydd |
| **Diffiniadau a dehongliadau** | | |
| 3.1 | 5.1 | Diwygio |
| 3.2 | 5.2 | Cadw |
| 3.3 | - | Dileu |
| 3.4 | 5.3 | Cadw |
| 3.5 | 5.4 | Cadw |
| 3.6 | 5.5 | Cadw |
| 3.7 | 4.26, 4.26.1 | Diwygio |
| 3.8 | 4.26, 4.26.2 | Diwygio |

# A3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Cyflwyniad

A3.1 Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn asesu effaith bosibl ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac ymarferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.[294] Rydym yn cyfeirio at bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig yma fel 'grwpiau cydraddoldeb'. Rydym yn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn edrych ar effaith bosibl ein polisi arfaethedig ar bobl, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ni waeth beth ydy eu cefndir a'u hunaniaeth.

A3.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

## Nodau ein hymgynghoriad

A3.3 Mae'r ymgynghoriad yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rydym yn ymgynghori ar osod amodau ar gyfer Trwydded Weithredu newydd. Rydym yn credu y bydd sicrhau bod Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC yn cael eu cyflawni o dan y Drwydded hon yn dod â manteision i gynulleidfaoedd yn gyffredinol, ac yn enwedig i grwpiau cydraddoldeb.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A3.4 Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac rydym yn crynhoi ein hasesiad isod. Yn gyntaf, rydym yn ystyried ein cynigion yn ôl pob diben cyhoeddus, yna'n ystyried ein dyletswyddau yng nghyswllt Gogledd Iwerddon, ac yn olaf, rydym yn nodi cynigion ar gyfer BBC4.

A3.5 Mae'r gofyniad i'r BBC 'wasanaethu pob cynulleidfa' yn ystyriaeth allweddol o hyd wrth bennu'r Drwydded Weithredu hon.[295] Felly, rydym o'r farn y byddai amodau arfaethedig y Drwydded yn berthnasol i'r grwpiau cydraddoldeb ac y gallent gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau amrywiaeth canlynol yn benodol:

a) cynulleidfaoedd iau;

b) menywod;

---

[294] Fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

[295] Cenhadaeth y BBC, fel y'i diffinnir yn y Siarter, yw "gweithredu er lles y cyhoedd, gan **wasanaethu pob cynulleidfa** drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".

c) pobl anabl;

d) cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;

e) pobl sy'n ystyried bod ganddynt grefydd benodol;

f) pobl sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

A3.6 Rydym hefyd o'r farn y gallai amodau arfaethedig y Drwydded fod o fudd i grwpiau ychwanegol o ddinasyddion a defnyddwyr, y tu hwnt i'r grwpiau cydraddoldeb, fel pobl sy'n byw yn y gwledydd a'r rhanbarthau, y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a'r rheini sy'n dibynnu ar deledu a radio sy'n cael eu darlledu.

A3.7 Isod, rydym yn crynhoi'r cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd yn ôl Diben Cyhoeddus, ac yn tynnu sylw at yr amodau a fyddai, yn ein barn ni, yn arbennig o berthnasol i'r grwpiau cydraddoldeb hyn.

## Diben Cyhoeddus 1 - newyddion a materion cyfoes

A3.8 Mae darparu newyddion cywir, dibynadwy ac o ansawdd uchel yn ganolog i gylch gwaith y BBC. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig cadw'r cwotâu presennol i sicrhau bod allbwn o'r fath ar gael yn rhwydd. Rydym yn cydnabod bod cynulleidfaoedd yn cael gafael ar fwy o newyddion ar-lein, felly rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion newydd i'r BBC sicrhau bod rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar gael bob dydd ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

A3.9 Rydym yn credu y dylai gofynion newydd i sicrhau bod newyddion a materion cyfoes ar gael bob dydd ar-lein fod o fudd i gynulleidfaoedd iau, sy'n fwy tebygol o gael gafael ar gynnwys ar-lein (amodau 1.2 ac 1.3). Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol i'r BBC ddarparu newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau darlledu i sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael gwasanaeth da (amodau 1.4-1.17). Gallai hyn fod o fudd arbennig i bobl hŷn sydd efallai'n ffafrio defnyddio gwasanaethau darlledu traddodiadol, neu bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is nad ydynt o bosibl yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd gartref.[296] Rydym hefyd yn nodi y bydd cynulleidfaoedd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU yn parhau i elwa o newyddion a materion cyfoes lleol (gweler diben cyhoeddus 4 isod). Yn olaf, rydym o'r farn y bydd cadw'r cwotâu newyddion radio ar gyfer BBC Radio 1Xtra (amod 1.9) a BBC Asian Network (amod 1.15) yn parhau i helpu i gyrraedd a gwasanaethu cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig ac Asiaidd gydag allbwn newyddion.

## Diben Cyhoeddus 2 - dysgu

A3.10 Mae'r BBC yn ddarparwr cynnwys dysgu pwysig i gynulleidfaoedd o bob oed, ac mae wedi perfformio'n gryf hyd yma o ran darparu'r cynnwys hwn. Felly, mae ein cynigion yn canolbwyntio ar gryfhau'r wybodaeth mae'r BBC yn ei chyhoeddi am sut mae'n cyflawni Diben Cyhoeddus 2, yn ogystal â rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu cynnwys dysgu i gynulleidfaoedd o bob oed ar draws ei wasanaethau darlledu ac ar-lein.

[296] Nid oes gan 20% o'r rheini sy'n 65 oed a hŷn, ac 14% o'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, fynediad i'r rhyngrwyd gartref (Ofcom, Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2021: Arolwg omnibws CATI).

A3.11 Rydym o’r farn y bydd mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys dysgu i oedolion a phlant o bob oed ar draws ei wasanaethau darlledu ac ar-lein yn sicrhau bod y BBC yn parhau i hwyluso ac annog dysgu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (amodau 2.1-2.7). Rydym yn cydnabod bod risg y gallai cynulleidfaoedd sydd heb fynediad i’r rhyngrwyd gartref fod ar eu colled, er enghraifft efallai na fydd plant a phobl ifanc yn eu harddegau o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn gallu cael gafael ar gynnwys dysgu ffurfiol y BBC ar-lein. Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol i’r BBC ddarparu cynnwys dysgu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran ar ei wasanaethau darlledu (amodau 2.2, 2.3, 2.5 a 2.6).

## Diben Cyhoeddus 3 - natur unigryw

A3.12 Mae natur unigryw wrth galon y BBC – rhaid iddo gynnig allbwn a gwasanaethau sy’n wahanol iawn i ddarparwyr tebyg. Cynnwys gwreiddiol o’r DU yw sylfaen y natur unigryw hwn, ac felly rydym yn cynnig cadw cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf, gan roi hyblygrwydd i’r BBC ddarparu rhywfaint o allbwn sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar BBC iPlayer. Ar gyfer genres, rhaglenni dogfen a rhai rhaglenni cerddoriaeth, rydym yn cynnig disodli cwotâu â rhwymedigaethau sy’n mynnu bod y BBC yn dryloyw ynghylch ei gynlluniau a’i berfformiad. Ar gyfer gweddill yr amodau radio, rydym yn cynnig cadw’r cwotâu rydym yn credu sy’n bwysig iawn o ran sicrhau bod y BBC yn unigryw.

A3.13 Rydym o’r farn y bydd caniatáu i’r BBC ddarparu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol o’r DU ar wasanaethau darlledu ac ar-lein o fudd i rai grwpiau cynulleidfa, gan gynnwys pobl iau (amod 3.5). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod risg bosibl o roi mwy o hyblygrwydd i’r BBC o ran sut mae’n darparu genres mewn perygl (amodau 3.2, 3.4 a 3.8). Er enghraifft, pe bai’r BBC yn lleihau ei raglenni crefyddol yn sylweddol, gallai hynny gael effaith negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau neu gredoau. Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol i’r BBC ddarparu amrywiaeth o gynnwys gan gynnwys genres sydd mewn perygl, yn ogystal â nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni a rhoi rhesymau dros unrhyw newidiadau arwyddocaol, er enghraifft, unrhyw newidiadau mewn lefelau allbwn. Pan fo’n briodol, byddwn yn asesu’r newidiadau y mae’r BBC yn bwriadu eu gwneud ac yn ystyried yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys grwpiau cydraddoldeb.

## Diben Cyhoeddus 4 - y gwledydd a’r rhanbarthau, ac amrywiaeth

A3.14 Mae’n rhaid i’r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig cadw cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a’r rhanbarthau. Rydym hefyd yn cynnig cryfhau’r gofynion tryloywder sy’n ceisio dal y BBC i gyfrif am sut mae’n cynrychioli cymunedau amrywiol y DU, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Yn unol â’n cynigion i ddileu cwotâu ar gyfer genres, rydym hefyd yn cynnig disodli cwotâu rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes y BBC ar y fersiynau cenedlaethol a rhanbarthol o BBC One a BBC Two gyda rhwymedigaethau sy’n gofyn am dryloywder gan y BBC ar ei gynlluniau.

A3.15 Mae ffocws amrywiaeth Diben Cyhoeddus 4 yn golygu bod amodau'r Drwydded arfaethedig yn y maes hwn yn arbennig o berthnasol i grwpiau cydraddoldeb. Er enghraifft, bwriad amod 4.1 yw sicrhau bod y BBC yn dangos sut mae ei wasanaethau wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU gyfan yn y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, mae amodau 4.2-4.6 yn darparu gofynion adrodd ychwanegol i sicrhau bod y BBC yn gwneud cynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau cynrychiolaeth a phortreadu. Rydym yn cynnig diwygio'r amodau hyn i fynnu bod y BBC yn cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn gyhoeddus, yn hytrach nag adrodd yn uniongyrchol i Ofcom, er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r BBC yn arwain y diwydiant o ran faint o wybodaeth am amrywiaeth mae'n ei chasglu a'i chyhoeddi, a byddwn yn gweithio gyda phob darlledwr – gan gynnwys y BBC – dros y blynyddoedd nesaf i'w hannog i gasglu a rhannu set gyfoethocach o ddata am amrywiaeth eu gweithluoedd. Rydym o'r farn y dylai hyn arwain at amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol i'r grwpiau cydraddoldeb sydd wedi cael eu rhestru uchod.

A3.16 Ar ben hynny, rydym yn credu y bydd amodau arfaethedig y Drwydded o fudd i siaradwyr a dysgwyr ieithoedd cynhenid. Er enghraifft, bwriad amodau 4.44.3, 4.53.3 a 4.61.3 yw sicrhau bod y BBC yn darparu cynnwys Gaeleg, Cymraeg, Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar BBC Ar-lein yn y drefn honno. Rydym hefyd o'r farn y bydd newid y cwota ar BBC ALBA am amod trwydded (amod 4.48.2) a gofynion tryloywder (amod 4.68.4), a chaniatáu i gynnwys BBC iPlayer gyfrif tuag at y gofynion hyn, yn caniatáu i fwy o gynulleidfaoedd gael gafael ar gynnwys dysgu Gaeleg, a mynnu bod y BBC yn fwy tryloyw ynghylch sut mae'n darparu'r allbwn hwn.

## Gogledd Iwerddon

A3.17 Mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn mynnu bod y BBC yn cynhyrchu ystod o raglenni ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr yng Ngogledd Iwerddon, ac yn cynhyrchu rhaglenni yng Ngogledd Iwerddon a fydd yn cael eu darlledu ar draws y DU. Rydym yn cynnig cadw'r gofynion hyn gyda rhai diwygiadau i gydnabod newidiadau yn y dirwedd cyfryngau ac yn arferion cynulleidfaoedd. Er enghraifft, caniatáu i gynnwys sy'n cael ei ddarparu ar wasanaethau ar-lein y BBC gyfrif tuag at rai o'i gwotâu. Ar y sail hon, nid ydym yn credu y bydd ein dull gweithredu polisi yn cael effaith niweidiol ar unrhyw rai o gategorïau cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Felly ein casgliad cychwynnol yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb manylach mewn perthynas â Gogledd Iwerddon ar gyfer y dulliau gweithredu polisi sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon.

## Cais BBC Four am newidiadau

A3.18 Rydym hefyd wedi ystyried sut byddai newidiadau roedd y BBC wedi gofyn amdanynt ar gyfer amodau 2.21 a 2.32 o'r Drwydded bresennol, mewn perthynas â BBC Four, a'n cynigion cyfatebol, yn gallu effeithio ar wahanol grwpiau cydraddoldeb.[297] Ar y cyfan, rydym yn credu y gallai'r newidiadau gael effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd iau a

[297] Mae cais y BBC a'n cynigion wedi'u nodi ym mharagraffau 8.65 i 8.83. Mae cyflwyniad y BBC wedi'i amgáu yn Atodiad 10 yr ymgynghoriad hwn.

chynulleidfaoedd o aelwydydd C2DE. Mae hyn oherwydd y byddent yn galluogi'r BBC i ddarparu mwy o gynnwys newydd ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth (genre mewn perygl) drwy BBC Two a BBC iPlayer yn hytrach na BBC Four. Ar hyn o bryd mae BBC Two yn cyrraedd 37% o unigolion C2DE a 15% o bobl o dan 35 oed, o'i gymharu â 10% a 2% yn y drefn honno ar gyfer BBC Four.[298] Felly rydym yn credu y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn helpu'r BBC i wasanaethu cynulleidfa ehangach. Yn y cyfamser, o dan y newidiadau arfaethedig, byddai gwylwyr BBC Four yn parhau i gael mynediad at gynnwys celfyddydol a cherddoriaeth ar BBC Four, gan gynnwys drwy'r archif a'r rhaglenni a brynir, yn ogystal â chael mynediad at gynnwys newydd o ran y celfyddydau a cherddoriaeth drwy BBC Two. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o gynulleidfa BBC Four yn gwylio BBC Two hefyd.[299]

[298] BARB gwylio wedi'i gyfuno dros 28 diwrnod, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 15 munud a mwy yn olynol, 2021.
[299] Mae ein dadansoddiad ein hunain o ddata BARB yn dangos bod 98% o wylwyr BBC Four wedi gwylio BBC Two hefyd yn Ch4 2021.

DC1 DC2 DC3 DC4

# A4. Y fframwaith cyfreithiol

A4.1 Mae pŵer Ofcom i reoleiddio’r BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf),[300] sy’n nodi, at ddibenion rheoleiddio’r BBC, y bydd gennym bwerau a dyletswyddau o’r fath y gellir eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)[301] a’r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a’r BBC (y Cytundeb).[302]

A4.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 y Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â’r BBC.[303] Mae’r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny’n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae’n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy’n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi’u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy’n briodol, rhai egwyddorion penodol eraill sy’n berthnasol yn ein barn ni. Rydym yn credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r Datganiad hwn:

a) pa mor ddymunol ydy hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;

b) anghenion pobl anabl, yr henoed a’r rheini sydd ar incwm isel;

c) barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a’r cyhoedd yn gyffredinol;

d) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o’r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[304]

A4.3 O dan y Siarter, mae’n rhaid i Ofcom roi sylw i’r canlynol, fel sy’n ymddangos i ni’n berthnasol yn yr amgylchiadau, wrth gynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â’r BBC:[305]

a) Amcan y BBC sef cyflawni ei genhadaeth[306] a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus;

b) Pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a’r

c) Gofyniad i’r BBC gydymffurfio â’i ddyletswyddau cyffredinol.[307]

---

300 Adran 198 o'r Ddeddf.
301 Y Siarter.
302 Y Cytundeb.
303 Erthygl 45(1) y Siarter.
304 Adran 3(4) o'r Ddeddf.
305 Erthygl 45(2) y Siarter.
306 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (erthygl 5 yn y Siarter).
307 Mae dyletswyddau cyffredinol y BBC wedi’u nodi yn Erthyglau 9 i 18 y Siarter ac maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ddyletswydd i hyrwyddo arloesedd technolegol, gan gynnwys drwy ganolbwyntio ar arloesi technolegol i gefnogi’r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae’r Cytundeb hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau cyffredinol ar y BBC. Mae’r rhain yn cynnwys, yng Nghymal 61, gofyniad i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod gwylwyr,

A4.4 O'r pum diben cyhoeddus,[308] mae'r canlynol yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:[309]

a) Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;

b) Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed;

c) Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau; a

d) Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

A4.5 Rydym yn nodi, yn rhinwedd erthygl 20(3)(d) o'r Siarter, ei bod yn rhaid i'r BBC osod mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo'n briodol) a chasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU310 wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau cyhoeddus.311

A4.6 Ar wahân i hynny, rydym yn nodi, yn rhinwedd erthygl 46(4)(d) o'r Siarter, y gall Ofcom osod mesurau perfformiad (yn ychwanegol at y rhai a osodwyd gan y BBC) ac y gall gasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.312 Hefyd, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel rydym yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad.313

A4.7 Yn ogystal â gosod mesurau perfformiad, mae'n rhaid i ni osod trwydded weithredu (y 'Drwydded Weithredu') sy'n cynnwys set o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw.314 Mae'r Siarter yn datgan bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

a) Cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus;

b) Sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

---

gwrandawyr a defnyddwyr eraill (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) yn gallu cael gafael ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a fwriedir ar eu cyfer, neu elfennau o'u cynnwys, mewn ystod o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol sydd ar gael neu a all fod ar gael yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys (er enghraifft) darlledu, ffrydio neu ddarparu cynnwys ar-alw, boed hynny drwy rwydweithiau daearol, lloeren, cebl neu fand eang (sefydlog neu ddi-wifr) neu drwy'r rhyngrwyd.

[308] Erthygl 6 y Siarter.

[309] Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy'r BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Ni fydd yr ail Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy'n gyfrifol am osod trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

[310] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi mewn rhestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan y BBC: Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

[311] Cymal 14(1) o'r Cytundeb.

[312] Cymal 14(2) o'r Cytundeb.

[313] Cymal 14(4) o'r Cytundeb.

[314] O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom osod trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

c) Sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.[315]

A4.8 Mae'r ddyletswydd i sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw [316] yn cael eu darparu yn arbennig o berthnasol i nifer o'r amodau rydym yn cynnig eu gosod yn yr ail Drwydded Weithredu.

A4.9 Mae Atodlen 2 o'r Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i Ofcom eu gosod drwy'r Drwydded Weithredu. Ymysg pethau eraill, mae'n darparu: Y dylai Ofcom roi sylw penodol, wrth osod yr amodau rheoleiddio, i'r angen i'r BBC sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu.

A4.10 Mae'n rhaid i ni hefyd osod gofynion cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer pob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU. [317] Yn achos pob gwasanaeth, rhaid i'r gyfran a bennir gan Ofcom at ddibenion y gofyniad cynyrchiadau gwreiddiol fod yn gymesur i'r graddau y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson.[318]

A4.11 Efallai y byddwn yn amrywio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni. Fe wnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf ym mis Hydref 2017 [319]ac mae wedi cael ei diwygio ychydig o weithiau ers 2017.[320]

A4.12 Yn ogystal â gosod Trwydded Weithredu, mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi fframwaith gweithredu.[321] Mae'r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y 'Gweithdrefnau')[322] sy'n egluro sut rydym yn gosod ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

A4.13 Mae'r Gweithdrefnau'n nodi'r ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth bennu neu ddiwygio'r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau'r drwydded weithredu a pha mor ddymunol ydy sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac yn gallu cael eu gorfodi os bydd diffyg cydymffurfio.[323] Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y gweithdrefnau (ac yn cymhwyso'r ystyriaethau y mae'n eu rhestru) ynghyd ag egwyddorion ymgynghori Ofcom (gweler Atodiad 5).

---

[315] Erthygl 46(3) y Siarter.
[316] Caiff y ddyletswydd hon ei hategu ym mharagraff 1(1) o Atodiad 2 y Cytundeb, sy'n nodi: "drwy osod yr amodau rheoleiddiol mae'n rhaid i Ofcom ystyried yn benodol yr angen i'r BBC i sicrhau'r ddarpariaeth o allbwn a gwasanaethau unigryw."
[317] Paragraff 5 (1) Cymal 2 y Cytundeb
[318] Paragraff 5 (2) Cymal 2 y Cytundeb
[319] Ofcom, 2017 (diweddarwyd Chwefror 2022) y Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC
[320] Am newidiadau i'r Drwydded Weithredu, ewch i dudalen y Fframwaith Gweithredu.
[321] Erthygl 46(2) y Siarter a Chymal 5 (1) y Cytundeb
[322] Ofcom 2017 Dal y BBC i gyfrif i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd
[323] Y Gweithdrefnau paragraffau 1.11 i 1.20

# A5. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A5.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a’ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi’u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 14 Medi 2022.

A5.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr ar wefan Ofcom. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A5.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw’n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i’w gefnogi, a fyddech chi cystal â’i anfon dros e-bost i bbcoperatinglicencereview@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â’r ddalen gyflwyno.

A5.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i’r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi’i farcio arnynt:

Tîm adolygu Trwydded Weithredu’r BBC
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A5.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- ☐ anfonwch recordiad ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai’r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma’r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
- ☐ gwnewch fideo ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu’ch ymateb, a’i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A5.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A5.7 Nid oes angen copi papur o’ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb a gyflwynwyd i ni dros yr e-bost.

A5.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A5.9 Mae croeso i chi ymateb yn Gymraeg ac ni fydd eich ymateb yn achosi oedi nac yn cael ei drin yn llai ffafriol nag ymateb Saesneg.

A5.10 Byddai’n ddefnyddiol petai modd i’ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i’r cwestiynau sy’n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae’r cwestiynau’n cael eu rhestru yn

Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

## Cyfrinachedd

A5.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

A5.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A5.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A5.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.

A5.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A5.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn gynnar yn 2023.

A5.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A5.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A5.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn

am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A5.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A6. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A6.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A6.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A6.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A6.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A6.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A6.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A6.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A7. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

# A8. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A8.1 Gofynnwn am farn a thystiolaeth rhanddeiliaid ar y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1**: Beth yw barn rhanddeiliaid am sut dylai Ofcom asesu a mesur perfformiad y BBC?

**Cwestiwn 2**: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 1? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 3**: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 2? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 4**: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 3? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 5**: Ydych chi'n cytuno â'n safbwynt rhagarweiniol ar gais y BBC i newid amodau 2.21 a 2.32 y Drwydded Weithredu ar gyfer BBC Four, gan gynnwys ein cynnig i ddileu cwota cynyrchiadau gwreiddiol oriau brig BBC Four a gosod y cwota 'pob awr' ar 65% yn hytrach na 60% yn ôl cais y BBC? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 6**: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 7**: Gyda'i gilydd, ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Dim ond crynodeb manwl wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'r rhesymeg y tu ôl iddynt wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.